



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales
(The Official Record)**

Dydd Mawrth 7 Hydref 2003

Tuesday 7 October 2003

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister
- 28 Datganiad Busnes
Business Statement
- 31 Datganiad ar Middleton—Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Statement on Middleton—The National Botanic Garden of Wales
- 45 Datganiad ar Drafodiad Hysbysadwy dan Reol Sefydlog Rhif 19.20 ar Drosglwyddo
Stoc Pen-y-bont ar Ogwr
Statement on the Notifiable Transaction under Standing Order No. 19.20 on the
Bridgend Stock Transfer
- 52 Pwynt o Drefn
Point of Order
- 53 Cymeradwyo Rheoliadau Plaleiddiaid (Uchafswm Lefel Gweddillion mewn Cnydau,
Bwyd a Phorthiant) (Lloegr a Chymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2003
Approval of the Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding
Stuffs) (England and Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2003
- 55 Cynllun Gofodol Cymru
The Wales Spatial Plan
- 78 Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Cymru): Cnydau wedi'u Haddasu'n Enetig
Minority Party Debate (Plaid Cymru): Genetically Modified Crops

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been
included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Lefelau Anweithgarwch Economaidd Economic Inactivity Levels

C1 Elin Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar lefelau anweithgarwch economaidd Cymru? (OAQ28413)

Q1 Elin Jones: Will the First Minister make a statement on economic inactivity levels in Wales? (OAQ28413)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Yn ôl yr Arolwg Gweithlu Llafur, yr oedd y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn ystod y tri mis hyd fis Gorffennaf 2003 yn 23.6 y cant o'r boblogaeth oedran gweithio, sef cwmp o 3.3 pwynt canran ers y cyfnod cyfatebol y llynedd. Mae'r gagedor wedi lleihau i fwch bach erbyn hyn.

The First Minister (Rhodri Morgan): As measured by the Labour Force Survey, the economic inactivity rate in Wales over the three months to July 2003 was 23.6 per cent of the working-age population, a fall of 3.3 percentage points since the same period in the previous year. The disparity has now decreased to a small gap.

Elin Jones: Brif Weinidog, yr ydych wedi dyfynnu ystadegau cenedlaethol, sy'n gallu cuddio llecynnau o anweithgarwch economaidd uchel iawn. Mae cyfradd o bron 40 y cant o anweithgarwch economaidd ymysg y boblogaeth oedran gweithio mewn lleoedd megis Merthyr Tudful a Blaenau Gwent. Os ydych o ddifrif ynghylch mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, pam felly eich bod, yn eich newidiadau i adolygiad canol tymor Amcan 1, yn argymhell dileu'r flaenoriaeth a roddir i'r ardaloedd ymylol hynny, megis blaenau'r Cymoedd, yn nifer o'r mesurau ariannol?

Elin Jones: First Minister, you have quoted national statistics, which can hide pockets of significant economic inactivity. The economic inactivity rate is nearly 40 per cent among the working-age population in places such as Merthyr Tydfil and Blaenau Gwent. If you are serious about tackling economic inactivity, why, in your amendments to the Objective 1 mid-term review, do you propose deleting the priority given to those marginalised areas, such as the heads of the Valleys, in many of the financial measures?

Y Prif Weinidog: Mae pawb yn derbyn y bu'r cwmp mewn diweithdra yn fwy yn ardaloedd blaenau'r Cymoedd nag mewn lleoedd eraill. Y lleoedd lle y bu diweithdra ar ei uchaf o'r blaen yw lle y bu iddo ostwng fwyaf—lleoedd fel Gwynedd, Ynys Môn, cymoedd Rhondda a Chynon, Merthyr a Blaenau Gwent. Mae lefelau anweithgarwch economaidd, ymhlith dynion dros 50 oed yn arbenning, yn rhy uchel o hyd. Mae ein prosiectau yn ceisio delio yn uniongyrchol â'r broblem honno. Yr ydym yn cydweithio'n agos â'r Adran Gwaith a Phensiynau yn Llundain yn yr ardaloedd gweithredol, lle ceir tua 12 y cant o boblogaeth Cymru, sef

The First Minister: Everyone accepts that the fall in unemployment has been greater in the heads of the Valleys areas than elsewhere. Unemployment has fallen most in those areas where it was previously at its highest—places such as Gwynedd, Anglesey, the Rhondda and Cynon valleys, Merthyr and Blaenau Gwent. Economic inactivity rates, among men aged over 50 in particular, are still too high. Our projects are trying to deal with that problem directly. We are working closely with the Department for Work and Pensions in London in the target areas, where about 12 per cent of the population of Wales lives, namely the Bridgend and Rhondda

ardal Pen-y-Bont ar Ogwr ac ardal Rhondda Cynon Taf. Bydd yr ardaloedd hynny yn cael sylw arbennig fel rhan o gynllun peilot i ddod â lefelau anweithgarwch economaidd i lawr yn nes at lefel gweddill Cymru a Phrydain.

Laura Anne Jones: I have been contacted by several constituents from areas such as Blaina and Llanwern who are concerned that they cannot access broadband services. Broadband is crucial to Wales's economic and social activity, and it can be used to improve the Welsh economy, which would reduce economic inactivity. How is the Government addressing the lack of broadband provision in these areas and other parts of Wales?

The First Minister: The Broadband Wales programme, costing £115 million, is one of our most spectacular commitments. It does not transform the situation of the availability of broadband overnight in every part of Wales. Broadband has to be rolled out. It is being rolled out very quickly because of market failure. It is difficult in an area such as Wales for the demand for broadband to manifest itself everywhere, given the level of business density, the sparsity of population, low incomes among the population, and the lack of professional employment in some parts of Wales. There are many reasons why the market will not respond on broadband. It therefore has to be a Government activity, and that is why we have the Broadband Wales programme.

The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): The First Minister will recall that during questions last week I asked him about the Government's response to the news that Great Lakes UK Ltd in Anglesey had proposed closing its plant at the end of the year, subject to consultation. I thank the First Minister for his response last week. Can I push you a little further on that? Do you support the plan, which is being discussed locally, to set up an economic regeneration action plan or strategy? Not only could Associated Octel Ltd close, but the nuclear plant at Wylfa will be closing in a few years' time, and we have also seen job losses at the Peboc Division of Eastman Chemicals (UK) Ltd's factory in Llangefni. We now need an economic regeneration strategy for the island.

Cynon Taf areas. Those areas will receive special attention as part of a pilot scheme to reduce economic inactivity levels so that they are closer to levels in the rest of Wales and Britain.

Laura Anne Jones: Mae nifer o etholwyr wedi cysylltu â mi o ardaloedd fel y Blaenau a Llanwern gan eu bod yn bryderus am na allant gael gwasanaethau band eang. Mae band eang yn hollbwysig i weithgarwch economaidd a chymdeithasol yng Nghymru, a gellir ei ddefnyddio i wella economi Cymru, gan leihau anweithgarwch economaidd. Sut y mae'r Llywodraeth yn ymdrin â diffyg darpariaeth band eang yn yr ardaloedd hyn a rhannau eraill o Gymru?

Y Prif Weinidog: Rhaglen Band Eang Cymru, sy'n costio £115 miliwn, yw un o'n hymrwymiaidau mwyaf trawiadol. Nid yw'n trawsnewid y sefyllfa dros nos o ran argaeledd band eang ym mhob rhan o Gymru. Rhaid lledaenu band eang. Mae'n cael ei ledaenu'n gyflym iawn oherwydd methiant y farchnad. Mae'n anodd mewn rhanbarth fel Cymru i'r galw am fand eang ei amlygu ei hun ym mhob man, oherwydd lefel y dwysedd busnes, teneurwydd y boblogaeth, incymau isel ymysg y boblogaeth, a diffyg cyflogaeth broffesiynol mewn rhai rhannau o Gymru. Mae llawer o resymau pam na wnaiff y farchnad ymateb ar fater band eang. Gan hynny, rhaid i Lywodraeth gymryd camau ar hynny, a dyna pam y mae rhaglen Band Eang Cymru gennym.

Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): Bydd y Prif Weinidog yn cofio imi ei holi yn ystod y cwestiynau yr wythnos diwethaf am ymateb y Llywodraeth i'r newyddion bod Great Lakes UK Cyf yn Ynys Môn wedi datgan ei fwriad i gau ei waith ar ddiwedd y flwyddyn, yn amodol ar ymgynghori. Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei ymateb yr wythnos diwethaf. A gaf fi bwysu arnoch ychydig ymhellach ar hynny? A ydych yn cefnogi'r cynllun, a drafodir yn lleol, i sefydlu cynllun gweithredu neu strategaeth adfywio economaidd? Yn ogystal â'r posibilrwydd y gallai Associated Octel Cyf gau, bydd yr orsaf drydan niwclear yn yr Wylfa yn cau ymhen ychydig flynyddoedd, a gwelsom swyddi'n cael eu colli hefyd yn Adran Peboc o ffatri Eastman Chemicals

Will you support the efforts of the local community to set up a taskforce or action group to pursue this matter with the local authority, the Welsh Development Agency, the Welsh Assembly Government and the trade unions? Will you also ask the WDA whether it is prepared to take the lead role in such a strategy, perhaps by providing a part-time secretariat support to the team that will be set up?

The First Minister: Yes. I agree, in principle, with all of those suggestions. However, I need to explore the details with Andrew Davies, as the Minister for Economic Development and Transport, and with the WDA. When we discussed this last week, I accepted the case that you put, Ieuan, that the northern half of Anglesey would be severely hit by the loss of 100 jobs, at the end of this year, at Great Lakes UK Ltd, and the loss of far more jobs in seven years' time, now that we know when Wylfa, which still employs some 500 people, will close. Clearly, the northern half of Anglesey will be badly hit. We do not want to get hung up about the exact name of the taskforce or strategy group that will be set up, nor do we want to get hung up on its exact membership—whether it is for the northern half of Anglesey or for the whole of Anglesey—but I will continue to discuss this with you when I have discussed it with Andrew Davies and the WDA. Any action taken will possibly be along the same lines as what we did in Ceredigion and north Pembrokeshire following the Dewhurst job losses in that area.

Jenny Randerson: Do you agree that a key part of your strategy for raising economic activity levels is the effective use of European structural funds? Can you therefore give us an assurance that sufficient match funding will be available in the forthcoming budget to enable best use of these funds?

The First Minister: We have managed to get rid of two thirds of the gap between Welsh and British average economic inactivity rates

(UK) Cyf yn Llangefni. Bellach mae arnom angen strategaeth adfywio economaidd ar gyfer yr ynys. A wnewch chi gefnogi ymdrechion y gymuned leol i sefydlu gweithlu neu grŵp gweithredu i fynd ynghylch y mater hwn gyda'r awdurdod lleol, Awdurdod Datblygu Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r undebau llafur? A wnewch hefyd ofyn i'r WDA a yw'n fodlon cymryd rhan arweiniol mewn strategaeth o'r fath, efallai drwy ddarparu cymorth ysgrifenyddol rhan amser i'r tîm a sefydlir?

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Yr wyf yn cytuno, mewn egwyddor, â'r holl awgrymiadau hynny. Fodd bynnag, bydd yn rhaid imi ymchwilio i'r manylion gydag Andrew Davies, fel y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, a chyda'r WDA. Pan wnaethom drafod hyn yr wythnos diwethaf, derbyniais y ddadl a roesoch, Ieuan, y byddai hanner gogleddol Ynys Môn yn profi ergyd ddifrifol o golli 100 o swyddi, ar ddiwedd y flwyddyn hon, yn Great Lakes UK Cyf, ac y byddai'n colli mwy o lawer o swyddi ymhen saith mlynedd, a ninnau'n gwybod bellach pa bryd y bydd yr Wylfa, sy'n dal i gyflogi tua 500 o bobl, yn cau. Mae'n amlwg y bydd hanner gogleddol Ynys Môn yn cael ergyd drom. Nid ydym am ymboeni'n ormodol ynghylch union enw'r tasglu neu grŵp strategaeth a sefydlir, nac ychwaith ynghylch pwy yn union fydd yr aelodau—pa un a ydyw ar gyfer hanner gogleddol Ynys Môn neu ar gyfer y cyfan o Ynys Môn—ond byddaf yn parhau i drafod hyn gyda chi wedi imi ei drafod gydag Andrew Davies a'r WDA. Bydd unrhyw gamau a gymerir yn debyg, o bosibl, i'r hyn a wnaethom yng Ngheredigion a gogledd Sir Benfro ar ôl colli swyddi Dewhurst yn yr ardal honno.

Jenny Randerson: A ydych yn cytuno mai un rhan allweddol o'ch strategaeth ar gyfer codi lefelau gweithgarwch economaidd yw'r defnydd effeithiol o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd? Felly, a allwch roi sicrwydd inni y bydd digon o gyllid cyfatebol ar gael yn y gyllideb sydd i ddod fel y gellir defnyddio'r cronfeydd hyn yn y modd gorau?

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi llwyddo i ddileu dwy ran o dair o'r bwch rhwng y cyfraddau anweithgarwch economaidd

in quite a short period—a massive achievement for employers and employees in Wales. The great success has been with women; we have not done so well with a reduction in the differential with regard to economic inactivity among men in Wales—particularly men aged over 50. We need to direct our activities where they are most needed, and at the segment of society where there appears to be the most potential for closing the gap to nothing. However, we had the biggest year-on-year reduction of all the devolved countries and English regions. No-one can compare with what we have done. On structural funds, budgetary issues will be dealt with in extensive discussions here over the next week or two. You must not interpret, or misinterpret, anything that I have said this afternoon in budgetary terms—such issues will be announced by Sue Essex in a week or two.

cyfartalog yng Nghymru a'r rhai ym Mhrydain o fewn cyfnod eithaf byr—camp aruthrol gan gyflogwyr a gweithwyr yng Nghymru. Ymysg menywod y cafwyd y llwyddiant mawr; ni wnaethom gystal wrth leihau'r gwahaniaeth mewn cysylltiad ag anweithgarwch economaidd ymysg dynion yng Nghymru—yn enwedig dynion dros 50 oed. Rhaid inni gyfeirio ein gweithgareddau i'r manau y mae eu hangen fwyaf, ac i'r rhan o gymdeithas a allai gyfrannu fwyaf, yn ôl pob golwg, at gau'r bwlch nes ei fod yn diflannu. Er hynny, ni a brofodd y gostyngiad mwyaf o'r naill flwyddyn i'r llall o'r holl wledydd datganoledig a rhanbarthau o Loegr. Nid oes neb yn cymharu â'r hyn a wnaethom ni. Ynghylch cronfeydd strwythurol, ymdrinnir â materion cyllidebol mewn trafodaethau helaeth yma dros yr wythnos neu bythefnos nesaf. Ni ddylech ddehongli, neu gamddechongli, unrhyw beth a ddywedais y prynhawn yma yng nghyd-destun y gyllideb—cyhoeddir materion o'r fath gan Sue Essex ymhen wythnos neu bythefnos.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 2 (OAQ28412) yn ôl.

The Presiding Officer: Question 2 (OAQ28412) has been withdrawn.

Addysg Bellach yn Alun a Glannau Dyfrdwy Further Education in Alyn and Deeside

Q3 Carl Sargeant: Would the First Minister make a statement on further education in the Alyn and Deeside constituency? (OAQ28407) [R]

C3 Carl Sargeant: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar addysg bellach yn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy? (OAQ28407) [R]

The First Minister: The principal deliverer of further education in that constituency is Deeside College; that will be no surprise to you. It is a centre of excellence in engineering training, has 19 outreach centres and a high proportion of part-time learners. It provides education for learners aged 16 to 19 as part of the Deeside Consortium, with three high schools in Saltney, Connah's Quay and Shotton. I am proud to be able to say that it is also one of the few colleges in Wales—if not the only one—to have won the Queen's anniversary prize for further and higher education. I congratulate it on that.

Y Prif Weinidog: Prif ddarparwr addysg bellach yn yr etholaeth honno yw Coleg Glannau Dyfrdwy; ni fydd hynny'n syndod ichi o gwbl. Mae'n ganolfan rhagoriaeth mewn hyfforddiant peirianegol, mae ganddo 19 o ganolfannau allanol a chyfran uchel o ddysgwyr rhan amser. Mae'n darparu addysg i ddysgwyr o 16 i 19 oed fel rhan o Gonsortium Glannau Dyfrdwy, gyda thair ysgol uwchradd yn Saltney, Cei Connah a Shotton. Yr wyf yn falch o allu dweud ei fod hefyd yn un o'r ychydig golegau yng Nghymru—os nad yr unig un—a enillodd wobwr pen blwydd y Frenhines i addysg bellach ac uwch. Fe'i llongyfarchaf ar hynny.

Carl Sargeant: I welcome the fact that the Welsh Labour Government recognises the important role played by further education in

Carl Sargeant: Croesawaf y ffaith bod Llywodraeth Lafur Cymru yn cydnabod y rhan allweddol y mae addysg bellach yn ei

communities across Wales, including in my constituency of Alyn and Deeside, where I am the directly elected Member. Welsh Labour policies, such as extending entitlement for Assembly learning grants to further education students and providing substantial pay increases for staff, have led to optimism and opportunity. That is in stark contrast to the depression and underfunding suffered under Tory rule. *[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order. Karl Francis is about—*[Laughter.]* Carl Sargeant, rather than Karl Francis, the distinguished film director, is about to ask his question. I am lapsing into my previous self.

Carl Sargeant: Would you join with me in welcoming the opening of the new engineering unit at Deeside College, and would you consider taking the opportunity of visiting the unit to meet staff and students?

The First Minister: I have made one visit to Deeside previously, and I would be pleased to visit the college, because it is a model of excellence. As I said, it has won the Queen's anniversary prize. The consortium model that it has developed is also important. In working closely with three high schools within easy travelling distance, and having outreach centres, it has devised a model that could be adapted to and adopted in many other parts of Wales to provide a choice of a mix of academic and vocational courses, with no stigma being attached to only doing vocational courses. We can wipe away those silly distinctions left over from the nineteenth century and ensure that choice is available across the board, whether the courses are provided in a school sixth form or a further education college. Where the education is provided does not matter, ultimately, if it suits the children and brings out the best in them, as Deeside College undoubtedly does.

Janet Ryder: Could you expand on that answer? You mentioned open access and offering choice to everyone. When you visit Deeside College and other institutions in that area, would you assess how accessible Welsh-medium education is to those students

chwarae mewn cymunedau ledled Cymru, gan gynnwys fy etholaeth i, Alun a Glannau Dyfrdwy, lle'r wyf yn Aelod a etholwyd yn uniongyrchol. Mae polisiau Llafur Cymru, fel ymestyn yr hawl i dderbyn grantiau dysgu'r Cynulliad i fyfyrwyr addysg bellach a darparu codiadau cyflog sylweddol i staff, wedi creu gobaith a chyfleoedd. Mae hynny'n gwbl wahanol i'r digalondid a'r tanariannu a brofwyd o dan reolaeth y Toriaid. *[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn. Mae Karl Francis ar fin—*[Chwerthin.]* Mae Carl Sargeant, yn hytrach na Karl Francis, y cyfarwyddwr ffilmiau nodedig, ar fin gofyn ei gwestiwn. Yr wyf yn llithro'n ôl i'm bywyd blaenorol.

Carl Sargeant: A wnewch ymuno â mi i groesawu agor yr uned peirianneg newydd yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy, ac a wnewch ystyried achub ar y cyfle i ymweld â'r uned i gwrdd â staff a myfyrwyr?

Y Prif Weinidog: Ymwelais â Glannau Dyfrdwy unwaith o'r blaen, a byddwn yn falch o ymweld â'r coleg, gan ei fod yn fodel o ragoriaeth. Fel y dywedais, enillodd wobr pen blwydd y Frenhines. Mae'r model consortiwm a ddatblygodd yn bwysig hefyd. Drwy gydweithio'n agos â thair ysgol uwchradd sydd o fewn cyrraedd hwylus, a chael canolfannau allanol, mae wedi dyfeisio model y gellid ei addasu a'i fabwysiadu mewn sawl rhan arall o Gymru i ddarparu dewis o gymysgedd o gyrsiau academiaidd a galwedigaethol, heb unrhyw waradwydd ynghylch dilyn cyrsiau galwedigaethol yn unig. Gallwn ddileu'r gwahaniaethau gwirion hynny sy'n perthyn i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a gofalu bod dewis ar gael yn gyffredinol, pa un a ddarperir y cyrsiau mewn cyfleuster chweched dosbarth mewn ysgol neu mewn coleg addysg bellach. Nid oes gwahaniaeth ym mhle y darperir yr addysg honno, yn y pen draw, os yw'n addas i'r plant ac yn ennyn y gorau ynddynt, fel y gwnaiff Coleg Glannau Dyfrdwy, yn sicr.

Janet Ryder: A allech ymhelaethu ar yr ateb hwnnw? Gwnaethoch sôn am fynediad agored a chynnig dewis i bawb. Pan ymwelwch â Choleg Glannau Dyfrdwy a sefydliadau eraill yn yr ardal honno, a wnewch asesu pa mor hygyrch yw addysg

who wish to pursue higher and further education in their first language?

cyfrwng Cymraeg i'r myfyrwyr hynny sy'n dymuno derbyn addysg bellach ac uwch yn eu hiaith gyntaf?

The First Minister: That is a matter of demand and encouragement. Where that demand and encouragement exists, we can convert it into provision. One can envisage a merging of provision for 16 to 19-year-olds, now that Education and Learning Wales is responsible for funding and ensuring it all. Previously, work-based learning used to be provided separately by the local authority. That distinction has now been wiped away. One can therefore well imagine sixth forms merging easily with the local further education college. The exception is Welsh-medium provision; it is much harder to see it happening in that case. For instance, I understand that the English-medium schools in Wrexham do not have sixth forms, as all the provision is at Yale College. However, there is a straight-through sixth form at Ysgol Morgan Llwyd. Welsh-medium provision will never quite fit in in that respect. However, it is important that people have a choice between vocational and academic courses, whether the education is provided through the medium of Welsh or English.

Y Prif Weinidog: Mae hynny'n fater o alw ac anogaeth. Os ceir y galw a'r anogaeth hynny, gallwn ei droi'n ddarpariaeth. Gall rhywun ragweld uno'r ddarpariaeth ar gyfer rhai 16 i 19 mlwydd oed, gan mai Dysgu ac Addysgu Cymru sydd bellach yn gyfrifol am gyllido a sicrhau'r cwbl ohono. O'r blaen, arferid darparu dysgu sy'n seiliedig ar waith ar wahân drwy'r awdurdod lleol. Mae'r gwahaniaeth hwnnw wedi'i ddileu bellach. Felly gellir rhagweld y bydd yn hawdd cyfuno cyfleusterau chweched dosbarth â'r coleg addysg bellach lleol. Yr eithriad yw darpariaeth cyfrwng Cymraeg; mae'n llawer llai tebygol yn yr achos hwnnw. Er enghraifft, deallaf nad oes cyfleusterau chweched dosbarth gan yr ysgolion cyfrwng Saesneg yn Wrecsam, gan fod yr holl ddarpariaeth yng Ngholeg Iâl. Fodd bynnag, gellir mynd yn syth drwodd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Morgan Llwyd. Ni fydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg byth yn ffitio i mewn yn hynny o beth. Er hynny, mae'n bwysig bod dewis ar gael rhwng cyrsiau galwedigaethol ac academiaidd, pa un a ddarperir yr addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

2.10 p.m.

Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol Helping Older People to Live Independently

Q4 Mick Bates: Will the Minister make a statement on what is being done to support older people to enable them to stay independent in their own homes? (OAQ28424)

C4 Mick Bates: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn sy'n cael ei wneud i helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi? (OAQ28424)

The First Minister: In addition to the support provided through primary care and local authority social services, we are providing funding for the rapid response adaptations programme and care and repair services. We are also supporting carers under the carers strategy; we have schemes to prevent avoidable hospital admissions, to provide six weeks' free home care following hospital discharge, and we are seeking to improve access to services through better assessment and greater consistency and

Y Prif Weinidog: Yn ogystal â'r cymorth a roddir drwy ofal sylfaenol a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, darparwn gyllid ar gyfer y rhaglen addasiadau ymateb cyflym a gwasanaethau gofal a thrwsio. Yr ydym hefyd yn cynorthwyo gofalwyr o dan y strategaeth i ofalwyr; mae gennym gynlluniau i atal derbyn rhai i ysbyty pan fo modd osgoi hynny, i ddarparu chwe wythnos o ofal am ddim yn y cartref ar ôl rhyddhau o'r ysbyty, ac yr ydym yn ceisio gwella'r mynediad i wasanaethau drwy well asesu a

fairness in home-care charges.

Mick Bates: I am sure that many of those voluntary organisations will work hard to deliver what you have outlined. A royal commission recommended that personal care be provided free of charge, and, only two weeks ago, members of that commission went public with criticism of the Labour Government's lack of action on implementing the commission's recommendations. It is also well known that your Government, when in coalition with the Liberal Democrats, was sympathetic to the idea of providing free personal care. What discussions have you had with the UK Government on introducing free personal care?

The First Minister: We did take action, as I think that you well know, Mick. I wrote to Paul Murphy on the Assembly's behalf following our debate on the issue, as you would expect me to do. The UK Government has decided that it is not among its current priorities. What you did not say, Mick, which it might benefit everyone to hear, is that the royal commission stated clearly that this should be funded out of general taxation. That is not a devolved matter. We, on the Assembly's behalf, lobbied the UK Government about moving forward on the matter. However, it has so far resisted our blandishments on that front.

Catherine Thomas: Do you agree that the ability of older people to access key services, such as those provided by the post office, is crucial to their remaining independent and in their own homes? If so, do you share my concern that the prospective closure of eight urban post offices in the Llanelli constituency will result in thousands of senior citizens being unable to access a post office close to their home? They will instead be expected to travel unacceptable distances to post offices that are not, realistically, within their reach.

The First Minister: I am grateful for that question. A depressing figure of eight urban post offices in the Llanelli area have been listed for closure. The Assembly Government

mwy o gysondeb a thegwch yn y taliadau a godir am ofal cartref.

Mick Bates: Yr wyf yn siŵr y bydd llawer o'r cyrff gwirfoddol hynny'n gweithio'n galed i ddarparu'r hyn yr ydych wedi'i ddisgrifio. Argymhellodd comisiwn brenhinol y dylid darparu gofal personol yn rhad ac am ddim, a, dim ond pythefnos yn ôl, cyhoeddodd aelodau o'r comisiwn feirniadaeth ar y diffyg gweithredu gan y Llywodraeth Lafur o ran gweithredu argymhellion y comisiwn. Mae hefyd yn wybyddus bod eich Llywodraeth, pan oedd mewn clymblaid â'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn cydymdeimlo â'r syniad o ddarparu gofal personol am ddim. Pa drafod a fu rhyngoch a Llywodraeth y DU ar gyflwyno gofal personol am ddim?

Y Prif Weinidog: Cymerasom gamau, fel y gwyddoch yn iawn, yr wyf yn credu, Mick. Ysgrifennais at Paul Murphy ar ran y Cynulliad yn dilyn ein dadl ar y pwnc, fel y disgwylich imi wneud. Penderfynodd Llywodraeth y DU nad yw'n un o'i blaenoriaethau ar hyn o bryd. Yr hyn na ddywedasoch, Mick, y gallai fod o fudd i bawb ei glywed, yw bod y comisiwn brenhinol wedi datgan yn eglur y dylid ariannu hyn o drethiant cyffredinol. Nid yw hynny'n fater a ddatganolwyd. Gwnaethom lobio Llywodraeth y DU, ar ran y Cynulliad, ynghylch symud ymlaen ar y mater. Serch hynny, mae wedi gwrthod cymryd ei pherswadio gennym ar hynny hyd yma.

Catherine Thomas: A ydych yn cytuno ei bod yn hollbwysig i bobl hŷn allu cael gwasanaethau allweddol, fel y rhai a ddarperir gan y swyddfa bost, fel y gallant aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain? Os ydych, a ydych yn rhannu fy mhryder y bydd y bwriad i gau wyth swyddfa bost drefol yn etholaeth Llanelli yn golygu y bydd miloedd o hen bensynwyr yn methu â chael mynd i swyddfa bost yn agos i'w cartref? Yn lle hynny, disgwylir iddynt deithio'n afresymol o bell i swyddfeydd post nad ydynt o fewn eu cyrraedd, yn ymarferol.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn ddiolchgar am y cwestiwn hwnnw. Rhestrwyd wyth swyddfa bost drefol i'w cau yn ardal Llanelli, ac mae hynny'n nifer torcalonnus o uchel.

was the first administration in the United Kingdom to launch a support scheme for post offices facing the risk of closure, and £2.5 million has been allocated to the post office development fund for 2002-05 with the intention of turning that pledge into action. You will be aware that Llanelli docks post office was one of the first post offices to make use of that grant assistance. Post offices can apply for a grant of up to £50,000 to improve the viability of the business through refurbishment, to investment in the joint provision of other services, such as credit unions, community shops and facilities for benefits information, and, finally, to improve the security of sub-postmasters and sub-postmistresses in the shop in response to the fear of theft. It is important that people realise that, if Llanelli docks post office was eligible to receive a grant of up to £50,000, many other post offices in Llanelli can make a similar case to the fund. I hope that they access that fund, as money is available.

Jonathan Morgan: For many people, their own home is the most appropriate setting in which to receive treatment. Do you, therefore, share my concern about the reduction in the number of domiciliary care packages over the past few years? Do you agree that the Government should address this as a matter of urgency?

The First Minister: I have had this exchange with David Melding on many occasions. You will be aware of the answer: professionals in the field have decided to restrict the number of domiciliary care packages and increase the amount of funding given to those who are in receipt of such care. That is, instead of spreading home help so that a large number of pensioners have half an hour's cleaning or an hour's shopping, a smaller number of people are kept out of hospital and residential or nursing home care by receiving a large amount of concentrated assistance. You may have read the astonishing results of the investigation by Morton Warner and his team in the Welsh Institute for Health and Social Care at the University of Glamorgan, which concluded that, of 99 people who were waiting to be admitted, or had recently been admitted, to institutional care, only six

Llywodraeth y Cynulliad oedd y weinyddiaeth gyntaf yn y Deyrnas Unedig i lansio cynllun cymorth ar gyfer swyddfeydd post sy'n wynebu'r perygl o orfod cau, a dyrannwyd £2.5 miliwn i'r gronfa datblygu swyddfeydd post ar gyfer 2002-05 gyda'r bwriad o roi'r addewid honno ar waith. Byddwch yn ymwybodol mai swyddfa bost dociau Llanelli oedd un o'r swyddfeydd post cyntaf i ddefnyddio'r cymorth grant hwnnw. Gall swyddfeydd post ymgeisio am grant o hyd at £50,000 i wneud y busnes yn fwy dichonadwy drwy adnewyddu, i fuddsoddi er mwyn cyd-ddarparu gwasanaethau eraill, fel undebau credyd, siopau cymunedol a chyfleusterau gwybodaeth am fudd-daliadau, ac, yn olaf, i wella diogeledd is-bostfeistri ac is-bostfeistresi yn y siop mewn ymateb i'r ofn o ddwyn. Mae'n bwysig i bobl sylweddoli, os oedd swyddfa bost dociau Llanelli yn gymwys i gael grant o hyd at £50,000, y gallai llawer o swyddfeydd post eraill yn Llanelli gyflwyno achos tebyg i'r gronfa. Gobeithiaf y byddant yn defnyddio'r gronfa honno, gan fod arian ar gael.

Jonathan Morgan: Yng ngolwg llawer o bobl, eu cartrefi eu hunain yw'r man mwyaf priodol i gael triniaeth. Gan hynny, a ydych yn rhannu fy mhryder ynghylch y gostyngiad yn nifer y pecynnau gofal cartref dros y blynyddoedd diwethaf? A ydych yn cytuno y dylai'r Llywodraeth ymdrin â hyn fel mater brys?

Y Prif Weinidog: Yr wyf wedi ffeirio geiriau ar hyn gyda David Melding ar lawer achlysur. Byddwch yn gwybod yr ateb: mae gweithwyr proffesiynol yn y maes wedi penderfynu cyfyngu ar nifer y pecynnau gofal cartref a chynyddu swm y cyllid a roddir i rai sy'n derbyn gofal o'r fath. Hynny yw, yn lle taenu cymorth cartref fel bod nifer fawr o bensynwyr yn cael hanner awr o waith glanhau neu awr o siopa, cedwir nifer bach o bobl rhag cael gofal mewn ysbyty neu mewn cartref preswyl neu gartref nyrsio drwy dderbyn llawer iawn o gymorth dwys. Efallai eich bod wedi darllen canlyniadau syfrdanol yr ymchwiliad gan Morton Warner a'i dîm yn Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ym Mhrifysgol Morgannwg, a ddaeth i'r casgliad mai dim ond naw o blith 99 o bobl a oedd yn disgwyl cael eu derbyn, neu wedi eu derbyn yn ddiweddar, i ofal

needed that provision. Had they received concentrated packages of domiciliary care, they would not have needed to go into hospital or into nursing or residential care. We cannot spread the butter too thinly if we want to keep people out of permanent nursing homes or old people's homes.

Ieuan Wyn Jones: A yw'r Prif Weinidog yn cytuno y dylem bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod gan yr henoed ddigon o arian i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain? Mae tlodi cynyddol ymhlith pensiywyr yn golygu ei bod yn anodd iddynt wneud hynny. A yw'r Prif Weinidog yn rhannu fy mhryder, er enghraifft, bod tua hanner ein pensiywyr yn gorfod dibynnu ar ryw fath o fudd-dal, ac nad ydyw nifer ohonynt yn gwneud ceisiadau am fudd-daliadau, megis budd-dal rhent neu fudd-dal tai? Mae perygl na fydd pensiywyr sydd yn gymwys i dderbyn y credyd pensiwn newydd yn gwneud cais amdano. Pa gamau y byddai'r Prif Weinidog yn argymhell y dylai Llywodraeth y Cynulliad eu cymryd i hysbysu pensiywyr o'u hawl i dderbyn y budd-daliadau hyn fel y gallant fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain heb orfod poeni am arian?

Y Prif Weinidog: Yr hyn yr ydych yn ei ddisgrifio yw'r modd y penderfynodd Llywodraeth San Steffan ar ei blaenoriaethau pan gafodd ei hethol yn 1997. Y peth cyntaf a wnaeth oedd targedu gweddwon a menywod dros 80 mlwydd oed—dosbarth o bensiwnwyr sydd ymhlith y bobl dlotaf ym Mhrydain Fawr. Yr oedd prawf o allu pobl i dalu, ac felly yr oedd stigma yn broblem. Ail flaenoriaeth y Llywodraeth, a gyflwynwyd yr wythnos diwethaf, oedd y credyd pensiwn, sy'n digolledu'r sawl sy'n colli'r hawl i dderbyn budd-dal oherwydd eu bod wedi etifeddu pensiwn bach gan eu gŵr neu eu gwraig neu oherwydd eu bod yn derbyn pensiwn oherwydd iddynt weithio o fewn llywodraeth leol neu i'r bwrdd trydan neu'r bwrdd nwy, er enghraifft. Efallai na fyddai hwnnw'n fwy na £10 yr wythnos, ond gallai person gollu'r hawl i dderbyn budd-daliadau eraill oherwydd bod ganddo ail bensiwn bach. Dyna bwrpas yr ail gam ymlaen. Yr ydych chi'n sôn am drydydd cam ymlaen, sef sicrhau cynnydd mawr yn y pensiwn sylfaenol, neu bensiwn y wladwriaeth, i bawb, a hynny heb unrhyw brawf o allu i

sefydliadol, a oedd ag angen y ddarpariaeth honno. Pe byddent wedi cael y pecynnau o ofal cartref dwys, ni fyddent wedi gorfod mynd i ysbyty neu i ofal nyrsio neu breswyl. Ni allwn daenu'r menyng yn rhy denau os ydym am gadw pobl rhag mynd i gartrefi nyrsio parhaol neu gartrefi hen bobl.

Ieuan Wyn Jones: Does the First Minister agree that we should emphasise the importance of ensuring that elderly people have enough money to be able to live independently in their own homes? Increasing poverty among pensioners means that it is difficult for them to do so. Does the First Minister share my concern, for example, that about half of our pensioners are dependent on some kind of benefit, and that many of them do not apply for benefits, such as rent or housing benefits? There is a danger that pensioners who are entitled to the new pension credit will not apply for it. What steps does the First Minister suggest that the Assembly Government take to inform pensioners of their entitlement to these benefits so that they can live independently in their own homes without having to worry about money?

The First Minister: What you are describing is the way in which the Westminster Government determined its priorities when it was elected in 1997. Its first course of action was to target widows and women aged 80 and above—a class of pensioners who are among the poorest people in Great Britain. They were subjected to a means test, so stigma was a problem. The Government's second priority, which was introduced last week, was the pension credit, which reimburses those who lose the right to receive benefits because they have inherited a small pension from their husband or wife, or because they receive a small pension as former local government or electricity or gas board workers, for example. Perhaps that would not amount to more than £10 a week, but some people could lose the right to receive other benefits because they have a small second pension. That is the aim of the second step forward. You are talking about a third step forward, namely ensuring a large increase in the basic pension, or the state pension, for everyone, without any form of means test. Gordon Brown cannot afford to

dal. Nid yw Gordon Brown yn gallu fforddio rhoi codiadau mawr i bobl ym mhensiwn y wladwriaeth heb fod ganddynt brawf o allu i dalu.

give people large increases in their state pension without a means test.

2.20 p.m.

Ieuan Wyn Jones: Pwysaf ar y Prif Weinidog ynghylch y mater hwn. Bu iddo godi un o'r pwyntiau pwysig yng nghydestun yr henoed, sef y prawf moddion. Mae'r Prif Weinidog yn gwybod yn iawn fod mwyafrif pensiynwyr heddiw yn rhan o ddiwylliant cymdeithasol lle y mae prawf moddion yn wrthun. Dyna paham nad yw nifer fawr ohonynt yn gwneud cais am fudd-daliadau; ni chaiff gwneud cais am fudd-daliadau sy'n amodol ar brawf moddion ei ystyried yn brofiad braf. A yw'r Prif Weinidog yn rhannu fy mhryder fod cyflwyno prawf moddion fel rhan o'r credyd pensiwn yn ei gwneud yn anodd i bobl wneud ceisiadau? A ydyw hefyd yn cefnogi ein galwad ar i bensiynwyr dderbyn taliadau sylweddol heb brawf moddion?

Ieuan Wyn Jones: I will press the First Minister on this issue. He raised one of the important points in relation to the elderly, namely the means test. The First Minister knows only too well that the majority of pensioners are part of a social culture in which means testing is frowned upon. That is why many of them do not apply for benefits; applying for means-tested benefits is not considered to be a pleasant experience. Does the First Minister share my concern that including a means test in the pension credit process will discourage people from applying? Does he also support our call for pensioners to receive substantial payments without being means tested?

Y Prif Weinidog: Nid yw'r stigma sy'n gysylltiedig â phrofi bod eich incwm yn ddigon isel i'ch gwneud yn deilwng o dderbyn budd-daliadau mor amlwg ag yr oedd yn 1997. O ran ein rhaglenni adeiladol ni, yr ydym yn ceisio dwyn perswâd ar bobl hŷn, wrth iddynt ymweld â meddyg teulu, i gael cymorth cynrychiolwyr y canolfannau cyngor-ar-bopeth sydd yn y feddygfa. Nid oes stigma yn gysylltiedig â hyn, a gwyddom fod pobl yn fodlon llenwi ffurflenni cais. Mae'r cynrychiolwyr hynny yno nid yn unig i helpu pobl gyda budd-dal analluedd neu fudd-daliadau ieuchyd eraill, ond i'w helpu gyda'r credyd pensiwn newydd a phob math o fudd-daliadau. Gan fod y cymorth ar gael yn y feddygfa, mae'r stigma yn mynd yn angof ac mae'r henoed yn manteisio ar yr holl fudd-daliadau sydd ar gael iddynt. Tynnaf sylw Aelodau, felly, at ein harbrawf yn y cyd-destun hwn, arbrawf yr wyf, gyda chymorth Gwenda Thomas, wedi ei weld ar waith yng Nghastell-nedd. Mae'r arbrawf yn gweithio'n dda ac yn helpu i gael gwared ar y stigma.

The First Minister: Compared with 1997, there is less stigma associated with proving that your income is low enough to ensure that you qualify for benefits. In terms of our constructive initiatives, we are trying to convince the elderly to seek advice from citizens advice bureau representatives when they visit their GP's surgery. There is no stigma attached to this, and we know that people are willing to fill benefit application forms. CAB representatives are present in surgeries to help people not only with incapacity benefit or other health-related benefits, but with the new pension credit and all manner of benefits. Given that this help is available in surgeries, the stigma is forgotten and elderly people take up their right to claim all the benefits available to them. I therefore draw Members' attention to our experiment in this context, which, with Gwenda Thomas's help, I have seen in action in Neath. The experiment is working well and helping to dispel this stigma.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 5 (OAQ28414) yn ôl.

The Presiding Officer: Question 5 (OAQ28414) is withdrawn.

**Colli Swyddi yn Austin Taylor
Job Losses at Austin Taylor**

Q6 Denise Idris Jones: Will the First Minister make a statement on the loss of jobs at Austin Taylor in Bethesda? (OAQ28426)

C6 Denise Idris Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y swyddi a gollwyd yn Austin Taylor ym Methesda? (OAQ28426)

The First Minister: Naturally, I am disappointed to hear of the recent announcement of the loss of 36 jobs at Austin Taylor Communications Ltd in Bethesda. The company says that it has faced enormous global pressure, as have other firms in the opto-electronics sector as they attempt to compete with lower-wage economies such as China. The WDA is working with the company to explore options to sustain its remaining, quite small operations, including opportunities to develop research and development activities in Bethesda. The National Council—ELWa, Careers Wales and Jobcentre Plus will co-ordinate action to help affected workers retrain and find alternative employment.

Y Prif Weinidog: Wrth gwrs, yr wyf yn siomedig o glywed y cyhoeddiad diweddar am gollu 36 o swyddi yn Austin Taylor Communications Cyf ym Methesda. Dywed y cwmni ei fod wedi wynebu pwysau aruthrol yn rhyngwladol, fel y mae busnesau eraill yn y sector opto-electroneg wrth iddynt geisio cystadlu ag economïau â chyflogau is fel yr hyn a geir yn Tsieina. Mae'r WDA yn gweithio gyda'r cwmni i ymchwilio i ddewisiadau i gynnal y gweithrediadau cymharol fach sy'n weddill ganddo, gan gynnwys y cyfleoedd i hybu gweithgareddau ymchwil a datblygu ym Methesda. Bydd y Cyngor Cenedlaethol—ELWa, Gyrfa Cymru a Chanolfan Byd Gwaith yn cydlynu camau i helpu'r gweithwyr yr effeithiwyd ar ynt i ailhyfforddi a dod o hyd i waith arall.

Denise Idris Jones: Austin Taylor has been a valuable employer for many years in the Bethesda area. However, last month it sent redundancy letters to 42 employees, some of whom had been working there for 32 years. This had a huge effect on their lives and on the community. I worked in partnership with Careers Wales and Jobcentre Plus, and we offered as much help as possible to staff to retrain and find alternative employment. However, since then, Austin Taylor has received another order.

Denise Idris Jones: Mae Austin Taylor wedi bod yn gyflogwr gwerthfawr yn ardal Bethesda ers blynyddoedd lawer. Er hynny, anfonodd llythyrau diswyddo y mis diwethaf at 42 o'i weithwyr, y bu rhai ohonynt yn gweithio yno er 32 flynedd. Cafodd hynny effaith ddirfawr ar eu bywydau hwy ac ar y gymuned. Gweithiais mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru a Chanolfan Byd Gwaith, a gwnaethom gynnig cymaint o gymorth ag yr oedd modd i staff i ailhyfforddi a dod o hyd i waith arall. Fodd bynnag, ers hynny, mae Austin Taylor wedi cael archeb arall.

The Presiding Officer: Order. Would you please ask a question?

Y Llywydd: Trefn. A wnewch ofyn cwestiwn, os gwelwch yn dda?

Denise Idris Jones: Even though I am pleased that the company has new work that will last a month, do you agree that there is still a major long-term employment problem in this community?

Denise Idris Jones: Er fy mod yn falch bod gwaith newydd gan y cwmni a fydd yn parhau am fis, a ydych yn cytuno bod problem fawr o ran cyflogaeth dros y tymor hir yn y gymuned hon?

The First Minister: I would be grateful if you could supply me with details of how many of the 42 jobs that were to be lost will now be saved as a result of the new order, as it would be interesting to know. Saving 20

Y Prif Weinidog: Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi manylion imi am faint o'r 42 o swyddi a oedd i gael eu colli a gaiff eu hachub bellach o ganlyniad i'r archeb newydd, gan y byddai'n ddiddorol cael

jobs could make a big difference in a community like the Ogwen valley, where Austin Taylor has been the only substantial manufacturing industry employer for about 50 years. The company originally employed 500 people, but the number has decreased continuously, and it now employs fewer than 100 people. I am pleased to hear that a new order may save some of the jobs. We can discuss the details further.

Mark Isherwood: Having contacted Austin Taylor, I was informed that the redundancies were due to labour rates in the far east, material costs and the fact that some products were already being sourced from China just to maintain business. What action do you, in partnership with your colleagues in London, intend to take to address the situation, noting that business investment in a global market is driven by flexibility and competitive levels of taxation and regulation?

The First Minister: I am pleased that, although Chinese competition is ruthless, its economy is growing rapidly, and the speed with which it grows means that there are orders from Chinese motor manufacturers and other steel consumers that have been of enormous benefit to Corus over the past 12 months. Therefore, you can sometimes benefit from the extraordinary growth of the Chinese economy, but if you are in direct competition with China, it can be difficult. Wage rates in China are increasing rapidly. I am told that in the Shanghai area standard rates for manufacturing labour have reached \$3.40, and in western China it is around half that, at \$1.70. Therefore, at £1 an hour in western China, it is still much less than the UK level, which is around four or five times greater than that figure. However, China is catching up; the differential is no longer around 1:20. The Chinese economy is developing quickly. We must avoid direct head-on competition for the same products. However, you cannot wish China were not there, because it is one of the major manufacturing powerhouses of the world's economy.

Alun Ffred Jones: Fel y gŵyr yr Aelod dros Gonwy a'r Prif Weinidog, mae'r diwydiant

gwybod. Byddai achub 20 o swyddi'n gallu gwneud gwahaniaeth mawr mewn cymuned fel dyffryn Ogwen, y mae Austin Taylor yn unig gyflogwr sylweddol ynddo mewn diwydiant gweithgynhyrchu ers tua 50 mlynedd. Yr oedd y cwmni'n cyflogi 500 i ddechrau, ond mae'r nifer wedi gostwng yn barhaus, ac mae bellach yn cyflogi llai na 100. Yr wyf yn falch o glywed y gallai archeb newydd achub rhai o'r swyddi. Gallwn drafod y manylion ymhellach.

Mark Isherwood: Ar ôl cysylltu ag Austin Taylor, rhoddwyd gwybod imi fod y diswyddiadau'n ganlyniad i gyfraddau llafur yn y dwyrain pell, costau defnyddiau a'r ffaith bod rhai cynhyrchion yn cael eu cyflenwi o Tsieina dim ond i gynnal busnes. Pa gamau yr ydych chi, mewn partneriaeth â'ch cydweithwyr yn Llundain, yn bwriadu eu cymryd i ymdrin â'r sefyllfa, gan gofio bod y buddsoddi gan fusnes mewn marchnad fyd-eang yn cael ei ysgogi gan hyblygrwydd a lefelau cystadleuol o drethu a rheoleiddio?

Y Prif Weinidog: Er bod y cystadlu oddi wrth Tsieina yn ddiarbed, yr wyf yn falch bod ei heconomi'n tyfu'n gyflym, a chan ei bod yn tyfu mor gyflym ceir archebion gan weithgynhyrchwyr moduron yn Tsieina a defnyddwyr dur eraill a fu o fudd aruthrol i Corus dros y 12 mis diwethaf. Felly, gellir cael rhai manteision o'r twf anhygoel yn economi Tsieina, ond os ydych yn cystadlu'n uniongyrchol â Tsieina, gall fod yn anodd. Mae cyfraddau cyflog yn Tsieina yn codi'n gyflym. Dywedir wrthyf fod y cyfraddau arferol am lafur gweithgynhyrchu yn ardal Shanghai wedi cyrraedd \$3.40, a'u bod tua hanner cymaint â hynny yng ngorllewin Tsieina, sef \$1.70. Felly, mae'r gyfradd o £1 yr awr yng ngorllewin Tsieina yn dal i fod yn is o lawer na lefel y DU, sydd tua phedair neu bum gwaith y ffigur hwnnw. Fodd bynnag, mae Tsieina yn ein dal; nid yw'r gwahaniaeth cyfradd yn un o tua 1:20 bellach. Mae economi Tsieina yn datblygu'n gyflym. Rhaid inni osgoi cystadlu uniongyrchol am yr un cynhyrchion. Er hynny, ni allwch ddymuno nad oedd Tsieina yn bod, gan mai hi yw un o brif bwerdai gweithgynhyrchu economi'r byd.

Alun Ffred Jones: As the Member for Conwy and the First Minister know, the

gweithgynhyrchu wedi gweld colledion swyddi mawr ers i Lafur ddod i rym yn 1997. Er enghraifft, mae 29,000 yn llai o swyddi yn y diwydiannau gweithgynhyrchu ers Mawrth 2000, a 5,000 o swyddi wedi eu colli ers Mawrth—

Y Llywydd: Trefn. Ni chredaf fod 5,000 o swyddi wedi eu colli ym Methesda, sef yr hyn yr oedd y cwestiwn yn cyfeirio ato.

Alun Ffred Jones: Yn dilyn cwestiwn Mark Isherwood, pa gamau y bydd y Prif Weinidog yn eu cymryd i atal y dirywiad hwn?

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn iawn i gyfeirio at y colledion swyddi yn y sector gweithgynhyrchu ym Methesda ac, yn fwy helaeth, drwy Gymru gyfan. Fodd bynnag, mae'n rhaid cofio y bu cynnydd mawr yng nghyfanswm y swyddi yn ein heconomi a bu gostyngiad o draean mewn diweithdra ers 1999, pan sefydlwyd y Cynulliad.

Bu gwasgu ychwanegol ar y sector gweithgynhyrchu gan fod gwerth y bunt wedi codi i lefelau cwbl afresymol o'i gymharu â'r ewro, yn enwedig yn 2000-01. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa heddiw yn fwy rhesymol o ran perthynas yr ewro a'r bunt. Fel y daw'r dydd ar ôl y nos, mae'r rhagolygon ar gyfer y sector gweithgynhyrchu wedi gwella yn ôl yr arolygon diweddaraf gan nifer o gyrff gwahanol. Maent yn edrych ymlaen at ddyfodol llawer mwy llewyrchus ar ôl y gwasgu mawr a fu yn ystod y tair blynedd diwethaf.

manufacturing industry has seen significant job losses since Labour came to power in 1997. For example, 29,000 jobs have been lost in the manufacturing industries since March 2000, and 5,000 jobs have been lost since March—

The Presiding Officer: Order. I do not believe that 5,000 jobs have been lost in Bethesda, which is what the question referred to.

Alun Ffred Jones: Following on from Mark Isherwood's question, what steps will the First Minister take to halt this decline?

The First Minister: You are right to refer to the loss of jobs in the manufacturing industry in Bethesda, and, more broadly, throughout Wales. However, we must remember that there has been a great increase in the number of jobs in our economy and unemployment has fallen by one third since 1999, when the Assembly was established.

Additional pressure was placed on the manufacturing sector because the value of the pound increased to unreasonable levels against the euro, particularly in 2000-01. However, the situation today is more reasonable in terms of the relationship between the euro and the pound. As day follows night, the forecast for the manufacturing sector has improved according to the most recent surveys conducted by various bodies. They are looking forward to a far more prosperous future after the immense pressure of the past three years.

Argaeledd Gwasanaethau Ariannol Access to Financial Services

Q7 The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): Will the First Minister make a statement on what is being done to ensure that there is access to financial services throughout Wales, including in our most disadvantaged communities? (OAQ28431)

The First Minister: That is a good question. The differential need for access to financial services impacts, not only on disadvantaged communities—which we discussed last week

C7 Arweinydd Grŵp Democratisid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod gwasanaethau ariannol ar gael i bawb yng Nghymru, gan gynnwys pobl yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig? (OAQ28431)

Y Prif Weinidog: Mae hwnnw'n gwestiwn da. Mae'r gwahanol anghenion am fynediad i wasanaethau ariannol yn effeithio ar gymunedau difreintiedig—y gwnaethom eu

in answer to Eleanor Burnham's question—but also on disadvantaged groups. That is why we have funded a scheme that works with the CABx and provides welfare rights advice in primary care settings in all 22 local health board areas in Wales. As I mentioned, in answer to Ieuan Wyn Jones earlier, the scheme dispels the reluctance felt by pensioners to seek help because they think that they are 'going on the parish' and other such old-fashioned ideas. It is important that local health board settings are used as a means of seeking advice on pensioner credits and as gateways to other more specialist services such as financial advice and debt counselling as well as advice on health-related benefits, such as incapacity and invalidity benefits, which was the original idea.

Michael German: Clearly, one of the key locations where disadvantaged communities obtain financial services is the post office. Given that the Labour Government in London is the principal shareholder in the post office, is the Government of Wales content with the fact that the post office is closing one in every three of its urban post offices? For example, when the Green Willows post office in Llantarnam closes, there is no local bus service to the nearest post office. The post office is closing its offices wherever the opportunity arises. What action is the Government taking to impress upon the UK Government that its actions in closing one in every three of our urban post offices is damaging the most disadvantaged communities, and our pensioners in particular?

2.30 p.m.

The First Minister: We share that view, but you must remember that we want to ensure that post offices in Wales increase the take-up of the grant provision that, as you are well aware, is available. Around one third of the post office network in Wales could, in principle, apply for funding—around 450 post offices in Wales are eligible for it. Application packs were sent to all post

trafod yr wythnos diwethaf mewn ateb i gwestiwn gan Eleanor Burnham—a hefyd ar grwpiau difreintiedig. Dyna pam yr ydym wedi cyllido cynllun sy'n gweithio gyda'r canolfannau cyngor ar bopeth ac yn darparu cyngor ar hawliau budd-dal mewn sefyllfaoedd gofal sylfaenol ym mhob un o'r 22 ardal bwrdd iechyd lleol yng Nghymru. Fel y dywedais, wrth ateb Ieuan Wyn Jones yn gynharach, mae'r cynllun yn cael gwared ar yr amharodrwydd y mae pensiynwyr yn ei deimlo mewn cysylltiad â cheisio cymorth gan eu bod yn teimlo eu bod yn 'mynd ar y plwyf' a syniadau hen ffasiwn eraill o'r fath. Mae'n bwysig defnyddio lleoliadau o eiddo byrddau iechyd lleol fel cyfrwng i geisio cyngor ar gredydau pensiynwyr ac fel ffordd i gyrraedd gwasanaethau eraill mwy arbenigol fel cyngor ariannol a chynghori ar ddyled yn ogystal â chyngor ar fudd-daliadau sy'n ymwneud ag iechyd, fel budd-dal analluogrwydd a budd-dal analluedd, sef y syniad gwreiddiol.

Michael German: Mae'n amlwg mai un o'r manau pwysig lle y mae cymunedau difreintiedig yn cael gwasanaethau ariannol yw'r swyddfa bost. Gan mai'r Llywodraeth Lafur yn Llundain yw'r prif gyfranddaliwr yn Swyddfa'r Post, a yw Llywodraeth Cymru yn fodlon ar y ffaith bod Swyddfa'r Post yn cau un ym mhob tair o'i swyddfeydd post trefol? Er enghraifft, bydd swyddfa bost Green Willows yn Llantarnam yn cau, ac nid oes gwasanaeth bws lleol i'r swyddfa bost agosaf. Mae Swyddfa'r Post yn cau ei swyddfeydd bob cyfle a gaiff. Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i roi ar ddeall i Lywodraeth y DU ei bod wrth gau un ym mhob tair o'n swyddfeydd post trefol yn peri niwed i'r cymunedau mwyaf difreintiedig, ac i'n pensiynwyr yn benodol?

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn rhannu'r farn honno, ond rhaid ichi gofio ein bod am sicrhau bod swyddfeydd post Cymru yn derbyn mwy o'r ddarpariaeth grant honno sydd ar gael, fel y gwyddoch. Mewn egwyddor, gallai tua un rhan o dair o'r rhwydwaith swyddfeydd post yng Nghymru wneud cais am gyllid—mae tua 450 o swyddfeydd post yng Nghymru yn gymwys

offices in the 125 most isolated areas and the 125 most deprived electoral divisions in Wales. I do not know whether the post office at Green Willows would fit into either of those categories. However, let us not despair; we are anxious to promote the fact that one third of post offices in Wales is eligible to apply for funding. Please tell them to do so. The two thirds that cannot apply will obviously take a different view, but if we use the full fund of £2.5 million that we have allocated for those 450 eligible post offices, we can then tell the UK Government that the scheme is working. The scheme can be used for security reasons, for joint operations with community shops and so on, or for general refurbishment. If we can show that the demand exists, then we will have the evidence with which to sell the scheme to the UK Government.

William Graham: You stated last week that 250 post offices in Wales were becoming involved with running low-cost financial services. It was announced the following day that an additional 150 post offices were to close. You have just told us what you are trying to do, but is this not an admission of failure?

The First Minister: No. If a third of the network in Wales is eligible to apply, and we have approved distributing around £1 million of the £2.5 million that has been allocated to the post office development fund to date, then we are a long way from exhausting the value of the scheme. We were the first administration in the UK to set up such a scheme. Only 40 per cent of the money has been approved. We want to ensure that the other 60 per cent is approved quickly. If it is, it will be a good demonstration of the untapped demand among post offices. The post offices that have already applied are situated in a huge variety of locations, not just in rural areas. It is not just a rural post office scheme; it is also for deprived urban areas such as the Llanelli docks, which I mentioned earlier in my reply to Catherine Thomas's supplementary question.

i'w gael. Anfonwyd pecynnau ymgeisio i'r holl swyddfeydd post yn y 125 o ardaloedd mwyaf diarffordd a'r 125 o adrannau etholiadol mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ni wn a fyddai'r swyddfa bost yn Green Willows yn y naill gategori neu'r llall. Fodd bynnag, na ddigalonwn; yr ydym yn awyddus i dynnu sylw at y ffaith bod un rhan o dair o swyddfeydd post Cymru yn gymwys i wneud cais am gyllid. Dywedwch wrthynt am wneud hynny, os gwelwch yn dda. Mae'n amlwg mai gwahanol fydd barn y ddwy ran o dair na all wneud cais, ond os defnyddiwn y cwbl o'r gronfa o £2.5 miliwn yr ydym wedi'i ddyrannu ar gyfer y 450 hynny o swyddfeydd post sy'n gymwys, gallwn ddweud wrth Lywodraeth y DU wedyn fod y cynllun yn gweithio. Gellir defnyddio'r cynllun i ddibenion diogeled, ar gyfer gweithrediadau ar y cyd â siopau cymunedol ac yn y blaen, neu ar gyfer adnewyddu cyffredinol. Os gallwn ddangos bod y galw'n bodoli, bydd gennym dystiolaeth y gallwn ei defnyddio i werthu'r cynllun i Lywodraeth y DU.

William Graham: Dywedasoeh yr wythnos diwethaf fod 250 o swyddfeydd post yng Nghymru yn dechrau rhedeg gwasanaethau ariannol cost-isel. Cyhoeddwyd drannoeth y byddai 150 o swyddfeydd post ychwanegol yn cau. Yr ydych newydd ddweud wrthym beth yr ydych yn ceisio'i wneud, ond onid cyfaddefiad o fethiant yw hyn?

Y Prif Weinidog: Na. Os yw un rhan o dair o'r rhwydwaith yng Nghymru yn gymwys i wneud cais, a ninnau wedi cymeradwyo dosbarthu tua £1 filiwn o'r £2.5 miliwn a ddyrannwyd i'r gronfa datblygu swyddfeydd post hyd yn hyn, yr ydym ymhell iawn o ddisbyddu gwerth y cynllun. Ni oedd y weinyddiaeth gyntaf yn y DU i sefydlu cynllun o'r fath. Dim ond 40 y cant o'r arian sydd wedi'i gymeradwyo. Yr ydym am sicrhau y caiff y 60 y cant sy'n weddill ei gymeradwyo'n gyflym. Os caiff, bydd yn brawf da bod galw o du'r swyddfeydd post sydd heb ei ateb. Mae'r swyddfeydd post sydd wedi gwneud cais eisoes mewn lleoliadau amrywiol iawn, nid mewn ardaloedd gwledig yn unig. Nid cynllun i swyddfeydd post gwledig yn unig ydyw; mae ar gyfer ardaloedd trefol difreintiedig fel dociau Llanelli, a grybwyllais yn gynharach

yn fy ateb i gwestiwn atodol Catherine Thomas.

Mynd i'r Afael â Thangyflawni, Triwanta a Gwahardd Tackling Underachievement, Truancy and Exclusion

Q8 Eleanor Burnham: What steps are being taken to tackle underachievement, truancy and exclusion in order to improve educational opportunity? (OAQ28422)

The First Minister: This is a huge issue, Eleanor, and I am pleased that you have raised it. There are several current education initiatives to address underachievement, truancy and exclusion, including proposals in the 'Learning Country: Learning Pathways 14-19' and 'Narrowing the Gap in the Performance of Schools'. We are also in the process of revising Assembly education guidance to schools on pupil disengagement, attendance and exclusion. Proposals on new exclusions legislation and guidance are currently out to consultation. I am sure that you would agree, as a former teacher, that disengagement precedes truancy. Once pupils' minds have switched off, they will eventually truant. It is important that the disengagement is discouraged before it turns into truancy.

Eleanor Burnham: As you rightly said, I used to work with disadvantaged or dysfunctional pupils—or whatever term you want to use. Can you assure me that sufficient funding will be available for the preventative work to which you alluded, as well as the curative work? As you rightly said, the pupils must be identified early on, so that they can be helped at the earliest possible stage of their educational life.

The First Minister: Indeed. We must nip the process in the bud by discovering what is turning children off school and switching them off mentally before they start to truant. I am sure that those who are preparing the new guidance will note your remarks, and my response to them. We are at present preparing the revision of the standard Assembly guidance on disengagement, attendance and exclusion.

Jeff Cuthbert: Do you agree that the

C8 Eleanor Burnham: Pa gamau sydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â thangyflawni, triwanta a gwahardd er mwyn gwella cyfleoedd addysgol? (OAQ28422)

Y Prif Weinidog: Mae hyn yn bwnc enfawr, Eleanor, ac yr wyf yn falch eich bod wedi'i godi. Ceir sawl menter addysg ar hyn o bryd i ymdrin â thangyflawni, triwanta a gwahardd, gan gynnwys cynlluniau yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19' a 'Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion'. Yr ydym hefyd ar ganol adolygu canllawiau addysg y Cynulliad i ysgolion ar ymddieithrio ymysg disgyblion, presenoldeb a gwahardd. Ymgynghorir ar hyn o bryd ar gynigion ar gyfer deddfwriaeth a chanllawiau newydd ar wahardd. Yr wyf yn siŵr y cytunech, fel cyn athrawes, fod ymddieithrio yn rhagflaenu triwanta. Wedi i ddisgyblion roi'r gorau i wrando, byddant yn triwanta yn y pen draw. Mae'n bwysig gwrthweithio ymddieithrio cyn iddo droi'n driwanta.

Eleanor Burnham: Fel y dywedasoch, arferwn weithio gyda disgyblion difreintiedig neu ddisgyblion yr oedd angen arweiniad arnynt—neu ba bynnag derm y dymunwch ei ddefnyddio. A allwch fy sicrhau y bydd cyllid ar gael ar gyfer y gwaith ataliol y cyfeiriasoch ato, yn ogystal â'r gwaith gwellhaol? Fel y dywedasoch, rhaid canfod yn gynnar pa ddisgyblion sydd angen help, fel y gellir ei roi iddynt cyn gynted ag y bo modd yn eu bywyd addysgol

Y Prif Weinidog: Yn wir. Rhaid inni ladd y broses yn yr egin drwy ddarganfod beth sy'n troi plant oddi ar ysgol ac yn cau eu meddyliau cyn iddynt ddechrau triwanta. Yr wyf yn siŵr y bydd y rhai sy'n paratoi'r canllawiau newydd yn nodi eich sylwadau, a'm hymateb iddynt. Ar hyn o bryd, yr ydym yn paratoi'r adolygiad o ganllawiau safonol y Cynulliad ar ymddieithrio, presenoldeb a gwahardd.

Jeff Cuthbert: A ydych yn cytuno bod

provision of free breakfasts for all primary school children is not only about providing a nourishing meal, but is also a means of encouraging attendance, and therefore reducing truancy?

The First Minister: I agree. Pupils can miss out on the social skills gained through sharing a breakfast with other pupils. The evidence from the 30 schools that already provide school breakfasts in Wales shows that it not only improves concentration, but social behaviour. The children are ready to be taught and their minds are open to be taught, so they stop poking each other in the ribs and misbehaving in ways that result in disciplinary action and which can then result in the children feeling, 'Well, school is not really for me; why don't I bunk off for the afternoon?' It can slow down that process and turn it around in a beneficial way.

darparu brecwast am ddim i bob plentyn mewn ysgolion cynradd yn golygu mwy na darparu pryd maethlon yn unig, a'i fod yn fodd i'w cymell i ddod i'r ysgol, a lleihau triwanta drwy hynny?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cytuno. Gall disgyblion fethu â dysgu'r sgiliau cymdeithasol a geir drwy gymryd brecwast gyda disgyblion eraill. Y dystiolaeth o'r 30 o ysgolion sydd eisoes yn darparu brecwastau ysgol yng Nghymru yw eu bod yn gwella ymddygiad cymdeithasol, yn ogystal â'r gallu i ganolbwyntio. Mae'r plant yn barod i gael eu dysgu ac mae eu meddyliau'n agored i gael eu dysgu, felly rhoddant y gorau i bwnio ei gilydd yn eu hasennau a chamymddwyn mewn modd sy'n arwain at gamau disgyblu ac sydd wedyn yn gallu peri i'r plant deimlo, 'Nid ysgol yw'r lle i mi; eithaf peth fyddai diflannu am y prynhawn'. Gall arafu'r broses honno a'i newid mewn modd llesol.

Gwella'r Cysylltiadau Trafnidiaeth i'r Cymoedd Improving Transport Links to the Valleys

Q9 Christine Chapman: Will the Minister make a statement about improving transport links into the south Wales Valleys? (OAQ28406)

C9 Christine Chapman: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wella cysylltiadau trafniadaeth i mewn i Gymoedd de Cymru? (OAQ28406)

The First Minister: The Assembly Government is working with local authorities to take forward a major programme of developing transport infrastructure in Wales, including in the Valleys. This includes major rail improvements on the Valley lines, the reopening of the Ebbw valley railway, the dualling of the Heads of the Valleys road between Tredegar and Dowlais Top, which is currently under way, and the Porth relief road. Together with other ongoing schemes, including the introduction of free bus travel for people with disabilities and those aged over 60, these measures will improve access to Valley communities and introduce better public transport links.

Y Prif Weinidog: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gydag awdurdodau lleol i fwrw ymlaen â rhaglen helaeth ar gyfer datblygu seilwaith trafniadaeth yng Nghymru, gan gynnwys y Cymoedd. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau mawr ar reilffyrdd y Cymoedd, ailagor rheilffordd cwm Ebwy, deuoli ffordd Blaenau'r Cymoedd rhwng Tredegar a Dowlais Top, sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, a ffordd liniaru'r Porth. Bydd y mesurau hyn, ynghyd â chynlluniau cyfredol eraill, sy'n cynnwys cyflwyno teithio ar fysiau am ddim i bobl ag anableddau a rhai dros 60 oed, yn gwella'r mynediad i gymunedau'r Cymoedd ac yn cyflwyno gwell cysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus.

Christine Chapman: I welcome the new half-hourly train service to the Cynon valley, which came into operation last week. I also welcome the improvements to the A465 and the A470, which will improve road access. Do you agree that it is essential for the future

Christine Chapman: Croesawaf y gwasanaeth trên newydd sy'n rhedeg bob hanner awr i gwm Cynon, a ddechreuodd yr wythnos diwethaf. Yr wyf hefyd yn croesawu'r gwelliannau i'r A465 a'r A470, a fydd yn gwella mynediad ar ffyrdd. A ydych

of the Valleys that the communities are not isolated, in cultural and economic terms, from late-night events in Cardiff? The Millennium Stadium is in Cardiff, and the Wales Millennium Centre will open here next year. Do you agree that, on the back of recent improvements, extending late-night rail services should be considered? I understand that the last train from Cardiff to the Cynon valley is at 10.30 p.m..

The First Minister: I am surprised that it is as late as 10.30 p.m.. I am pleased to hear that; I thought that you were going to say 7 p.m.. [*Laughter.*]

I agree that the better the links and the later the trains run between the Valleys and Cardiff, then the more viable that evening-work options and entertainment, leisure and social options become. I am pleased that the half-hourly service has begun, following our funding of the new passing loop and the station at Mountain Ash. It opened last Monday on my birthday and I was pleased at that, although the timing was entirely coincidental.

Michael German: Are you concerned about the secret negotiations that are in progress between the Strategic Rail Authority and Arriva, the preferred bidder for the rail services in Wales?

The First Minister: I am not sure what you mean by 'secret'. Did I hear you correctly? The negotiations are just that; I do not understand why you would want to use the word 'secret' to describe them. A huge leap forward in the provision of integrated public transport in Wales will occur when we have a single Wales and borders franchise, and we hope that negotiations will conclude shortly. I hope that Andrew Davies will be able to make a statement shortly, as soon as the SRA has completed those discussions. The SRA is not directly accountable to the Assembly, but we are intimately involved in the negotiations and are looking forward to an early and successful conclusion to them, because it is such a great leap forward.

yn cytuno ei bod yn hollbwysig er mwyn dyfodol y Cymoedd na chaiff y cymunedau eu hynysu'n ddiwylliannol ac yn economaidd oddi wrth ddigwyddiadau yn hwyr y nos yng Nghaerdydd? Mae Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd, a bydd Canolfan Mileniwm Cymru yn agor yma y flwyddyn nesaf. A ydych yn cytuno, yn ychwanegol at y gwelliannau diweddar, y dylid ystyried ymestyn gwasanaethau rheilffyrdd yn hwyr y nos? Deallaf fod y trê'n olaf o Gaerdydd i gwm Cynon yn cychwyn am 10.30 p.m..

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn synnu ei fod mor hwyr â 10.30 p.m.. Yr wyf yn falch o glywed hynny; credais eich bod ar fin dweud 7 p.m.. [*Chwerthin.*]

Cytunaf mai po gorau y bo'r cysylltiadau a pho hwyr y bo'r trenau'n rhedeg rhwng y Cymoedd a Chaerdydd, mwyaf dichonol fydd y dewisiadau o ran gweithio gyda'r nos ac o ran dewisiadau adloniant, hamdden a bywyd cymdeithasol. Yr wyf yn falch bod y gwasanaeth bob hanner awr wedi dechrau, wedi inni gyllido'r llinell osgoi a'r orsaf yn Aberpennar. Agorodd ddydd Llun diwethaf ar fy mhen blwydd ac yr oeddwn yn falch ynghylch hynny, er bod yr amseru'n gyd-ddigwyddiad llwyr.

Michael German: A ydych yn bryderus ynghylch y negodi cyfrinachol sy'n mynd rhagddo rhwng yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol ac Arriva, y dewis ymgeisydd am y gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn sicr beth a olygwch wrth 'gyfrinachol'. A wneuthum eich clywed yn iawn? Negodiadau ydynt, a dyna'r cwbl; nid wyf yn deall pam y byddech am ddefnyddio'r gair 'cyfrinachol' i'w disgrifio. Cymerir cam mawr ymlaen o ran darparu trafndiaeth gyhoeddus integredig yng Nghymru pan gawn un fasnachfrait ar gyfer Cymru a'r gororau, a gobeithiwn y daw negodiadau i ben cyn hir. Gobeithiaf y bydd Andrew Davies yn gallu gwneud datganiad cyn hir, cyn gynted ag y bydd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol wedi cwblhau'r trafodaethau hynny. Nid yw'r awdurdod yn uniongyrchol atebol i'r Cynulliad, ond yr ydym yn ymwneud yn fanwl â'r negodiadau ac yn edrych ymlaen at weld eu cwblhau'n fuan ac yn llwyddiannus, gan ei fod yn

golygu cam mor fawr ymlaen.

Michael German: It is an important issue. Has the Welsh Assembly Government been involved in the discussions between the SRA and Arriva since August 1, when it was announced that Arriva was the preferred bidder? Arriva was keen to hear our views when it was bidding for the contract; now that it is the preferred bidder, we seem to know less. The details of the final contract are currently being discussed. Can you tell us what influence you have had on those final negotiations, since August 1?

Michael German: Mae'n fater pwysig. A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd rhan yn y trafodaethau rhwng yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol ac Arriva er 1 Awst, pan gyhoeddwyd mai Arriva oedd y dewis ymgeisydd? Yr oedd Arriva yn awyddus i glywed ein barn pan oedd yn ymgeisio am y contract; ers iddo ddod yn ddewis ymgeisydd, ymddengys ein bod yn cael gwybod llai. Mae manylion y contract terfynol yn cael eu trafod ar hyn o bryd. A allwch ddweud wrthym pa ddylanwad a gawsoch ar y negodiadau terfynol hynny, er 1 Awst?

The First Minister: I will have to write to you on that. I spoke to Arriva representatives briefly at the Labour Party conference last week, but we did not have the opportunity to go into detail. I will therefore write to you about the current state of play. I do not expect that it will be many more weeks before Andrew Davies can make a statement in Plenary, with the Department of Transport and the SRA making a statement at another location.

Y Prif Weinidog: Bydd yn rhaid imi ysgrifennu atoch ar hynny. Siaredais yn fyr â chynrychiolwyr Arriva yng nghynhadledd y Blaid Lafur yr wythnos diwethaf, ond ni chawsom gyfle i fynd i fanylion. Gan hynny, ysgrifennaf atoch am y sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd. Ni ddisgwyliaf y bydd llawer o wythnosau'n mynd heibio cyn y gall Andrew Davies wneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn, tra bydd yr Adran Drafnidiaeth a'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn gwneud datganiad mewn lle arall.

2.40 p.m.

The Presiding Officer: Question 10 (OAQ28418) has been withdrawn.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 10 (OAQ28418) yn ôl.

Gwasanaethau Niwrolegol yn Sir y Fflint Neurological Services in Flintshire

Q11 Sandy Mewies: Would the First Minister make a statement on the provision of neurological services in Flintshire? (OAQ28408)

C11 Sandy Mewies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddarparu gwasanaethau niwrolegol yn sir y Fflint? (OAQ28408)

The First Minister: Neurology services for Flintshire are provided by consultants from the Walton Centre for Neurology and Neurosurgery. It is a neuroscience NHS trust that provides services in neurology, neurosurgery and pain relief.

Y Prif Weinidog: Darperir gwasanaethau niwrolegol ar gyfer sir y Fflint gan feddygon ymgynghorol yng Nghanolfan Niwroleg a Llawfeddygaeth Niwrolegol Walton. Ymddiriedolaeth GIG ar gyfer y gwyddorau niwrolegol ydyw sy'n darparu gwasanaethau niwroleg, llawfeddygaeth niwrolegol a lleddfau poen.

Health Commission Wales is responsible for commissioning specialised services, including neurology services. A review of

Comisiwn Iechyd Cymru sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau arbenigol, gan gynnwys gwasanaethau niwrolegol. Cynhelir

neurosciences, encompassing neurology, is in progress, organised by HCW. Mr David Hardy, president of the Society of British Neurological Surgeons, is heading the review.

Sandy Mewies: I hear what you say about neurological consultants and where they are located. However, is it possible to consider ways of providing neurological consultants in north Wales hospitals and of recruiting neurological nurse practitioners, who are of great value to patients in need of their services?

The First Minister: I do not want to anticipate the outcome of a review of a highly specialised area, in which I hesitate to tread. We expect the outcome of the review to go out to consultation in May 2004, with a final report being published in June or July 2004. We expect that outcome to chart the future of neurology and neurosurgery services in Wales—or just outside Wales in the case of Walton—on behalf of Welsh health boards. There is a huge national shortage of neurosurgeons and neurology consultants, to which there is no immediate, short-term solution, although overseas recruitment is an option. You also mentioned the issue of practitioner nurses specialising in the pain relief aspects of neurology. Jane Hutt or I will write to you on that point.

Janet Ryder: I hope that you can respond more positively to my point. I support the call that has just been made. In north Wales, all neurological services depend on Walton, in Liverpool, for provision. Everyone accepts that there is a shortage of specialists. However, there must be a plan to develop those services in Wales when those specialists become available, and to look at the provision of specialist nurses in particular. A specialist nurse to aid sufferers from Parkinson's disease would be beneficial, particularly in north-east Wales. For some reason, there is a large cluster of sufferers in that area, yet there are no specialist services at Wrexham Maelor Hospital. That must be considered.

adolygiad o wyddorau niwrolegol, gan gynnwys niwroleg, ar hyn o bryd, ac fe'i trefnwyd gan Gomisiwn Iechyd Cymru. Mr David Hardy, llywydd Cymdeithas Llawfeddygon Niwrolegol Prydain, sy'n arwain yr adolygiad.

Sandy Mewies: Nodaf yr hyn a ddywedwch am feddygon niwrolegol ymgynghorol a'u lleoliad. Fodd bynnag, a oes modd ystyried dulliau o ddarparu meddygon niwrolegol ymgynghorol yn ysbytai'r Gogledd ac o recriwtio nyrsys ymarferwyr niwrolegol, sy'n werthfawr iawn i gleifion y mae arnynt angen eu gwasanaethau?

Y Prif Weinidog: Nid wyf am achub y blaen ar ganlyniad adolygiad o faes sy'n dra arbenigol, y petrusaf cyn mentro iddo. Disgwyliwn y bydd ymgynghori ar ganlyniad yr adolygiad yn dechrau ym Mai 2004, ac y caiff yr adroddiad terfynol ei gyhoeddi ym Mehefin neu Orffennaf 2004. Disgwyliwn y bydd y canlyniad hwnnw'n mapio dyfodol niwroleg a gwasanaethau llawfeddygaeth niwrolegol yng Nghymru—neu ychydig y tu allan i Gymru yn achos Walton—ar ran byrddau iechyd Cymru. Mae prinder dirfawr o lawfeddygon niwrolegol a meddygon niwrolegol ymgynghorol drwy'r wlad, ac nid oes ateb tymor byr, syth i hynny, er bod recriwtio o dramor yn ddewis posibl. Cyfeiriasoch hefyd at fater ymarferwyr nyrsio sy'n arbenigo yn yr agweddau ar niwroleg sy'n ymwneud â lleddfau poen. Gwnaiff Jane Hutt neu finnau ysgrifennu atoch ar y pwynt hwnnw.

Janet Ryder: Gobeithiaf y gallwch ymateb yn fwy cadarnhaol i'r pwynt a wnaif fi. Ategap yr alwad sydd newydd gael ei gwneud. Yn y Gogledd, mae'r holl wasanaethau niwrolegol yn dibynnu ar Walton, yn Lerpwl, am y ddarpariaeth. Mae pawb yn derbyn bod prinder arbenigwyr. Er hynny, rhaid cael cynllun i ddatblygu'r gwasanaethau hynny yng Nghymru pan fydd yr arbenigwyr hynny ar gael, ac i ystyried darparu nyrsys arbenigol yn benodol. Byddai nyrs arbenigol i gynorthwyo rhai sy'n dioddef gan glefyd Parkinson yn llesol, yn enwedig yn y Gogledd-ddwyrain. Am ryw reswm, mae clwstwr mawr o ddiodeffwyr yn yr ardal honno, ac eto nid oes unrhyw wasanaethau arbenigol yn Ysbyty Wrecsam

Maelor. Rhaid ystyried hynny.

The First Minister: I accept all that you say. However, among the most difficult issues with regard to NHS provision within or on the borders of Wales is the feeling that, as a matter of pride almost, we must have a service inside Wales. That is not always realistic. I commend the new cancer services at Glan Clwyd Hospital, which replace those that used to be provided in Manchester at Christie Hospital NHS Trust or at Clatterbridge Hospital on the Wirral. Bringing those services into Wales has proved successful. It is expensive, but it has proved tremendous value for money. However, you cannot do that for every speciality service immediately. As we have said with regard to children's services, Alderhey is the designated centre and will be for the foreseeable future. We will not have a children's hospital unit in north Wales; we will rely on Alderhey. You cannot always relocate these services to Wales. However, I accept your point about the provision of specialist nurses, who must be community-based to care for those with conditions such as Parkinson's disease—especially if there is a cluster of such sufferers in north-east Wales.

Y Prif Weinidog: Derbyniaf y cwbl a ddywedwch. Fodd bynnag, un o'r materion mwyaf anodd mewn cysylltiad â darpariaeth y GIG yng Nghymru neu ar hyd ei gororau yw'r teimlad, o ran balchder bron, fod rhaid inni gael gwasanaeth oddi mewn i Gymru. Nid yw hynny'n ymarferol bob amser. Cymeradwyaf y gwasanaethau canser newydd yn Ysbyty Glan Clwyd, sy'n cymryd lle'r rhai yr arferid eu darparu ym Manceinion yn Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Christie ac yn Ysbyty Clatterbridge yng Nghilgwri. Gwelwyd mai llwyddiant oedd dod â'r gwasanaethau hynny i Gymru. Mae'n ddrud, ond mae wedi rhoi gwerth da iawn am arian. Er hynny, ni ellir gwneud hynny yn achos pob gwasanaeth arbenigol ar unwaith. Fel y dywedasom mewn cysylltiad â gwasanaethau i blant, Alderhey yw'r ganolfan ddynodedig ac felly y bydd hyd y gellir rhagweld. Ni chawn uned ysbyty plant yn y Gogledd; byddwn yn dibynnu ar Alderhey. Ni ellir adleoli'r gwasanaethau hyn yng Nghymru ym mhob achos. Er hynny, derbyniaf y pwynt a wnaethoch am ddarparu nyrsys arbenigol, y mae'n rhaid eu lleoli yn y gymuned i ofalu am rai sydd ag anhwylder fel clefyd Parkinson—yn enwedig os oes clwstwr o ddiodefwr o'r fath yn y Gogledd-ddwyrain.

Gallu Pensiynwyr i Dalu y Dreth Gyngor Pensioners' Ability to Pay Council Tax

Q12 Glyn Davies: Will the First Minister make a statement on his Government's policy on the ability of Welsh pensioners to pay current levels of council tax? (OAQ28423)

C12 Glyn Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar bolisi ei lywodraeth ar allu pensiynwyr Cymru i dalu'r lefelau cyfredol o dreth y cyngor? (OAQ28423)

The First Minister: I acknowledge that the council tax burden on pensioners, or anybody on a fixed income, can be a concern. However, local councils are responsible for taking the final decisions on budgets and council tax levels, not the Assembly. They will raise council tax to a level they regard as acceptable to their community, which includes those on fixed incomes, and to the level considered necessary to deliver the vital services that local people want at a price that they can pay, including services to people on fixed incomes.

Y Prif Weinidog: Cydnabyddaf fod baich y dreth gyngor ar bensiynwyr, neu unrhyw rai sydd ag incwm penodol, yn gallu peri pryder. Fodd bynnag, cynghorau lleol sy'n gyfrifol am benderfynu'n derfynol ar gyllidebau a lefelau treth gyngor, nid y Cynulliad. Codant y dreth gyngor i lefel yr ystyriant ei bod yn dderbyniol i'w cymuned, sy'n cynnwys y rhai sydd ag incwm penodol, ac i'r lefel y bernir ei bod yn angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaethau hanfodol y mae pobl leol am eu cael am bris y gallant ei fforddio, gan gynnwys gwasanaethau i bobl ag incwm penodol.

Glyn Davies: That is an interesting response. However, is it not unacceptable for your Government to make headline-grabbing, vote-winning announcements such as that on the teachers' workload agreement without identifying the money to pay for them, thereby forcing local councils to levy ever-higher council taxes, which, as you have just said, hit pensioners particularly hard? Do you accept responsibility for the current, cruelly high levels of council tax and the pain that this is causing to Welsh pensioners?

The First Minister: I think that it is a bit rich of you to say that in the week of the Tory Party conference, which is dominated by headline-grabbing, or would-be headline-grabbing, announcements. However, it is quite right to raise the issue that you touched upon, namely that local authority elections are coming up in June 2004, and it will be apparent to electors whether the level of council tax is higher than they think is reasonable. If they think that is so, they will take the appropriate democratic action to encourage parties promising lower levels of tax. On the other hand, people want services. Brokering that deal between providing services and paying for them in the most reasonable way is the long-standing paradox of democracy. However, next year is an election year, and most local authorities in Wales will be conscious of that, and that unreasonable increases will be penalised in the ballot box.

Brian Gibbons: Do you not agree that, by definition, low-income pensioners are concentrated in the areas of greatest social and economic need in Wales, and that the Welsh Assembly Government has introduced the deprivation fund to try to address this injustice? Is it not ironic and hypocritical of the Conservative Party to criticise the deprivation fund and to claim that it is interested in low-income pensioners? It does not make sense.

The First Minister: Many things do not make sense when all you are interested in is headline-grabbing announcements, and I am

Glyn Davies: Mae hwnnw'n ymateb diddorol. Fodd bynnag, onid yw'n annerbyniol bod eich Llywodraeth yn gwneud cyhoeddiadau i fachu'r penawdau ac ennill pleidleisiau, fel yr un ar gytundeb baich gwaith yr athrawon, heb ganfod yr arian i dalu amdanynt, gan orfodi cynghorau lleol i godi trethi cyngor uwch byth, sydd, fel yr ydych newydd ddweud, yn taro pensiynwyr yn arbennig o galed? A ydych yn derbyn cyfrifoldeb am y lefelau presennol o'r dreth gyngor, sy'n greulon o uchel, a'r boen y mae hyn yn ei hachosi i bensiynwyr Cymru?

Y Prif Weinidog: Credaf ei bod braidd yn ormod ichi ddweud hynny yn wythnos cynhadledd y Blaid Dori'aid lle y rhoddir y lle blaenaf i gyhoeddiadau sy'n cipio, neu geisio cipio, y penawdau. Fodd bynnag, cwbl briodol yw codi'r mater y cyfeiriasoch ato, sef y cynhelir etholiadau i awdurdodau lleol ym Mehefin 2004, ac y bydd yn amlwg i etholwyr a yw lefel y dreth gyngor yn uwch na'r hyn a ystyriant yn rhesymol. Os credant hynny, byddant yn cymryd y camau democrataidd priodol i hybu pleidiau sy'n addo lefelau treth is. Ar y llaw arall, mae pobl am gael gwasanaethau. Taro'r fargen rhwng darparu gwasanaethau a thalu amdanynt yn y modd mwyaf rhesymol yw'r hen baradocs mewn democratiaeth. Fodd bynnag, blwyddyn etholiad yw'r flwyddyn nesaf, a bydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru yn ymwybodol o hynny ac o'r ffaith y cânt eu cosbi drwy'r blwch pleidleisio os bydd cynnydd afresymol.

Brian Gibbons: A ydych yn cytuno bod y rhan fwyaf o bensiynwyr sydd ag incwm isel yn byw, drwy ddiffiniad, yn yr ardaloedd mwyaf anghenus yn gymdeithasol ac yn economaidd yng Nghymru, a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno'r gronfa amddifadedd i geisio ymdrin â'r anghyfiawnder hwn? Onid eironig a rhagrithiol ar ran y Blaid Geidwadol yw beirniadu'r gronfa amddifadedd a honni ei bod yn ymddiddori mewn pensiynwyr sydd ag incwm isel? Nid yw'n gwneud synnwyr.

Y Prif Weinidog: Mae llawer o bethau nad ydynt yn gwneud synnwyr os mai'ch unig ddiddordeb yw gwneud cyhoeddiadau sy'n

afraid that we are seeing a lot of that this week. I understand the Tory Party's dilemma: it feels that it has been ignored. The Tories, at the back of the class, want to put their hands up and ensure that the teacher, at the front of the class, notices them, and that teacher is the British people. We will find out in a couple of years' time whether the British people take them seriously.

Alun Ffred Jones: Daeth pensïynwraig weddw ataf ddydd Gwener diwethaf. Mae hi'n byw mewn pentref ar lan y môr, mewn teras o 12 tŷ. Mae naw o'r tai hyn yn dai gwyliau. Oherwydd y lleoliad, bydd ailfandio'n codi ei thŷ o leiaf un band, ac efallai ddau fand. Sut y byddwch yn cyfiawnhau'r codiad hwnnw i'r wraig hon, a pha gyngor a fyddwch yn ei gynnig i'w helpu i dalu am y codiad?

Y Prif Weinidog: Mae ailfandio yn niwtral o ran costau. Os oes rhai sy'n talu mwy, bydd eraill yn talu llai. Felly, am beth yr ydych yn cwyno? Ni allwch fynd drwy ganrif, er enghraifft, heb newid lefelau'r dreth gyngor bob 10 neu 20 mlynedd wrth ichi ailwerthuso gwerth tai. Bydd rhai'n elwa; bydd eraill ar eu colled. Mae'n rhaid ichi fod yn ddigon dewr i wneud y newidiadau hyn bob 10 mlynedd. Byddai peidio â newid y lefelau am 20 mlynedd yn achosi strach, gan y byddai'r newidiadau wedyn yn rhy fawr. Ni allwch newid y lefelau bob pum mlynedd gan y byddai hynny'n creu gormod o waith. Felly, yr ydym yn gorfod ailwerthuso tai bob 10 mlynedd. Os yw gwerth rhai tai wedi codi'n fwy na thai eraill, dylai'r perchenogion tai hynny dalu mwy o dreth gyngor oherwydd gwerth rhent eu tai. Gwerth rhent tai yw sail y dreth gyngor. Bydd rhai ar eu colled a bydd rhai yn ennill, ond mae'r broses yn niwtral o ran cyfanswm y dreth a godir.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): I am sure that you would agree that the reason all parties hold conferences is to catch headlines and to get messages across. On the serious issue of pensioner poverty, do you agree that it exists throughout Wales, and that it is not limited to the Valleys, as Brian Gibbons suggested?

cipio'r penawdau, ac mae arnaf ofn ein bod yn gweld llawer o hynny yr wythnos hon. Yr wyf yn deall cyfyng-gyngor y Blaid Doriaidd: mae'n teimlo ei bod yn cael ei hanwybyddu. Mae'r Toriaid, a hwythau yng nghefn y dosbarth, am godi eu dwylo a sicrhau bod yr athro, ym mlaen y dosbarth, yn sylwi arnynt, a'r athro hwnnw yw pobl Prydain. Cawn wybod ymhen blwyddyn neu ddwy a yw pobl Prydain yn eu cymryd o ddifrif.

Alun Ffred Jones: A widowed pensioner came to see me last Friday. She lives in a coastal village, in a terrace of 12 houses. Nine of those houses are holiday homes. The location means that rebanding will see her house rise by at least one band and maybe two. How will you justify that increase to this widow, and what advice will you offer her to help her pay for the increase?

The First Minister: Rebanding is cost-neutral. If some people pay more, others will pay less. Therefore, what are you complaining about? You cannot go through a century, for example, without changing the council tax levels every 10 to 20 years, as you re-evaluate house values. Some will benefit; others will lose out. You have to be brave enough to make these changes every 10 years. Leaving the levels unchanged for 20 years would cause problems, as the changes would then be too drastic. You cannot change the levels every five years, as that would create too much work. Therefore, we must re-evaluate houses every 10 years. If the value of some houses has risen more than others, those homeowners should pay more council tax because of the rental values of their houses. Council tax is based on the rental value of houses. Some will lose out and others will gain, but it is a cost-neutral process with regard to the total amount of tax raised.

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Yr wyf yn siŵr y cytunech mai amcan pob plaid wrth gynnal cynhadledd yw cipio penawdau a chyfleu negeseuon. Ynghylch y mater difrifol o dlodi ymysg pensïynwyr, a ydych yn cytuno ei fod yn bodoli ledled Cymru, ac nad yw'n gyfyngedig i'r Cymoedd, fel yr awgrymodd

Given the fact that council tax increases have impinged particularly heavily on people on fixed-incomes and on pensioners, and because the Labour Government has not provided local authorities with sufficient funding, is not one way of dealing with this problem to restore the link with earnings so that pensioners will receive—

The Presiding Officer: Order. Party leaders, including the leader of the Welsh Conservatives, should be listened to in relative calm.

Nick Bourne: With the link restored, pensioners will receive a £7 increase over the length of the next Parliament. Would that not better enable them to pay the unreasonable increases that are being fed through by virtue of your action or inaction?

2.50 p.m.

The First Minister: It is by virtue of your action as a party that the link was broken in the first place. In 1980, back in the old days of the mark 3 Ford Cortina with the fluffy dice bobbing up and down in the back window, a certain Prime Minister with the initials MT, whose name escapes me, abolished the link between the level of wages and state pension increases, and made a great virtue of that. Coming along 20 years later, claiming the credit for attempting to con pensioners in this country that you will restore the link that you broke, when you are not even willing to accept that you broke it in the first place, and conning pensioners that you can pay for it by cutting taxes, is the most extraordinary confidence trick. Fortunately, pensioners in Great Britain are far too sensible to accept the three-card trick from salesmen such as your party leader.

Nick Bourne: It is not only a certain Prime Minister's initials that you have forgotten. You have also forgotten that the Labour opposition promised to restore this link, and it did not do so. Are you in favour of restoring that link so that we can take pensioners out of poverty? It was abolished in 1980, you will recall, because inflation was running so high at the end of the 1970s—because of your mob—that it had to

Brian Gibbons? Yng ngolwg y ffaith bod codiadau yn y dreth gyngor wedi taro rhai ag incwm penodol a phensiynwyr yn arbennig o galed, ac oherwydd nad yw'r Llywodraeth Lafur wedi rhoi digon o gyllid i awdurdodau lleol, onid un modd i ddelio â'r broblem hon yw adfer y cysylltiad ag enillion fel y bydd pensiynwyr yn derbyn—

Y Llywydd: Trefn. Dylid gwranddo ar arweinyddion plaid, gan gynnwys arweinydd Ceidwadwyr Cymru, mewn tawelwch cymharol.

Nick Bourne: Ar ôl adfer y cysylltiad, bydd pensiynwyr yn derbyn £7 o gynnydd dros gyfnod y Senedd nesaf. Oni fyddai hynny'n ei gwneud yn haws iddynt dalu'r codiadau afresymol sy'n dod i'w rhan oherwydd eich gweithredu neu ddiffyg gweithredu chi?

Y Prif Weinidog: Oherwydd camau a gymerwyd gennych chi fel plaid y torrwyd y cysylltiad hwnnw yn y lle cyntaf. Yn 1980, yn ôl yn nyddiau'r Ford Cortina math 3 gyda'r deis blewog yn siglo i fyny ac i lawr yn y ffenestr gefn, bu i ryw Brif Weinidog â'r blaenlythrennau MT, nad wyf yn cofio ei henw, ddiddymu'r cysylltiad rhwng lefel cyflogau a chynnydd mewn pensiwn gwladol, gan weld mantais fawr yn hynny. Yr ydych yn chwarae'r tric rhyfeddaf drwy hawlio'r clod 20 mlynedd yn ddiweddarach am geisio twyllo pensiynwyr yn y wlad hon i gredu y byddwch yn adfer y cysylltiad a dorasoch, a chithau'n anfodlon derbyn ichi ei dorri yn y lle cyntaf hyd yn oed, a thwylllo pensiynwyr drwy ddweud y gallwch dalu amdano drwy dorri trethi. Yn ffodus, mae pensiynwyr ym Mhrydain Fawr yn rhy gall o lawer i gymryd eu twyllo gan ystryw rhai fel arweinydd eich plaid chi.

Nick Bourne: Nid blaenlythrennau rhyw Brif Weinidog yw'r unig beth yr ydych wedi'i anghofio. Yr ydych hefyd wedi anghofio bod yr wrthblaid Lafur wedi addo adfer y cysylltiad hwn, ac na wnaeth hynny. A ydych o blaid adfer y cysylltiad hwnnw fel y gallwn achub pensiynwyr o dlodi? Fe'i diddymwyd yn 1980, fel y cofiwch, am fod chwyddiant mor uchel ar ddiwedd y 1970au—oherwydd eich criw chi—fel bod rhaid gwneud hynny.

be done. Circumstances are different now. We can take pensioners out of poverty by restoring the link with earnings. Are you in favour of that? Will you convince your Westminster colleagues that that is good, so that pensioners in Wales, impoverished by your local government policy, can better afford those council tax bills?

The First Minister: When Margaret Thatcher broke the link in 1980, inflation in this country was 23 per cent—50 per cent higher than it was when Labour left office when it was only 15 per cent. Therefore, it is not a consequence of a Labour Government. I do not know why you are also in denial about that—talk about denial not just being a big river in Egypt, when it is all over the Tory party here. You are drowning in denial. The important thing is to solve pensioner poverty—[*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. The quid pro quo for leaders of the opposition parties being listened to in relative calm is that they do not try to barrack the First Minister.

The First Minister: That would be a first. Labour directed its efforts during its early years in Government, in 1997, specifically to solve the problem of pensioner poverty, with all the problems of stigma that we have mentioned. Nevertheless, it solved the problem of pensioner poverty by directing assistance directly at the poorest pensioners, which would not happen under your proposal. Secondly, as of last week, it has directed attention at those with small but rather useless pensions—usually local authority, gas board and electricity board pensions—that are maybe worth £10 a week, but they lose more than that in passported benefits. The pensioner tax credit solves that problem, if we can overcome the stigma. One way to do that is through the ‘Better Health, Better Wales’ initiative, which I mentioned. If a GP tells you in the surgery, ‘Go to see the Citizens Advice Bureaux person waiting for you in the surgery, who will help you fill in the tax credit form’, that is the right way to solve pensioner poverty, as we are doing. It is a combination of Westminster action and our

Mae’r amgylchiadau’n wahanol bellach. Gallwn achub pensïynwyr o dlodi drwy adfer y cysylltiad ag enillion. A ydych o blaid hynny? A wnewch argyhoeddi eich cyd-aelodau yn San Steffan ei fod yn beth da, fel y bydd pensïynwyr yng Nghymru, sy’n wynebu tlodi oherwydd eich polisi llywodraeth leol, yn ei chael yn haws fforddio’r biliau treth gyngor hynny?

Y Prif Weinidog: Pan dorrodd Margaret Thatcher y cysylltiad yn 1980, yr oedd chwyddiant yn y wlad hon yn 23 y cant—50 y cant yn uwch nag ydoedd pan ddaeth cyfnod Llafur mewn grym i ben, pan nad oedd ond yn 15 y cant. Gan hynny, nid ydyw o ganlyniad i weithredoedd Llywodraeth Lafur. Ni wn pam yr ydych yn gwrthod derbyn hynny ychwaith gan ei bod yn amlwg mai hynny y mae’r blaid Dori’aid yn ei wneud yn hyn o beth. Yr ydych yn methu’n lân â’i dderbyn. Y peth pwysig yw cael ateb i dlodi ymysg pensïynwyr—[*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Y gymwynas a delir am wrando ar arweinyddion y gwrthbleidiau mewn tawelwch cymharol yw na fyddant hwy’n ceisio gweiddi ar draws y Prif Weinidog.

Y Prif Weinidog: Byddai hynny’n beth newydd. Yn ystod ei blynnyddoedd cyntaf mewn Llywodraeth, yn 1997, aeth Llafur ati’n benodol i geisio datrys problem tlodi ymysg pensïynwyr, ynghyd â’r holl broblemau o ran gwarthnodi yr ydym wedi cyfeirio atynt. Er hynny, datrysodd broblem tlodi ymysg pensïynwyr drwy gyfeirio cymorth yn uniongyrchol at y pensïynwyr tlotaf, ac ni ddigwyddai hynny o dan eich cynllun chi. Yn ail, o’r wythnos diwethaf ymlaen, mae wedi cyfeirio ei sylw at y rhai sydd â phensiwn bach ond braidd yn dila—pensiynau awdurdodau lleol, y bwrdd nwy a’r bwrdd trydan fel arfer—sydd efallai’n werth £10 yr wythnos, ond collant fwy na hynny ar ffurf budd-daliadau a gaent yn awtomatig. Mae’r credyd treth i pensïynwyr yn datrys y broblem honno, os gallwn oresgyn yr ymdeimlad o warthnodi. Un modd i wneud hynny yw’r fenter ‘Gwell Iechyd, Gwell Cymru’, a grybwyllais. Os dywed meddyg teulu wrthyf yn y feddygfa, ‘Ewch i weld yr aelod o staff y Canolfannau Cyngor ar Bopeth sy’n disgwyl amdanoch yn y

stigma-free initiatives.

feddygfa, a fydd yn eich helpu i lenwi'r ffurflen credyd treth', dyna'r ffordd iawn i ddatrys tlodi ymysg pensiynwyr, fel yr ydym yn gwneud. Mae'n gyfuniad o gamau gan San Steffan a'n mentrau ni sy'n rhydd oddi wrth warthnodi.

Datganiad Busnes Business Statement

The Business Minister (Karen Sinclair): I have three changes to report to this week's business. Alun Pugh has postponed his statement scheduled for today on the free swimming scheme in order to accommodate a statement on the National Botanic Garden of Wales. Following Alun's statement, Edwina Hart will make a statement under Standing Order No. 19.20 on a notifiable transaction. Tomorrow, I will propose a motion under Standing Order No. 34.4 to suspend Standing Order No. 6.36 to enable the topic for tomorrow's short debate to come forward. The business for the next three weeks is as set out on the Chamberweb under supporting documents. Finally, I have no determinations to report under Standing Order No. 22.5.

Y Llywydd: A oes gwrthwynebiadau i'r datganiad busnes? Gwelaf nad oes. A oes sylwadau?

Janet Ryder: We are still waiting for a debate on ELWa, Minister. We were promised that debate soon, and we were hoping to have it soon. We are disappointed as a party that that has not come forward and that it will be mid-November, I believe, before it can do so. Will you reconsider and try to find an earlier slot for a debate on ELWa?

Last week, the First Minister indicated that he accepted the need to hold a Plenary debate on the annual report of the Children's Commissioner for Wales. When will that be timetabled?

Finally, when you organise Assembly business, is it Subject Committees or Regional Committees that take precedence, in that no other business is arranged to clash

Y Trefnydd (Karen Sinclair): Mae gennyf dri newid i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae Alun Pugh wedi gohirio ei ddatganiad ar y cynllun nofio am ddim, a amserlennwyd ar gyfer heddiw, er mwyn inni allu cynnwys datganiad ar Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Ar ôl datganiad Alun, bydd Edwina Hart yn gwneud datganiad o dan Reol Sefydlog Rhif 19.20 ar drafodiad hysbysadwy. Yfory, cynigiau gynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 34.4 i atal Rheol Sefydlog Rhif 6.36 fel y gellir dwyn gerbron y pwnc ar gyfer y ddadl fer yfory. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi ar we'r Siambr o dan ddogfennau ategol. Yn olaf, nid oes gennyf unrhyw benderfyniadau i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog Rhif 22.5.

The Presiding Officer: Are there any objections to the business statement? I see that there are none. Are there any comments?

Janet Ryder: Yr ydym yn dal i ddisgwyl dadl ar ELWa, Weinidog. Addawyd inni y caem y ddadl honno yn fuan, ac yr oeddem yn gobeithio ei chael yn fuan. Yr ydym yn siomedig fel plaid nad yw hynny wedi'i ddwyn gerbron ac y bydd yn rhaid disgwyl tan ganol Tachwedd, yr wyf yn credu, cyn y gellir gwneud hynny. A wnewch ailystyried a cheisio dod o hyd i amser fel y gellir cynnal y ddadl ar ELWa yn gynharach?

Yr wythnos diwethaf, dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn derbyn bod angen cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru. Pa bryd y caiff honno ei hamserlennu?

Yn olaf, pan ydych yn trefnu busnes y Cynulliad, ai Pwyllgorau Pwnc ynteu Pwyllgorau Rhanbarth a gaiff flaenoriaeth, fel na threfnir unrhyw fusnes arall yr un

with them? Attending Regional Committees is just as important as attending Subject Committees, and Members should give both equal priority.

Jonathan Morgan: Minister, I made two specific requests when I spoke to you earlier. First, I spoke of the need for the Assembly to debate the Wanless report. We know that the Committee will consider the report, but it was commissioned by Edwina Hart and supported by the Government, and so we feel that the Assembly should have the opportunity to debate this important piece of work.

Secondly, I asked for the Minister for Health and Social Services to make a statement on the implications of the European Union ruling allowing residents of one member state to receive treatment in state-run hospitals of other member states, if they have suffered undue delay in waiting for an operation. Will the Minister make a statement outlining the implications for Wales, which could be severe?

Kirsty Williams: I echo the request made this morning regarding last week's court judgment—it was not an EU ruling, Jonathan—about access to treatment for people who have waited unduly for treatment in this country. The consequences for our health budget could be huge.

Secondly, on timetabling business, I understand that, this Friday, there will be a clash between the meetings of the Business Partnership and the South East Wales Regional Committee, which means that one of our representatives must decide which meeting to attend. When inquiries were made as to why that clash had occurred, we were informed that provision had to be made to avoid problems with the First Minister's diary. Is Assembly business now to be arranged around the First Minister, rather than Assembly Members?

The Business Minister (Karen Sinclair): I will begin by responding to the points on ELWa, as several people asked about that. I informed the Business Committee this morning that the Minister for Education and Lifelong Learning had hoped to schedule a

pryd? Mae ymbresenoli mewn Pwyllgorau Rhanbarth yr un mor bwysig ag ymbresenoli mewn Pwyllgorau Pwnc, a dylai Aelodau roi'r un flaenoriaeth i'r ddau.

Jonathan Morgan: Weinidog, gwneuthum ddau gais penodol pan siaredais â chi'n gynharach. Yn gyntaf, soniais am yr angen i'r Cynulliad gael dadl ar adroddiad Wanless. Gwyddom y bydd y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad, ond fe'i comisiynwyd gan Edwina Hart a'i gefnogi gan y Llywodraeth, ac felly teimlwn y dylai'r Cynulliad gael cyfle i drafod y gwaith pwysig hwn.

Yn ail, gofynnais am i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad ar oblygiadau dyfarniad yr Undeb Ewropeaidd sy'n caniatáu i breswylwyr un aelod wladwriaeth gael triniaeth yn ysbytai gwladol aelod wladwriaethau eraill, os ydynt wedi gorfod disgwyl yn rhy hir am lawdriniaeth. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad i ddisgrifio'r goblygiadau i Gymru, a allai fod yn rhai difrifol?

Kirsty Williams: Ategef y cais a wnaed y bore yma ynghylch dyfarniad llys yr wythnos diwethaf—nid dyfarniad gan yr UE ydoedd, Jonathan—ynghylch gallu pobl i gael triniaeth os buont yn disgwyl yn rhy hir amdani yn y wlad hon. Gallai'r canlyniadau i'n cyllideb iechyd fod yn rhai aruthrol.

Yn ail, ynghylch amserlennu busnes, yr wyf yn deall y bydd gwrthdaro y dydd Gwener yma rhwng cyfarfodydd y Bartneriaeth Busnes a Phwyllgor Rhanbarth y Ddeddwyrain, sy'n golygu y bydd un o'n cynrychiolwyr yn gorfod penderfynu pa gyfarfod y bydd yn ei fynychu. Pan wnaed ymholiadau ynghylch y rheswm am y gwrthdaro hwn, dywedwyd wrthym fod rhaid ceisio osgoi problemau o ran dyddiadur y Prif Weinidog. A drefnir busnes y Cynulliad er hwylustod y Prif Weinidog bellach, yn hytrach nag er hwylustod Aelodau'r Cynulliad?

Y Trefnydd (Karen Sinclair): Dechreuaf drwy ymateb i'r pwyntiau a wnaed am ELWa, gan fod sawl un wedi holi am hynny. Rhoddais wybod i'r Pwyllgor Busnes y bore yma fod y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi gobeithio amserlennu dadl ar

debate on the ELWa action plan on 21 October. However, we have been informed by PricewaterhouseCoopers that it will not be in a position to publish its independent review of the action plan until the end of this month. Therefore, a debate will not be possible until after the half-term recess. However, I assure you, as I have tried to do previously, that a debate on the action plan will be held and a Plenary slot will be found for the Minister's response to the Audit Committee's report. The timing of that statement depends on the date that the Audit Committee lays its report.

On Regional Committee meetings, which Kirsty also touched upon, although differently, I have checked and all the North Wales Members who were not present at the Committee were busy working on behalf of the people of north Wales. It was regrettable; I cannot say otherwise. I am sorry that that clash happened. We will have to seriously consider how to deal with clashes on Fridays. We will work on that, but that is as much as I can say.

On Wanless, Jonathan, the Health and Social Services Committee is scheduled to consider the action plan on 5 November, as I said this morning. I can also confirm that a debate on the action plan is scheduled for 18 November.

Regarding patients reclaiming health service costs incurred abroad, the judgment in the High Court of *R. (on the application of Watts) v. Bedford Primary Care Trust and another* was announced on 1 October. The claimant lost her case to seek reimbursement of the costs of healthcare treatment in France because treatment was available without undue delay in England. However, the Department of Health lost the application on the freedom to provide services within the provision of the EC treaty. It is a complex case, and, along with their Department of Health colleagues, health officials are assessing the implications of the judgment on waiting times in England and Wales. An announcement on those implications will be

gynllun gweithredu ELWa ar 21 Hydref. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd gan PricewaterhouseCoopers na fydd mewn sefyllfa i allu cyhoeddi ei adolygiad annibynnol o'r cynllun gweithredu tan ddiwedd y mis. Gan hynny, ni fydd modd cynnal dadl tan ar ôl y toriad hanner tymor. Er hynny, yr wyf yn eich sicrhau, fel y ceisiais wneud o'r blaen, y cynhelir dadl ar y cynllun gweithredu ac y canfyddir amser mewn Cyfarfod Llawn ar gyfer ymateb y Gweinidog i adroddiad y Pwyllgor Archwilio. Mae amseriad y datganiad hwnnw'n dibynnu ar y dyddiad y bydd y Pwyllgor Archwilio yn cyflwyno ei adroddiad.

Ynghylch cyfarfodydd Pwyllgorau Rhanbarth, y cyfeiriodd Kirsty atynt hefyd, er mewn modd gwahanol, yr wyf wedi holi, ac yr oedd yr holl Aelodau o'r Gogledd nad oeddent yn bresennol yn y Pwyllgor yn brysur yn gweithio ar ran pobl y Gogledd. Yr oedd yn destun gofid; ni allaf ddweud fel arall. Mae'n ddrwg gennyf fod y gwrthdaro hwnnw wedi digwydd. Bydd yn rhaid inni ystyried o ddifrif sut i ddelio â gwrthdaro ar ddydd Gwener. Gweithiwn ar hynny, ond dyna'r cwbl y gallaf ei ddweud.

Ynghylch adroddiad Wanless, Jonathan, mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i fod i ystyried y cynllun gweithredu ar 5 Tachwedd, fel y dywedais y bore yma. Gallaf gadarnhau hefyd yr amserlennwyd dadl ar y cynllun gweithredu ar gyfer 18 Tachwedd.

Ynghylch adennill costau gwasanaeth iechyd y mae cleifion yn ei gael dramor, cyhoeddwyd y dyfarniad yn yr Uchel Lys ar *R. (ar gais Watts) v. Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Bedford ac un arall* ar 1 Hydref. Collodd yr hawlydd ei hachos i geisio ad-daliad am gostau triniaeth gofal iechyd yn Ffrainc am fod triniaeth ar gael heb oedi gormodol yn Lloegr. Fodd bynnag, collodd yr Adran Iechyd y cais ar y rhyddid i ddarparu gwasanaethau o dan ddarpariaeth cytuniad y Gymuned Ewropeaidd. Mae'n achos cymhleth, ac, ar y cyd â'u cydweithwyr yn yr Adran Iechyd, mae swyddogion iechyd yn asesu goblygiadau'r dyfarniad ar amseroedd aros yng Nghymru a Lloegr. Gwneir cyhoeddiad ar y goblygiadau hynny cyn

made as soon as possible.

gynted ag y bo modd.

3.00 p.m.

*Derbyniwyd y datganiad busnes.
Business statement adopted.*

Datganiad ar Middleton—Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru Statement on Middleton—The National Botanic Garden of Wales

The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh): With your permission, Llywydd, I wish to make a statement on Middleton, the National Botanic Garden of Wales. In Plenary last week, I agreed to make a full statement regarding the financial crisis at Middleton. Yesterday's announcement by the board of trustees, who are responsible for the operation and management of the garden, provides me with a timely opportunity to update Members on the situation at Middleton. I also intend to outline the continuing efforts being made by the Welsh Assembly Government and our partners to secure a long-term future for the garden.

I think that it would be helpful for me, at the outset, to set out the background as to where we are today, particularly in terms of the Assembly Government's support. Middleton, the National Botanic Garden of Wales, was established as an independent, self-financing organisation. The business plan, which was accepted by the Millennium Commission as an integral part of the application for capital funding, was built on the premise that visitor revenue at the gate would cover day-to-day staffing costs and overheads.

The trustees' ability to pay their way, therefore, depends wholly on the garden's ability to attract visitors and generate income from those visitors. Despite efforts by the board of trustees and the management of the garden, visitor numbers have declined steadily since Middleton opened in May 2000—from 220,000 in 2000-01 to 195,000 in 2001-02 and an estimated 150,000 for the 2002-03 financial year. As a result, Middleton has accumulated substantial trading deficits and now has an overdraft of nearly £2 million.

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh): Gyda'ch caniatâd, Lywydd, dymunaf wneud datganiad ar Middleton, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Yng Nghyfarfod Llawn yr wythnos diwethaf, cytunais i wneud datganiad llawn ynghylch yr argyfwng ariannol ym Middleton. Mae'r cyhoeddiad a wnaed ddoe gan fwrdd yr ymddiriedolwyr, sy'n gyfrifol am redeg a rheoli'r ardd, yn cynnig cyfle amserol imi roi'r newyddion diweddaraf i Aelodau am y sefyllfa ym Middleton. Yr wyf hefyd yn bwriadu disgrifio'r ymdrechion parhaus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'n partneriaid i sicrhau dyfodol tymor hir i'r ardd.

Credaf y byddai'n fuddiol, ar y dechrau, imi nodi cyd-destun y sefyllfa yr ydym ynddi heddiw, yn enwedig o ran cymorth Llywodraeth y Cynulliad. Sefydlwyd Middleton, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, fel corff annibynnol a fyddai'n ariannu ei hun. Yr oedd y cynllun busnes, a dderbyniwyd gan Gomisiwn y Mileniwm fel rhan annatod o'r cais am gyllid cyfalaf, yn seiliedig ar y rhagdybiaeth mai'r refeniw a gynhyrchid gan daliadau mynediad ymwelwyr a fyddai'n talu am y costau staffio a'r costau cyffredinol o ddydd i ddydd.

Gan hynny, mae gallu'r ymddiriedolwyr i dalu eu ffordd yn dibynnu'n llwyr ar allu'r ardd i ddenu ymwelwyr a chreu incwm o'r ymwelwyr hynny. Er gwaethaf ymdrechion bwrdd yr ymddiriedolwyr a rheolwyr yr ardd, mae niferoedd yr ymwelwyr wedi gostwng yn gyson ers i Middleton agor ym Mai 2000—o 220,000 yn 2000-01 i 195,000 yn 2001-02 ac i amcangyfrif o 150,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2002-03. O ganlyniad i hynny, mae Middleton wedi cronni diffygion masnachu sylweddol ac mae ganddo bellach orddrafft o ymron i £2 filiwn.

Middleton first approached the Welsh Assembly Government for financial assistance in the summer of 2002. At that time, we agreed to provide a grant of £360,000. This funding was made available to help meet essential operating costs while KPMG, acting on behalf of the Assembly Government, carried out a full financial review of Middleton and examined its future potential for generating sufficient income to be self-financing. KPMG concluded that investment in the facilities at Middleton would be necessary to improve visitor numbers.

As a result, a further grant of £1.06 million was made available to Middleton to allow management and trustees sufficient time in which to develop a new and comprehensive business plan that would aim to demonstrate future viability as a result of that investment. This total support of £1.4 million clearly demonstrates the Welsh Assembly Government's commitment to Middleton and to securing its future.

The business plan produced by Middleton concluded that, without substantial capital investment in facilities and attractions, visitor numbers would not improve to the levels necessary for the garden to become self-financing. It should be noted that the increase necessary would be approximately 60 per cent on current visitor levels.

The success of the trustees' business plan was predicated on a staged investment over the next three to four years, totalling some £8 million. According to that business plan, this investment would lead to an increase in visitor numbers that would ensure that Middleton would be able to fund its own activities without requiring future subsidies. As I have already mentioned, the increase necessary would amount to millions of pounds.

While it is clear that further investment could have a positive impact on visitor numbers, we have concluded that the capital programme proposed in Middleton's business plan would still not deliver the increase in visitor numbers necessary to achieve financial self-

Daeth Middleton at Lywodraeth Cynulliad Cymru i ofyn cymorth ariannol am y tro cyntaf yn haf 2002. Bryd hynny, cytunasom i ddarparu grant o £360,000. Darparwyd y cyllid hwn i helpu i dalu am gostau rhedeg hanfodol tra bu KPMG yn cynnal adolygiad ariannol llawn o Middleton, ar ran Llywodraeth y Cynulliad, gan ymchwilio i'w allu i gynhyrchu digon o incwm i'w ariannu ei hun yn y dyfodol. Daeth KPMG i'r casgliad y byddai angen buddsoddi yn y cyfleusterau ym Middleton er mwyn codi niferoedd yr ymwelwyr.

O ganlyniad i hynny, darparwyd grant pellach o £1.06 miliwn i Middleton i ganiatáu digon o amser i'r rheolwyr a'r ymddiriedolwyr ddatblygu cynllun busnes newydd a chynhwysfawr a fyddai'n ceisio dangos y byddai'n ddichonadwy yn y dyfodol o ganlyniad i'r buddsoddiad hwnnw. Mae cyfanswm y cymorth o £1.4 miliwn yn dangos yn glir ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i Middleton ac i sicrhau ei ddyfodol.

Y casgliad yn y cynllun busnes a luniwyd gan Middleton oedd na fyddai niferoedd yr ymwelwyr yn codi i'r lefelau sydd eu hangen i'r ardd allu ei hariannu ei hun heb fuddsoddi cyfalaf sylweddol mewn cyfleusterau ac atyniadau. Dylid nodi y byddai angen cynnydd o oddeutu 60 y cant ar y niferoedd ymwelwyr presennol.

Yr oedd llwyddiant cynllun busnes yr ymddiriedolwyr yn ddibynnol ar fuddsoddi graddol dros y tair neu bedair blynedd nesaf, hyd at gyfanswm o tua £8 miliwn. Yn ôl y cynllun busnes hwnnw, byddai'r buddsoddi hwn yn arwain at gynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr a fyddai'n sicrhau bod Middleton yn gallu ariannu ei weithgareddau ei hun heb ofyn cymorthdaliadau yn y dyfodol. Fel y dywedais eisoes, byddai'r cynnydd sydd ei angen yn dod i filiynau o bunnoedd.

Er ei bod yn amlwg y gallai buddsoddi pellach roi hwb i niferoedd yr ymwelwyr, daethom i'r casgliad na fyddai'r rhaglen gyfalaf a gynigir yng nghynllun busnes Middleton yn ddigon i sicrhau'r cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr sydd ei angen er

sustainability.

Against this background, we have been exploring a range of other options for securing a long-term future for the garden. In considering these options we have worked in co-operation with the trustees and the management at Middleton, and with our key public sector partners—Carmarthenshire County Council, the Welsh Development Agency and, of course, the Wales Tourist Board. In addition to examining different ways in which Middleton could operate, we have been working closely with the trustees in seeking to identify potential investors or partners who might be interested in playing a part in the future operation of Middleton. To give more time for that work to be completed, at the end of September we offered Middleton a final one-off grant of £150,000 to meet essential operating costs during October, taking total Welsh Assembly Government support to over £1.5 million.

Suggestions that the Assembly Government has not supported the garden are nonsense, but everyone must understand that the Assembly Government cannot and will not support huge losses on an open-ended basis.

Over the last week or so, the trustees have been making efforts to put together a funding package that would enable them to continue to operate beyond the end of October. This culminated in a meeting of key stakeholders last week at which Carmarthenshire County Council indicated that it was willing, in principle, to match the £150,000 offered by the Welsh Assembly Government. The Millennium Commission also indicated that it was prepared to provide funding of £53,000. The total funding package, amounting to some £353,000, will allow the trustees to continue to operate Middleton after the end of October, albeit on a reduced scale.

The board of trustees announced yesterday that it would accept this further funding package and confirmed that Middleton would remain open at least in the short term. In seeking to reduce costs at the garden, it is inevitable that the trustees have had to take some difficult economic decisions regarding

mwyn i'r ardd allu cynnal ei hun yn ariannol.

Yn y cyd-destun hwn, buom yn ymchwilio i amryw o ddewisiadau eraill ar gyfer sicrhau dyfodol tymor hir i'r ardd. Wrth ystyried y dewisiadau hyn, buom yn gweithio ar y cyd â'r ymddiriedolwyr a'r rheolwyr ym Middleton, a chyda'n partneriaid allweddol yn y sector cyhoeddus—Cyngor Sir Caerfyrddin, Awdurdod Datblygu Cymru ac, wrth gwrs, Bwrdd Croeso Cymru. Yn ogystal ag ymchwilio i wahanol ddulliau posibl o redeg Middleton, yr ydym wedi cydweithio'n agos â'r ymddiriedolwyr wrth geisio dod o hyd i fuddsoddwyr neu bartneriaid posibl a allai fod â diddordeb mewn cymryd rhan yn y gwaith o redeg Middleton yn y dyfodol. Er mwyn caniatáu mwy o amser i gwblhau'r gwaith hwnnw, ar ddiwedd Medi cynigiasom un grant terfynol o £150,000 i Middleton i dalu am y costau rhedeg hanfodol yn ystod Hydref, gan ddod â chyfanswm cymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru i fwy nag £1.5 miliwn.

Lol yw unrhyw awgrym nad yw Llywodraeth y Cynulliad wedi cefnogi'r ardd, ond rhaid i bawb ddeall na all ac na wnaiff Llywodraeth y Cynulliad gynnal colledion enfawr yn ddi-ben-draw.

Dros yr wythnos diwethaf, fwy neu lai, mae'r ymddiriedolwyr wedi ymdrechu i lunio pecyn cyllid a fyddai'n eu galluogi i barhau i weithredu ar ôl diwedd Hydref. Arweiniodd hyn at gynnal cyfarfod o'r prif randdeiliaid yr wythnos diwethaf lle y nododd Cyngor Sir Caerfyrddin ei fod, mewn egwyddor, yn fodlon rhoi arian i gyfateb i'r £150,000 a gynigiwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Nododd Comisiwn y Mileniwm hefyd ei fod yn fodlon darparu cyllid o £53,000. Bydd y pecyn cyllid cyfan, sy'n dod i tua £353,000, yn caniatáu i'r ymddiriedolwyr barhau i redeg Middleton ar ôl diwedd Hydref, er y bydd hynny ar raddfa lai.

Cyhoeddodd bwrdd yr ymddiriedolwyr ddoe y byddai'n derbyn y pecyn cyllid ychwanegol hwn a chadarnhaodd y byddai Middleton yn aros yn agored yn y tymor byr o leiaf. Mae'n anochel bod yr ymddiriedolwyr, wrth geisio gostwng y costau yn yr ardd, wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau economaidd

the workforce. I understand that many of the staff at Middleton will be facing redundancy. The Welsh Assembly Government is of course deeply concerned about potential job losses and will do all it possibly can, with its Team Wales partners, to assist employees affected by the announcement and help people to re-enter the labour market quickly.

I am greatly encouraged by the financial support that Carmarthenshire County Council and the Millennium Commission have offered to provide. This clearly demonstrates that there is potential for partnership in seeking a long-term, sustainable future for the garden. Our immediate priority is to support the trustees' in their efforts to implement a robust strategy for identifying potential investors or partners.

I reaffirm the Welsh Assembly Government's continuing commitment to working with Middleton to achieve a successful outcome. I do not want to see the garden close. It would be bad for Carmarthenshire and bad for Wales, but, given the scale of losses and the significant drop in visitor numbers, Members will understand that I cannot offer a guarantee of success.

Rhodri Glyn Thomas: Croesawaf gynnwys y datganiad hwn ynghyd â'r tôn. Mae'n dra gwahanol i'r hyn a glywsom gennych wythnos diwethaf. Bryd hynny, nid oeddech yn barod i gydnabod yr ardd fel Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Mae angen canmol y partneriaid eraill, sef Cyngor Sir Caerfyrddin, Comisiwn y Mileniwm, Bwrdd Croeso Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru, am fod mor greadigol a chynhyrchiol. Maent wedi arwain y Llywodraeth i edrych yn greadigol ar y sefyllfa a sicrhau ein bod yn sôn am ddyfodol Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Er ichi sôn am ddyfodol yr ardd, yr oeddech ar yr un pryd yn cyfeirio at daliad terfynol o £150,000. A ydych yn dweud na fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid ychwanegol pellach i'r ardd fotaneg genedlaethol yn Llanarthne? Paul Murphy, pan oedd yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a

anodd mewn cysylltiad â'r gweithlu. Yr wyf yn deall y bydd llawer o'r staff ym Middleton yn cael eu diswyddo. Wrth gwrs, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bryderus dros ben ynghylch y posibilrwydd o golli swyddi a gwnaiff bopeth yn ei gallu, gyda'i phartneriaid yn Nhîm Cymru, i helpu gweithwyr y bydd y cyhoeddiad yn effeithio arnynt ac i helpu pobl i ailymuno â'r farchnad lafur yn gyflym.

Fe'm calonogwyd yn fawr gan y cymorth ariannol y mae Cyngor Sir Caerfyrddin a Chomisiwn y Mileniwm wedi ei gynnig. Mae hynny'n dangos yn glir fod cyfle i weithio mewn partneriaeth wrth geisio dyfodol tymor hir, cynaliadwy i'r ardd. Ein blaenoriaeth gyntaf yw cynorthwyo'r ymddiriedolwyr yn eu hymgais i roi strategaeth gadarn ar waith i ddod o hyd i fuddsoddwyr neu bartneriaid posibl.

Ailddatganaf fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn glynu at ei ymrwymiad i weithio gyda Middleton i sicrhau canlyniad llwyddiannus. Nid wyf am weld yr ardd yn cau. Byddai'n newyddion drwg i Sir Gaerfyrddin ac yn newyddion drwg i Gymru, ond, o ystyried maint y colledion a'r gostyngiad sylweddol yn niferoedd yr ymwelwyr, bydd Aelodau'n deall na allaf gynnig gwarant o lwyddiant.

Rhodri Glyn Thomas: I welcome the content of your statement as well as its tone. It is very different from what we heard last week, when you were not prepared to acknowledge the garden as the National Botanic Garden of Wales. The other partners, namely Carmarthenshire County Council, the Millennium Commission, the Wales Tourist Board and the Welsh Development Agency, should be praised for being so creative and productive. They have led the Government to look creatively at the situation and to ensure that we are talking about the future of the National Botanic Garden of Wales.

Although you spoke of the garden's future, you also referred to a final payment of £150,000. Are you saying that the Government of Wales will not provide further additional funding for the national botanic garden in Llanarthne? It was Paul Murphy, as Secretary of State for Wales, who

roddodd deitl yr ardd iddi. Cydnabuwyd a hyrwyddo'r teitl hwnnw gan y Prif Weinidog ar ei fynych ymweliadau â'r ardd a chan Weinidogion eraill. A ydych chi'n dweud nad yw Llywodraeth Cymru yn barod i roi unrhyw gyfraniad pellach i'r ardd?

Yr wyf am eich atgoffa am yr hyn a ddigwyddodd gyda'r Pwll Mawr. Yr ydym oll yn ymwybodol o bwysigrwydd y Pwll Mawr i'n trefnadaeth. Pan aeth y safle i drafferthion ariannol, fe'i rhoddwyd o dan ofal Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru. Felly yr oedd Llywodraeth Cymru yn fwy na hapus yn yr achos hwnnw i sicrhau ymrwymiad ariannol parhaol i'r Pwll Mawr. Pam felly y mae'r Gweinidog yn ymddwyn yn wahanol gyda Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru?

Bu ichi gyfeirio at swyddi, Weinidog, ac yr wyf yn siŵr y byddwch yn dweud wrthym eu bod yn fater i'r ymddiriedolwyr yn hytrach na Llywodraeth Cymru. A ydych yn derbyn y bydd colli 55 o swyddi yn sir Gaerfyrddin yn golled enfawr i'r sir o ran datblygu economaidd? Bu ichi sôn y byddwch chi a phartneriaid yn Nhîm Cymru yn gwneud yr hyn y gallwch i sicrhau y bydd cyfleoedd o ran swyddi eraill yn y sir. Byddwn yn falch pe baech yn gallu fy nghyfeirio at yr opsiynau hynny o ran swyddi yn sir Gaerfyrddin. Soniasoch am weithredu gyda llai o staff, sef 15 aelod o staff llawn amser yn yr ardd. A ydych yn hyderus bod modd iddi weithredu fel gardd fotanegol genedlaethol gyda 15 o staff llawn amser cyflogedig yn unig?

3.10 p.m.

Finally, I remind you that your title includes the word 'culture'. Is it not surprising, therefore, that, last week, you—the Minister for Culture, Welsh Language and Sport in the Welsh Assembly Government—referred to the National Botanic Garden of Wales in Llanarthne as purely a centre attracting visitors? Does that not question your credibility as the Minister for culture? What will we get from you next? Will you tell us that opera is purely a form of kareoke, or that ballet is a form of disco dancing? As culture Minister, in all seriousness, do you not have some responsibility to the National Botanic

gave the garden its title. That title has been acknowledged and promoted by the First Minister on his many visits to the garden and by other Ministers. Are you saying that the Government of Wales is not prepared to make any further contribution to the garden?

I wish to remind you of what happened in the case of Big Pit. We are all aware of how important Big Pit is to our heritage. When the pit faced financial problems, it was placed under the auspices of the National Museums and Galleries of Wales. Therefore the Government of Wales was more than happy to make a long-term financial commitment to Big Pit. Why, therefore, is the Minister behaving differently in the case of the National Botanic Garden of Wales?

You mentioned jobs, Minister, which I am sure you will say is a matter for the trustees, not the Government of Wales. Do you accept that the loss of 55 jobs in Carmarthenshire will come as a huge blow to the county in terms of economic development? You said that you and your Team Wales partners will do what you can to ensure that there will be new job opportunities in the county. I would be grateful if you would refer me to those options in terms of jobs in Carmarthenshire. You mentioned operating with fewer staff, namely 15 full-time staff in the garden. Are you confident that it can work as a national botanic garden with just 15 full-time staff?

Yn olaf, yr wyf yn eich atgoffa bod teitl eich swydd yn cynnwys y gair 'diwylliant'. Onid yw'n syndod, felly, i chi—y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn Llywodraeth Cynulliad Cymru—gyfeirio, yr wythnos diwethaf, at Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Llanarthne fel canolfan denu ymwelwyr yn unig? Onid yw hynny'n codi amheuaeth ynghylch eich hygrededd fel y Gweinidog dros ddiwylliant? Beth a ddywedwch nesaf? A ddywedwch wrthym nad yw opera ond yn ffurf ar garaoce, neu fod bale yn fath ar ddawnsio disgo? A bod o ddifrif, a chithau'n Weinidog

Garden of Wales, or do you not care because it happens to be in Carmarthenshire? Kew Gardens in London gets £20 million; the National Botanic Gardens of Scotland in Edinburgh gets £6 million. The garden in Carmarthen asks for a final payout of £150,000, that is all—your words, Minister.

Alun Pugh: Some of that rant was absurd, but I accept that the loss of employment will be a bitter blow to those who work there, although we have not yet received a definitive statement on job descriptions or numbers from the trustees. I want to make it clear that there is no question of there being an open-ended subsidy from the public purse, no matter how much you shout.

Yes, some educational and scientific work is undertaken at the garden—every visitor attraction in Wales, worth its salt, will have some element of an educational mission. At its heart, the fundamental problem is that, as a visitor attraction, it is not sufficiently attractive to visitors. In the long term, it must generate enough income at the gate and through catering to support its operating costs. That is the fundamental problem.

I accept the point raised about the Big Pit, but we have considered the option of nationalising the garden and have concluded that the cost involved is prohibitive. It is not simply a question of a bank overdraft, but of trade creditors and on-going subsidies. We estimate that the cost to the public purse of re-constituting the garden at Middleton as a national institution, with free admission, would be around £20 million.

Christine Gwyther: We cannot rewrite history. Some people think that this Millennium Commission project should not have been developed in west Wales; I disagree. It is in a beautiful setting and can and should be the mainstay of Carmarthenshire tourism. However, we must be realistic. The visitor experience needs to be more memorable for the day visitor. The garden needs 250,000 visitors per annum to

dros ddiwylliant, onid oes gennych rywfaint o gyfrifoldeb dros Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, neu a yw'n ddibwys gennych am ei bod yn digwydd bod yn Sir Gaerfyrddin? Mae Gerddi Kew yn Llundain yn cael £20 miliwn; mae Gardd Fotaneg Genedlaethol yr Alban yng Nghaeredin yn cael £6 miliwn. Mae'r ardd yng Nghaerfyrddin yn gofyn am daliad olaf o £150,000, dyna'r cwbl—eich geiriau chi, Weinidog.

Alun Pugh: Yr oedd peth o'r truth hwnnw'n chwertthinllyd, ond yr wyf yn derbyn y bydd colli cyflogaeth yn ergyd drom i'r rhai sy'n gweithio yno, er nad ydym wedi cael datganiad pendant ar ddisgrifiadau neu nifer y swyddi gan yr ymddiriedolwyr. Yr wyf am roi ar ddeall nad oes unrhyw bosibilrwydd o roi cymhorthdal diddiwedd o'r pwrs cyhoeddus, ni waeth pa faint y gwaedddech.

Ie, gwneir rhywfaint o waith addysgol a gwyddonol yn yr ardd—bydd pob atyniad i ymwelwyr yng Nghymru, sy'n werth ei halen, â rhyw fath o genhadaeth addysgol. Yn y bôn, y broblem sylfaenol yw nad ydyw, fel atyniad i ymwelwyr, yn ddigon atyniadol i ymwelwyr. Yn y tymor hir, rhaid iddo godi digon o incwm drwy docynnau mynediad a thrwy arlwyio i dalu ei gostau rhedeg. Dyna'r broblem sylfaenol.

Yr wyf yn derbyn y pwynt a wnaed am y Pwll Mawr, ond yr ydym wedi ystyried y dewis o wladoli'r ardd ac wedi dod i'r casgliad bod y gost sydd ynglŷn â hynny'n ormodol. Nid mater o orddrafft banc yn unig yw hyn, ond o greddydwyr masnachol a chymorthdaliadau parhaus. Amcangyfrifwn y byddai ailgyfansoddi'r ardd ym Middleton yn sefydliad cenedlaethol, gyda mynediad am ddim, yn costio tua £20 miliwn i'r pwrs cyhoeddus.

Christine Gwyther: Ni allwn ailysgrifennu hanes. Mae rhai'n credu na ddylai'r prosiect Comisiwn y Mileniwm hwn fod wedi'i ddatblygu yn y Gorllewin; yr wyf fi'n anghytuno. Mae mewn lleoliad hyfryd a gallai a dylai fod yn brif gynheiliad twristiaeth yn Sir Gaerfyrddin. Er hynny, rhaid inni fod yn realistig. Rhaid i'r profiad fod yn fwy cofiadwy i'r rhai sy'n ymweld am ddiwrnod. Mae ar yr ardd angen 250,000 o

thrive. That is what we must concentrate on. The science part of it is fine—it is doing well and is being commissioned to undertake various scientific work. We can and should be proud of that.

We heard about the wow factor that appears to be missing. Some purists get upset when that type of language is used in reference to Middleton; they should not. There is nothing wrong with being populist, while undertaking serious conservation and research work. You can do that on the same site—the two are not mutually exclusive. They do both well at Kew Gardens. I am sure most of us have visited Kew and have seen that work.

The garden desperately needs new partners. It might not be our job to deliver those partners, but our agencies, such as the WDA and the Wales Tourist Board can help in the search. Therefore, will you assure me that facilitation will be provided to help the garden find the partners that it needs to develop the day visitor attraction part of the project that will make all the difference now and in future?

Alun Pugh: I agree—there is no reason why a garden should not be located in that part of Wales. Your point on memorable experiences was particularly well made. Some people say that the garden lacks a wow factor. I listened carefully to a series of television interviews and voxpops last week, and the apparent conclusion was that the garden was attractive to specialists and botanists, but not sufficiently attractive to the general public. It might be attractive to the man on the Clapham omnibus, but not so appealing to Mrs Jones, Llanrug. We will do everything that we can to help the trustees find a partner. I emphasise that no-one wants the garden to close; this Welsh Assembly Government does not want it to close, but there cannot be an open-ended subsidy from the public purse.

Lisa Francis: This is a desperate and lamentable situation. As Rhodri Glyn outlined, all but 15 of the 100 full-time jobs

ymwelwyr y flwyddyn i ffynnu. Rhaid inni ganolbwyntio ar hynny. Mae'r elfen wyddonol yn iawn—mae'n llwyddo ac yn cael ei chomisiynu i wneud amryw fathau o waith gwyddonol. Gallwn a dylem ymfalchïo yn hynny.

Clywsom ei bod yn ymddangos nad oes dim yno i syfrdanu ymwelwyr. Mae rhai puryddion yn digio pan ddefnyddir geiriau o'r fath wrth gyfeirio at Middleton; ni ddylent. Nid oes dim o'i le ar fod yn boblydd, gan ymgymryd â gwaith ymchwil a chadwraeth difrif yr un pryd. Gellir gwneud hynny ar yr un safle—nid yw'r ddau beth yn annibynnol ar ei gilydd. Mae'r ddau'n llwyddo yng Ngerddi Kew. Yr wyf yn siŵr bod y rhan fwyaf ohonom wedi ymweld â Kew ac wedi gweld y gwaith hwnnw.

Mae ar yr ardd daer angen partneriaid newydd. Efallai nad ein gwaith ni yw dod o hyd i'r partneriaid hynny, ond gall ein hasiantaethau, fel y WDA a Bwrdd Croeso Cymru, roi cymorth i chwilio. Felly, a wnewch fy sicrhau yr hwylusir camau i helpu'r ardd i ddod o hyd i'r partneriaid y mae arni eu hangen i ddatblygu'r agwedd ar y prosiect sy'n denu ymwelwyr am ddiwrnod a wnaiff wir wahaniaeth yn awr ac yn y dyfodol?

Alun Pugh: Yr wyf yn cytuno—nid oes rheswm dros beidio â lleoli gardd yn y rhan honno o Gymru. Gwnaethoch bwynt arbennig o dda am brofiadau cofiadwy. Dywed rhai nad oes dim yn yr ardd i syfrdanu ymwelwyr. Gwrandewais yn astud ar gyfres o gyfweiliadau ac eitemau i holi barn y bobl ar y teledu yr wythnos diwethaf, a'r casgliad i bob golwg oedd bod yr ardd yn ddeniadol i arbenigwyr a botanegwyr, ond nad oedd yn ddigon deniadol i'r cyhoedd yn gyffredinol. Gallai fod yn ddeniadol i'r gwybodusion, ond nid yw'n apelio gymaint i Mrs Jones, Llanrug. Gwnawn bopeth a allwn i helpu'r ymddiriedolwyr i ddod o hyd i bartner. Pwysleisiaf nad oes neb am weld yr ardd yn cau; nid yw'r Llywodraeth Cynulliad Cymru hon am ei gweld yn cau, ond ni ellir rhoi cymhorthdal diddiwedd o'r pwrw cyhoeddus.

Lisa Francis: Mae hon yn sefyllfa alaethus a difrifol. Fel y nododd Rhodri Glyn, gellid colli'r cwbl heblaw 15 o'r 100 o swyddi

at Llanarthne could be lost. In addition, weddings, conferences and school visits would be cancelled, which would mean losing more future business. We know that these job losses will impact severely on many families and on the local economy, but this garden is our national botanic garden. It is not solely a commercial venture or a tourist attraction, albeit that the First Minister said two years ago that a tourism-based economy was part of his vision for Carmarthenshire. The garden has not yet been completed, and you would perhaps concede, Minister, that it, like the Assembly, deserves more of a bedding-in period. This first sustainable garden is dedicated to conservation, sustainability and environmental education. This institution wishes to promote all of those objectives. The biosciences business incubator, where new bioscience and environmental business will be nurtured by the garden, is almost complete. Its aim will be to develop new businesses for the region in the future—businesses that will grow and develop.

Your statement suggests that your Government considers that this landmark project for Wales, this national institution with the potential to increase its visitor numbers, is worth bailing out. I understand that the winter running costs of the garden are £230,000. The Government's offer is disappointing. Is that all that the Government is prepared to offer to give this project a longer lifeline? It would seem that every other botanic garden in Britain is heavily financed by Government bodies. We have heard that Middleton's equivalent in Scotland receives £6 million, and that the Royal Botanic Gardens, Kew receives £20 million. I note your comments that the garden's finances were never based on a permanent Assembly subsidy, but I ask you to consider changing that. Marketing techniques at Llanarthne must be reviewed. However, the focus on more tourism changes this year, such as the opening of the first phase of the new walled garden, which will be a bonus, as well as specific trails around the garden, will make it easier for people to find their way around. Do you not agree that that potential is

llawn amser yn Llanarthne. Yn ogystal â hynny, ni chynhelid priodasau, cynadleddau ac ymweliadau ysgol sydd wedi'u trefnu, a golygai hynny golli mwy o fusnes yn y dyfodol. Gwyddom y bydd colli'r swyddi hyn yn cael effaith ddifrifol ar lawer o deuluoedd ac ar yr economi leol, ond ein gardd fotaneg genedlaethol yw hon. Nid menter fasnachol neu atyniad i ymwelwyr yn unig ydyw, er i'r Prif Weinidog ddweud ddwy flynedd yn ôl fod economi sy'n seiliedig ar dwristiaeth yn rhan o'i weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Nid yw'r ardd wedi'i chwblhau eto, ac efallai y byddech yn derbyn, Weinidog, ei bod hi, fel y Cynulliad, yn haeddu mwy o amser i ymsefydlu. Mae'r ardd gynaliadwy gyntaf hon wedi ymrwymo i gadwraeth, cynaliadwyedd ac addysg amgylcheddol. Mae'r sefydliad hwn yn dymuno hyrwyddo pob un o'r amcanion hynny. Mae'r ddeorfa ar gyfer busnesau'r gwyddorau biolegol, lle y bydd yr ardd yn hybu busnesau newydd ym maes yr amgylchedd a'r gwyddorau biolegol, wedi'i chwblhau bron. Ei nod fydd datblygu busnesau newydd ar gyfer y rhanbarth yn y dyfodol—busnesau a fydd yn tyfu ac yn datblygu.

Mae'ch datganiad yn awgrymu bod eich Llywodraeth yn ystyried bod y prosiect hwn sydd o bwys i Gymru gyfan, y sefydliad cenedlaethol hwn sydd â'r potensial i gynyddu'r niferoedd sy'n ymweld ag ef, yn un sy'n werth ei achub. Deallaf mai costau rhedeg yr ardd dros y gaeaf yw £230,000. Mae cynnig y Llywodraeth yn siomedig. Ai dyna'r cwbl y mae'r Llywodraeth yn barod i'w gynnig i roi rhaff achub hwy i'r prosiect hwn? Ymddengys bod pob gardd fotaneg arall ym Mhrydain yn cael ei chyllido'n helaeth gan gyrff y Llywodraeth. Clywsom fod yr hyn sy'n cyfateb i Middleton yn yr Alban yn cael £6 miliwn, a bod yr Ardd Fotaneg Frenhinol, Kew yn cael £20 miliwn. Nodaf eich sylwadau i'r perwyl nad oedd trefniadau ariannol yr ardd erioed yn seiliedig ar gymhorthdal parhaol gan y Cynulliad, ond gofynnaf ichi ystyried newid hynny. Rhaid adolygu'r technegau marchnata yn Llanarthne. Fodd bynnag, bydd y pwyslais ar ragor o newidiadau ar gyfer twristiaeth eleni, fel agor rhan gyntaf yr ardd sydd â mur o'i chwmpas, a fydd yn ychwanegiad gwerthfawr, yn ogystal â llwybrau penodol o

worth safeguarding for longer than 10 weeks? No-one wants to see this garden close. Your role should now be to act as a facilitator in bringing the various groups together to try to find a way forward for this project, and not just for the short-term.

Alun Pugh: It is not just a tourist attraction. It provides some science education on the margins, but the heart of the problem is the fact that the visitor attraction is simply not attractive enough. Unless the costs of operating the garden can be covered from the money that is received at the gate, it will not survive. No-one wants to see that. We are committed to finding a solution if possible but, ultimately, it is a matter for the trustees. You said that it would cost £230,000 to keep the garden afloat until next summer. I only wish that that was the case, but the bill would be considerably higher than that. Finally, you said that other botanic gardens receive subsidy. That is true; some gardens receive public subsidy, but many do not.

Eleanor Burnham: As a keen gardener, I welcome your statement. I must first commiserate with the staff who will lose their jobs, and I sincerely hope that you will help them to find appropriate future work, possibly through Team Wales, the WDA, Careers Wales and so on. When I visited the garden, I was impressed with the staff's enthusiasm. What level of investment did KPMG identify as being necessary to improve visitor numbers? What organisational changes do you envisage? What marketing will be done to improve visitor numbers? Minister, you only seem to view this as a visitor attraction, but it should be marketed as a creative science and education facility to increase its income. Therefore, what steps are you taking to ensure that the Assembly has appropriate powers to handle the relevant science funding? I understand that WDA funding of £0.75 million has gone into the bio-technium. It would be a shame if we did not continue to support this garden. Are you satisfied that the marketing has been targeted at the right audience? Will you assure us that the Welsh

gwmpas yr ardd, yn ei gwneud yn haws i bobl weld i ble y maent yn mynd. Onid ydych yn cytuno ei bod yn werth diogelu'r potensial hwnnw am fwy na 10 wythnos? Nid oes neb am weld yr ardd hon yn cau. Dylech weithredu fel hwylusydd yn awr i ddod â'r gwahanol grwpiau at ei gilydd i geisio canfod ffordd ymlaen i'r prosiect hwn, ac nid ar gyfer y tymor byr yn unig.

Alun Pugh: Nid atyniad i ymwelwyr yn unig ydyw. Mae'n darparu rhywfaint o addysg yn y gwyddorau ar yr ymylon, ond gwraidd y broblem yw'r ffaith nad yw'r atyniad i ymwelwyr yn ddigon deniadol. Os na ellir talu am gostau rhedeg yr ardd o'r arian a geir wrth y fynedfa, ni fydd yn parhau. Nid oes neb am weld hynny. Yr ydym wedi ymrwymo i ganfod ateb os oes modd ond, yn y pen draw, mater i'r ymddiriedolwyr ydyw. Dywedasoch y byddai'n costio £230,000 i gadw'r ardd i fynd tan yr haf nesaf. Byddai'n dda gennyf pe byddai felly, ond byddai'r bil yn fwy o lawer na hynny. Yn olaf, dywedasoch fod gerddi botaneg eraill yn cael cymhorthdal. Mae hynny'n wir; mae rhai gerddi'n cael cymhorthdal cyhoeddus, ond mae llawer nad ydynt.

Eleanor Burnham: Fel garddwraig frwd, yr wyf yn croesawu'ch datganiad. Yn gyntaf, rhaid imi gydymdeimlo â'r staff a fydd yn colli eu swyddi, a gwir obeithiaf y byddwch yn eu helpu i ddod o hyd i waith addas yn y dyfodol, efallai drwy Dîm Cymru, y WDA, Gyrfa Cymru ac yn y blaen. Pan ymwelais â'r ardd, gwnaeth brwdfrydedd y staff argraff arnaf. Faint o fuddsoddiad angenrheidiol y nododd KPMG i godi niferoedd yr ymwelwyr? Pa newidiadau trefniadol a ragwelwch? Pa farchnata a geir i godi niferoedd yr ymwelwyr? Weinidog, ymddengys eich bod yn ei ystyried yn atyniad i ymwelwyr yn unig, ond dylid ei farchnata fel cyfleuster gwyddoniaeth ac addysg creadigol er mwyn cynyddu ei incwm. Felly, pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod y Cynulliad yn meddu ar bwerau priodol i drafod y cyllid perthnasol ar gyfer gwyddoniaeth? Deallaf fod y WDA wedi rhoi £0.75 miliwn o gyllid i'r technium biolegol. Byddai'n drueni pe na fyddem yn dal i gefnogi'r ardd hon. A ydych yn fodlon bod y marchnata wedi'i anelu at y gynulleidfa iawn? A wnewch ein sicrhau y

Assembly Government will consider long-term substantial funding, such as the funding for Big Pit, that was mentioned earlier? Like the National Assembly, gardens take a little time to be nurtured. Kew Gardens is at least two centuries old and, as we know, it receives £20 million. Surely something this bright, and a devolved Wales, deserves your best effort, which should mean more funding and a more secure future.

3.20 p.m.

Alun Pugh: I await the statement from the trustees about the number of job losses with great interest. It will be distressing for the individuals that have been identified for redundancy. You asked about investment; the KPMG report and the business plan identified £8 million as potential necessary investment. As I said earlier, to fully nationalise the garden, to make it a national institution, would mean a bill of some £20 million. That is not realistic. I am also not at all sure that the marketing has been a success; renaming the attraction as Middleton, which certainly has not attracted universal praise, is an example of that.

Catherine Thomas: As Llanelli is a neighbouring constituency, I have followed the developments at Middleton closely. What do the trustees and the management at Middleton now intend to do about their marketing strategy? Up until now, there has been little evidence of such a strategy. Have they, for example, liaised with the Wales Tourist Board to ensure that an effective marketing plan is employed to attract sufficient ticket-buying visitors from Wales and beyond to safeguard the remaining jobs?

Alun Pugh: Marketing is clearly an issue that will need to be readdressed as a matter of considerable urgency during the next few weeks. I hope that the trustees will revisit it and that the Wales Tourist Board will engage positively with them in an attempt to sell tickets. The lack of ticket sales at the gate is fundamental to the garden's problems. Many Members will have seen the press and TV reports over the weekend that the garden was

bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried cyllid sylweddol tymor hir, fel y cyllid i'r Pwll Mawr, a grybwyllwyd yn gynharach? Yn yr un modd â'r Cynulliad Cenedlaethol, mae angen ychydig o amser i feithrin gerddi. Mae Gerddi Kew yn ddwy ganrif oed o leiaf ac, fel y gwyddom, mae'n cael £20 miliwn. Siawns nad yw rhywbeth mor ddisglair â hyn, a Chymru ddatganoledig, yn deilwng o'ch ymdrechion gorau, a dylai hynny olygu mwy o gyllid a dyfodol sicrach.

Alun Pugh: Yr wyf yn disgwyl y datganiad gan yr ymddiriedolwyr am nifer y swyddi a gollir gyda diddordeb mawr. Bydd yn peri gofid i'r rhai a enwyd i'w diswyddo. Gwnaethoch holi ynghylch buddsoddi; yn adroddiad KPMG ac yn y cynllun busnes, nodwyd mai £8 miliwn yw'r buddsoddiad a allai fod yn angenrheidiol. Fel y dywedais yn gynharach, byddai gwladoli'r ardd yn llwyr, i'w gwneud yn sefydliad cenedlaethol, yn costio tua £20 miliwn. Nid yw hynny'n ymarferol. Nid wyf yn sicr ychwaith fod y marchnata wedi llwyddo; mae ailenwi'r atyniad ym Middleton, na chafodd ei ganmol gan bawb, yn sicr, yn enghraifft o hynny.

Catherine Thomas: Gan fod Llanelli yn etholaeth gyfagos, yr wyf wedi dilyn y datblygiadau yn Middleton yn fanwl. Beth y mae'r ymddiriedolwyr a'r rheolwyr yn Middleton yn bwriadu ei wneud yn awr ynghylch eu strategaeth farchnata? Prin fu'r dystiolaeth o strategaeth o'r fath hyd yma. Er enghraifft, a fuont mewn cysylltiad â Bwrdd Croeso Cymru i sicrhau y caiff cynllun marchnata effeithiol ei roi ar waith i ddenu digon o ymwelwyr o Gymru a thu hwnt i brynu tocynnau i ddiogelu'r swyddi sy'n weddill?

Alun Pugh: Mae'n amlwg bod marchnata'n fater y bydd yn rhaid ymdrin ag ef eto ar gryn fyrder yn ystod yr wythnosau nesaf. Gobeithiaf y bydd yr ymddiriedolwyr yn ei ailystyried ac y bydd Bwrdd Croeso Cymru yn cymryd camau cadarnhaol gyda hwy i geisio gwerthu tocynnau. Y diffyg gwerthu ar docynnau wrth y fynedfa sydd wrth wraidd problemau'r ardd. Bydd llawer o Aelodau wedi gweld yr adroddiadau yn y wasg ac ar y

thrown open to the public for free. I understand that 7,000 visitors turned up and, although they took nothing on the gate, around £5,400 ended up in the buckets.

Jenny Randerson: You referred to the need for the garden to reduce costs, but as a Minister I did not see anything, and nothing went to the Committee, that suggested that the garden was wasting money or that the money was anything other than well-spent. To the contrary, all evidence showed that they needed to invest more money to succeed. It is well-known that it takes decades to build up a botanic garden. Will you acknowledge that the Welsh Assembly Government, prior to the election, already acknowledged the importance of the garden and the need for investment by employing KPMG to investigate the options, and by investing £0.75 million in the bio-technium, via the WDA, and an additional £1.4 million in two tranches for the report and other assistance? I am sure that you do not want to start from here, and we all wish for lessons to be learnt from some of the early lottery decisions. However, will you acknowledge that the fact that this garden is in your portfolio, and not in Andrew Davies's portfolio as a tourism destination, acknowledges that it is much more than a tourist attraction, that it has an important all-round contribution to make to Wales and that it must be treated in that way, with long-term vision?

Alun Pugh: The matter of in whose portfolio this resides is minor. You could make a good argument that it belongs in mine, or that it belongs in Andrew Davies's portfolio. The key point is that there has been a substantial public investment in the garden in the past and that there is currently a substantial public investment in trying to engineer a solution. However, the heart of the problem is to develop a compelling product, a garden that the public will want to visit in their hundreds of thousands. That is the problem: that has not happened to date. The trustees must address that in future.

Peter Law: Bearing in mind that we are already lumbered with a £2 million annual revenue subsidy for the opera house being

teledu dros y penwythnos i'r perwyl bod yr ardd wedi'i hagar i'r cyhoedd am ddim. Deallaf i 7,000 o ymwelwyr fynd yno ac, er na chymerasant ddim wrth y fynedfa, casglwyd tua £5,400.

Jenny Randerson: Cyfeiriasoch at yr angen i'r ardd ostwng ei chostau, ond fel Gweinidog ni welais ddim, ac nid aeth dim gerbron y Pwyllgor, a awgrymai fod yr ardd yn gwastraffu arian neu nad oedd yr arian yn cael ei wario'n briodol. I'r gwrthwyneb, yr oedd yr holl dystiolaeth yn dangos bod angen iddynt fuddsoddi mwy o arian er mwyn llwyddo. Gwyddys ei bod yn cymryd degawdau i ddatblygu gardd fotaneg. A wnewch gydnabod bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, cyn yr etholiad, eisoes wedi derbyn bod yr ardd yn bwysig a bod angen buddsoddi drwy drefnu i KPMG ymchwilio i'r dewisiadau, a thrwy fuddsoddi £0.75 miliwn yn y technium biolegol, drwy'r WDA, ac £1.4 miliwn yn ychwanegol mewn dwy gyfran ar gyfer yr adroddiad a chymorth arall? Yr wyf yn siŵr nad hwn yw'r man cychwyn yr ydych yn dymuno ei gael, ac yr ydym i gyd am weld gwersi'n cael eu dysgu o rai o'r penderfyniadau cyntaf ar y loteri. Er hynny, a wnewch dderbyn bod y ffaith mai yn eich portffolio chi y mae'r ardd hon, ac nid ym mhortffolio Andrew Davies fel cyrchfan i ymwelwyr, yn gydnabyddiaeth ei bod yn fwy o lawer nag atyniad i ymwelwyr, y gallai wneud cyfraniad pwysig a chyffredinol i Gymru a bod rhaid ei thrin felly, gyda gweledigaeth dymor hir?

Alun Pugh: Mater bach yw i ba bortffolio y mae hyn yn perthyn. Gallech ddadlau'n gryf ei fod yn perthyn i'm portffolio i, neu ei fod yn perthyn i un Andrew Davies. Y pwynt allweddol yw bod buddsoddi cyhoeddus helaeth wedi bod yn yr ardd yn y gorffennol a bod buddsoddi cyhoeddus helaeth ar hyn o bryd i geisio cael ateb. Er hynny, yr ateb sylfaenol i'r broblem yw datblygu cynnyrch atyniadol, gardd y bydd y cyhoedd am ymweld â hi wrth y cannoedd a'r miloedd. Dyna'r broblem: ni ddigwyddodd hyd yn hyn. Rhaid i'r ymddiriedolwyr ymdrin â hynny o hyn ymlaen.

Peter Law: Gan gofio ein bod eisoes wedi ein beichio â chymhorthdal refeniw blynyddol o £2 filiwn ar gyfer y tŷ opera a

built over the road, and that the garden at least is not in Cardiff, which is quite refreshing, and as it provides employment in a rural area, will you consult as widely as possible to find funding sources to save this garden for the nation? Do you agree that the national botanic garden must be developed into a family tourist attraction, which is its current weakness? As Catherine Thomas said, it needs a marketing strategy, as that seems to be missing.

Alun Pugh: As a north Wales AM, I cannot accept that we are lumbered with the Wales Millennium Centre. However, I agree that the Assembly Government wants to ensure that the garden survives, but that has to be by making it an attractive and compelling proposition, a place for a good family day out that you will want to return to again and again. At the moment, many tell me that they have been once, but do not feel compelled to return.

Owen John Thomas: The national botanic garden must attract visitors from far and near if it is to survive. Similar gardens at Kew and the Eden Project are at the centre of areas of attractions and services that enjoy mutual benefit. The guests at local hotels will visit the gardens and spend money in the shops, generally contributing to the local economy. Visitors to the national garden from overseas and elsewhere look to make an overnight or weekend stay, looking for hotels and other attractions to ensure an enjoyable short holiday. As matters stand, Llanarthne is struggling without a support network. Encouraging and developing such services and attractions should be part of the Welsh Assembly Government's economic planning. However, the Government rejects the idea of regional economic planning and is, therefore, like a boat without a rudder when faced with situations such as this. We have an Objective 1—

The Presiding Officer: Order. You are making a statement. The spokesperson for the Party of Wales group has already contributed.

godir dros y ffordd, ac o leiaf nad yw'r ardd yng Nghaerdydd, sy'n beth eithaf braf, a chan ei bod yn darparu swyddi mewn ardal wledig, a wnewch ymgynghori mor eang ag y bo modd i ddod o hyd i ffynonellau cyllido i achub yr ardd hon i'r genedl? A ydych yn cytuno bod rhaid datblygu'r ardd fotaneg genedlaethol yn atyniad i ymwelwyr ar gyfer teuluoedd, gan mai'r diffyg yn hynny o beth yw ei gwendid ar hyn o bryd? Fel y dywedodd Catherine Thomas, mae arni angen strategaeth farchnata, gan ei bod yn ymddangos bod hynny'n eisiau.

Alun Pugh: Fel AC o'r Gogledd, ni allaf dderbyn ein bod wedi ein beichio â Chanolfan Mileniwm Cymru. Er hynny, cytunaf fod Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno sicrhau parhad yr ardd, ond bod rhaid gwneud hynny drwy ei gwneud yn fenter gryf ac atyniadol, yn lle y gall y teulu fynd iddo am ddiwrnod o hwyl y byddant am ddod yn ôl iddo dro ar ôl tro. Ar hyn o bryd, mae llawer yn dweud wrthyf iddynt fod yno unwaith, ond na theimlant gymhelliad i ddychwelyd.

Owen John Thomas: Rhaid i'r ardd fotaneg genedlaethol ddenu ymwelwyr o bell ac agos os ydyw i barhau. Mae gerddi tebyg yn Kew a'r Eden Project yng nghanol ardaloedd lle y mae atyniadau a gwasanaethau sy'n dod â budd i'w gilydd. Bydd y rhai sy'n aros mewn gwystai lleol yn ymweld â'r gerddi ac yn gwario yn y siopau, gan gyfrannu'n gyffredinol i'r economi leol. Mae rhai sy'n ymweld â'r ardd genedlaethol o dramor a manau eraill yn ceisio aros dros nos neu am benwythnos, gan chwilio am westai ac atyniadau eraill fel y gallant fwynhau gwyliau byr. Fel y mae hi, mae Llanarthne yn ei chael yn anodd am nad oes ganddi rwydwaith cymorth. Dylai hybu a datblygu gwasanaethau ac atyniadau o'r fath fod yn rhan o waith cynllunio economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Er hynny, mae'r Llywodraeth yn gwrthod y syniad o gynllunio economaidd rhanbarthol ac oherwydd hynny ni wŷyr i ble y dylai droi wrth wynebu sefyllfaoedd fel hon. Mae gennym ardal Amcan 1—

Y Llywydd: Trefn. Yr ydych yn gwneud datganiad. Mae'r llefarydd dros grŵp Plaid Cymru wedi cyfrannu eisoes. Ni allaf adael i

I cannot allow this to continue. Ask a question, as other speakers wish to ask questions.

Owen John Thomas: I am coming to my question.

The Presiding Officer: I hope so.

Owen John Thomas: We have an Objective 1 area with a magnificent—

The Presiding Officer: Order. Please ask a question.

Owen John Thomas: It is in one of Wales's most beautiful counties, stuck with a national Government that lacks vision. Do you not agree that it would be shameful were the Welsh Assembly Government not able to recognise the potential on offer here and take the necessary action to encourage a development that can gradually, but surely, see the growth of the national garden and the region as a whole?

Alun Pugh: I am not sure that you listened to the statement. I have already said that the garden has received £1.5 million in public subsidy.

Owen John Thomas: You have not delivered the goods.

Alun Pugh: That is a matter for the trustees. Kew and the Scottish garden clearly benefit from being close to large population centres. However, as a north Wales AM, I do not accept that everything must be in Cardiff. A big population can potentially reach the garden via the M4 and the extra junction that has been created. If the fundamental proposition that it is a really good destination for a family day out can be addressed, and if the garden can be vigorously marketed so that it does not only appeal to hard-core botanists, then the centre has a strong future.

Leighton Andrews: Has it not become clear in the last week that the trustees are, perhaps, part of the problem? Perhaps they should face the chop, instead of the workforce. Have the trustees not had the best part of a year to sort out the appeal of the attraction, its costs and

hyn barhau. Gofynnwch gwestiwn, gan fod siaradwyr eraill yn dymuno gofyn cwestiynau.

Owen John Thomas: Yr wyf yn dod at fy nghwestiwn.

Y Llywydd: Gobeithiaf hynny.

Owen John Thomas: Mae gennym ardal Amcan 1 a chanddi wych o—

Y Llywydd: Trefn. Gofynnwch gwestiwn, os gwelwch yn dda.

Owen John Thomas: Mae yn un o siroedd harddaf Cymru, ac mae'n gorfod dygymod â Llywodraeth genedlaethol sydd heb weledigaeth. Onid ydych yn cytuno y byddai'n warthus pe na allai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydnabod y potensial a geir yma a chymryd y camau sydd eu hangen i hybu datblygiad a all sicrhau twf graddol yr ardd genedlaethol a'r rhanbarth yn ei gyfanrwydd?

Alun Pugh: Nid wyf yn siŵr a fu ichi wrando ar y datganiad. Dywedais eisoes fod yr ardd wedi cael £1.5 miliwn o gymhorthdal cyhoeddus.

Owen John Thomas: Nid ydych wedi mynd â'r maen i'r wal.

Alun Pugh: Mater i'r ymddiriedolwyr yw hynny. Mae'n amlwg bod Kew a'r ardd yn yr Alban yn cael budd o fod yn agos i ganolfannau poblogaeth mawr. Er hynny, fel AC o'r Gogledd, nid wyf yn derbyn bod rhaid i bopeth fod yng Nghaerdydd. Mae poblogaeth fawr o fewn cyrraedd i'r ardd ar hyd yr M4 a'r gyffordd ychwanegol a grëwyd. Os gellir ymdrin â'r dasg sylfaenol o'i wneud yn lle gwirioneddol dda i'r teulu fynd am ddiwrnod, ac os gellir marchnata'r ardd yn egnïol fel nad yw'n apelio i rai sy'n fotanegwyr i'r carn yn unig, bydd dyfodol gwych i'r ganolfan.

Leighton Andrews: Oni ddaeth yn amlwg yn yr wythnos diwethaf y gallai'r ymddiriedolwyr fod yn rhan o'r broblem? Efallai mai hwy a ddylai gael eu cardiau yn hytrach na'r gweithlu. Oni chafodd yr ymddiriedolwyr bron flwyddyn i benderfynu

its marketing? Can you confirm figures given to me yesterday that suggest that staffing at the garden has increased from just over 60 two to three years ago, to just over 100 now at the same time that visitor numbers have been declining?

3.30 p.m.

Alun Pugh: Staffing the garden is a matter for the trustees. However, the trustees have huge responsibilities. They are responsible for its operation, for its management, for the product, and, crucially, for the marketing of the product. The Assembly Government will do all that it can to help them. However, there is no question of an open-ended public subsidy cheque for the garden.

Nick Bourne: I thank the Minister for his statement. He has changed his position slightly. Last week he seemed totally detached; this week at least he is a mildly interested onlooker. However, it is not a matter of pure chance that the garden falls within your portfolio, Minister. Jenny Randerson is correct. If you were to shuffle a museum off to the economic development portfolio, we would be concerned. That would send out a clear and definitive message. This is the National Botanic Garden of Wales, as christened by Paul Murphy. The Assembly Government was happy enough to be associated with the garden while it saw it as a success. These are iconic, pride-making matters for Wales, and science, research and education are involved here. I appeal to you to get all the stakeholders together and to look to providing, not a blank cheque—I understand that refusal, and the garden could certainly improve on its marketing—but a reasonable level of subsidy, as is done for the Royal Botanic Garden, Edinburgh and for Kew. People cannot afford to pay £6.95 each to visit the gardens, especially a family, and this is competing with the Big Pit and other attractions. We must invest money in this project for west Wales. All of the money seems to go to the National Museums and Galleries of Wales in Cardiff and the surrounding area. We have supported that but, for heaven's sake, the national botanic garden deserves some ongoing assistance or it will perish.

ar apêl yr atyniad, ei gostau a'r dull o'i farchnata? A allwch gadarnhau ffigurau a roddwyd imi ddoe sy'n awgrymu bod nifer y staff yn yr ardd wedi codi o ychydig dros 60 ddwy i dair blynedd yn ôl, i ychydig dros 100 yn awr ar yr un adeg ag yr oedd niferoedd yr ymwelwyr yn gostwng?

Alun Pugh: Mater i'r ymddiriedolwyr yw staffio'r ardd. Er hynny, mae cyfrifoldebau aruthrol gan yr ymddiriedolwyr. Hwyl sy'n gyfrifol am ei rhedeg, am ei rheoli, am y cynnyrch ac, yn hollbwysig, am farchnata'r cynnyrch. Gwnaiff Llywodraeth y Cynulliad bob dim yn ei gallu i'w helpu. Er hynny, nid oes unrhyw bosibilrwydd o roi sic ar gyfer cymhorthdal cyhoeddus diddiwedd i'r ardd.

Nick Bourne: Diolchaf i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Mae wedi newid ei safbwynt ychydig. Yr wythnos diwethaf, ymddangosai'n gwbl ddifater; yr wythnos hon, mae o leiaf yn wylwr sydd ag ychydig bach o ddiddordeb. Fodd bynnag, nid hap a damwain llwyr, Weinidog, yw bod yr ardd yn rhan o'ch portffolio. Mae Jenny Randerson yn llygad ei lle. Pe byddech yn gwthio rhyw amgueddfa ar y portffolio datblygu economaidd, byddem yn bryderus. Byddai hynny'n cyfleu neges glir a diamwys. Hon yw Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, fel y'i bedyddiwyd gan Paul Murphy. Yr oedd Llywodraeth y Cynulliad yn ddigon parod i fod yn gysylltiedig â'r ardd tra gwelai ei bod yn llwyddo. Mae'r materion hyn yn symbolaidd ac yn ennyn balchder yng Nghymru, ac mae gwyddoniaeth, ymchwil ac addysg yn gysylltiedig yn hyn o beth. Erfyniaf arnoch i ddod â'r holl randdeiliaid at ei gilydd ac i ystyried, nid sic wag—yr wyf yn deall pam y gwrthodwch hynny, ac mae'n sic y gallai'r ardd farchnata'n well—ond lefel resymol o gymhorthdal, fel y gwneir ar gyfer yr Ardd Fotaneg Frenhinol yng Nghaeredin ac ar gyfer Kew. Ni all pobl fforddio £6.95 yr un i ymweld â'r ardd, a theuluoedd yn enwedig, ac mae'n cystadlu â'r Pwll Mawr ac atyniadau eraill. Rhaid inni fuddsoddi arian yn y prosiect hwn er mwyn y Gorllewin. Ymddengys bod yr holl arian yn mynd i Amgueddfeydd ac Orielaau Cenedlaethol Cymru yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Yr ydym wedi cefnogi hynny ond,

er mwyn popeth, mae'r ardd fotaneg genedlaethol yn haeddu rhywfaint o gymorth parhaol neu bydd yn darfod.

Alun Pugh: This has not been randomly ascribed to this portfolio. As I said, you could make a good argument for placing it in the culture or economic development portfolios—there are arguments both ways. On getting the stakeholders together, that is exactly what we are doing. We are trying to bring the stakeholders together to support the trustees in trading their way out of these difficulties. You say that all the moneys go into to the National Museums and Galleries in Cardiff; I think that I might need to organise a briefing for you on the many locations of the National Museums and Galleries of Wales.

Alun Pugh: Nid yw hyn wedi ei roi yn y portffolio hwn ar hap. Fel y dywedais, gellid dadlau'n gryf dros ei roi yn y portffolio diwylliant neu'r portffolio datblygu economaidd—mae dadleuon dros y naill neu'r llall. Ynghylch dod â'r rhanddeiliaid at ei gilydd, dyna'r union beth yr ydym yn ei wneud. Yr ydym yn ceisio dod â'r rhanddeiliaid at ei gilydd i helpu'r ymddiriedolwyr i oresgyn y trafferthion hyn drwy fasnachu. Dywedwch fod yr holl arian yn mynd i'r Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol yng Nghaerdydd; credaf y gallai fod angen imi drefnu cyfarfod briffio ar eich cyfer ar y nifer mawr o leoliadau sydd gan Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru.

**Datganiad ar Drafodiad Hysbysadwy dan Reol Sefydlog Rhif 19.20
ar Drosglwyddo Stoc Pen-y-bont ar Ogwr
Statement on the Notifiable Transaction under Standing Order No. 19.20
on the Bridgend Stock Transfer**

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): Bridgend County Borough Council transferred its total housing stock to the newly formed Valleys to Coast Housing Association on 12 September. This transfer will generate sufficient investment to enable the stock to be brought up to the Welsh housing quality standard by 2012. The council has undertaken this exercise in accordance with the Welsh Assembly Government's housing stock transfer guidelines, and has kept the Assembly Government informed throughout the process.

The private investment in the transfer will be provided by a consortium comprising the Nationwide building society as principal lender and the Principality building society in a subordinate lending role. The involvement of the Principality from a Welsh point of view, and the fact that both lenders are mutual societies, is particularly noteworthy. The business plan of the new social landlord anticipates expenditure of some £70 million on the housing stock over the next five years.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Trosglwyddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y cwbl o'i stoc dai i gymdeithas dai Valleys to Coast Housing, sydd newydd ei ffurfio, ar 12 Medi. Drwy'r trosglwyddo hwn, cynhyrchir digon o fuddsoddiad i godi'r stoc i safon ansawdd tai Cymru erbyn 2012. Mae'r cyngor wedi cyflawni hyn yn unol â chanllawiau trosglwyddo stoc dai Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac wedi hysbysu Llywodraeth y Cynulliad am yr hyn a oedd yn digwydd drwy gydol y broses.

Darperir y buddsoddi preifat yn y trosglwyddiad gan gonsortiwm sy'n cynnwys cymdeithas adeiladu Nationwide fel prif fenthyciwr a chymdeithas adeiladu Principality fel benthyciwr llai. Mae'r rhan a gymerir gan y Principality o safbwynt Cymreig, a'r ffaith bod y ddau fenthyciwr yn gymdeithasau cydfuddiannol, yn nodedig. Mae cynllun busnes y landlord cymdeithasol newydd yn rhagweld gwario tua £70 miliwn ar y stoc dai dros y pum mlynedd nesaf.

The Welsh Assembly Government has made a published commitment to provide financial support to local authorities considering stock transfer where there is a shortfall in the valuation proceeds. In the Bridgend transfer, funding is required to meet a negative valuation of £7.7 million, setting-up costs of £2.3 million, disrepair claims in the range of £3 million to £5 million, and finance costs estimated to be approximately £1 million. This funding will be met from the housing resources that would have been available to Bridgend council if the transfer had not taken place. As a result, there will be no additional cost to the Assembly.

At present, a VAT mitigation scheme exists. Valleys to Coast Housing will be protected against any future changes to VAT rules that would result in a liability to pay VAT on the proposed works. We have secured a payment of £49.85 million from the Treasury to write off Bridgend's public works loan board debt.

Earlier this year, I gave approval for the Assembly to provide financial assistance towards the cost of establishing a construction industry training centre in the Caerau area of the Llynfi valley. This pilot project will provide places for 45 local trainees per annum. The training aims to equip the trainees with the necessary qualifications for employment within the construction sector in Bridgend. This major investment in Bridgend will provide good quality affordable housing, and will offer wider social and economic regeneration.

Janet Davies: I thank the Minister for giving us a written copy of this statement earlier today, as it only came through on e-mail as she finished her statement.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi ei hymrwymiad i ddarparu cymorth ariannol i awdurdodau lleol sy'n ystyried trosglwyddo stoc lle y mae diffyg o ran y derbyniadau prisio. Yn achos y trosglwyddiad gan Ben-y-bont ar Ogwr, mae angen cyllid i dalu am brisiad negyddol o £7.7 miliwn, costau sefydlu o £2.3 miliwn, hawliadau am ddadfeilio rhwng £3 miliwn a £5 miliwn, a chostau cyllido yr amcangyfrifir eu bod tuag £1 filiwn. Telir am y cyllid hwn o'r adnoddau ar gyfer tai a fuasai ar gael i gyngor Pen-y-bont ar Ogwr pe na fyddai'r trosglwyddo wedi digwydd. O ganlyniad, ni fydd cost ychwanegol i'r Cynulliad.

Ar hyn o bryd, ceir cynllun gostwng TAW. Diogelir Valleys to Coast Housing rhag unrhyw newidiadau i reolau TAW yn y dyfodol a'i gwnâi'n atebol i dalu TAW ar y gwaith arfaethedig. Yr ydym wedi sicrhau taliad o £49.85 miliwn gan y Trysorlys i ddileu dyled Pen-y-bont ar Ogwr i'r bwrdd benthyciadau gweithfeydd cyhoeddus.

Yn gynharach eleni, rhoddais gymeradwyaeth i'r Cynulliad roi cymorth ariannol tuag at y gost o sefydlu canolfan hyfforddi i'r diwydiant adeiladu yn ardal Caerau yng nghwm Llynfi. Bydd y prosiect peilot hwn yn cynnig lle i 45 o hyfforddeion lleol bob blwyddyn. Amcan yr hyfforddiant yw rhoi i'r hyfforddeion y cymwysterau y mae arnynt eu hangen i gael eu cyflogi yn y sector adeiladu ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Bydd y buddsoddiad pwysig hwn ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn darparu tai fforddiadwy o ansawdd da, ac yn cynnig adfywio cymdeithasol ac economaidd mwy cyffredinol.

Janet Davies: Diolchaf i'r Gweinidog am roi inni gopi ysgrifenedig o'r datganiad hwn yn gynharach heddiw, gan mai newydd gyrraedd drwy e-bost y mae, fel yr oedd yn gorffen ei datganiad.

This stock transfer is important. It raises several issues, and I will only be able to address a few of them today. First, on the costs, which are considerable, you have achieved a transfer of £49.85 million from the Treasury. However, some money is to be met from existing National Assembly housing resources. The social housing grant for Wales is, I believe, about £56 million a year. What proportion of that will go to Bridgend County Borough Council, and will there be adequate contingency, if unforeseen problems arise?

On the £49.85 million grant from the Treasury, would better value have been achieved if this money had been made available to the council to do the work itself, or does the Treasury not trust the council to use that money wisely? That is a fundamental question. I will mention a few problems faced by the Scottish Borders Housing Association, including serious financial and operational difficulties. That means that it may not meet all its commitments, such as honouring promises made to tenants, as well as the difficulties in complying with the bank agreement and with the council conditions and registration commitments. If these sorts of issues were to arise in Bridgend, what action would you take, Minister?

Finally, I return to the direct service organisation in Bridgend County Borough Council. It is good to see the construction industry training that has been set up in Caerau in the Llynfi valley. However, what will happen to Bridgend's direct service organisation and its staff, to the housing management staff, and to the DSO repair staff?

Edwina Hart: As I said in my statement, the funding will be met from housing resources that would have been available to Bridgend County Borough Council if the transfer had not taken place. As a result, there will be no additional cost to the Assembly. On the second point, the Treasury has decided what it wanted to do, and we were successful in

Mae'r trosglwyddiad stoc hwn yn bwysig. Mae sawl mater yn codi yn ei sgîl, ac ni fyddaf ond yn gallu ymdrin ag ychydig ohonynt heddiw. Yn gyntaf, ynghylch y costau, sy'n rhai sylweddol, yr ydych wedi sicrhau trosglwyddo £49.85 miliwn o'r Trysorlys. Fodd bynnag, mae rhywfaint o arian i ddod o adnoddau presennol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer tai. Mae'r grant tai cymdeithasol i Gymru tua £56 miliwn y flwyddyn, yr wyf yn credu. Pa gyfran o hwnnw a aiff i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac a fydd digon o arian wrth gefn, os bydd problemau annisgwyl yn codi?

Ynghylch y grant o £49.85 miliwn oddi wrth y Trysorlys, a fyddem wedi cael gwell gwerth pe byddai'r arian hwn wedi'i ddarparu i'r cyngor fel y gallai wneud y gwaith ei hun, neu onid yw'r Trysorlys yn ymddiried yng ngallu'r cyngor i ddefnyddio'r arian hwnnw'n ddoeth? Mae hwnnw'n gwestiwn sylfaenol. Soniaf am ychydig o broblemau a wynebodd Scottish Borders Housing Association, a oedd yn cynnwys anawsterau ariannol a gweithrediadol difrifol. Oherwydd hynny, mae'n bosibl na fydd yn cyflawni ei holl ymrwymadau, fel cadw addewidion i denantiaid, ac mae'n profi anawsterau hefyd wrth gydymffurfio â chytundeb â banc ac wrth gadw at amodau'r cyngor ac ymrwymadau o ran cofrestru. Pe byddai materion o'r fath yn codi ym Mhen-y-bont ar Ogwr, pa gamau a gymerech, Weinidog?

Yn olaf, dychwelaf at y corff gwasanaethau uniongyrchol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Da yw gweld yr hyfforddiant ar gyfer y diwydiant adeiladu a sefydlwyd yng Nghaerau yng nghwm Llynfi. Er hynny, beth a ddigwydd i gorff gwasanaethau uniongyrchol Pen-y-bont ar Ogwr a'i staff, i'r staff rheoli tai, ac i staff atgyweirio'r corff gwasanaethau uniongyrchol?

Edwina Hart: Fel y dywedais yn fy natganiad, fe ddaw'r cyllid o adnoddau ar gyfer tai a fuasai ar gael i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr pe na fyddai'r trosglwyddo wedi digwydd. O ganlyniad i hynny, ni fydd cost ychwanegol i'r Cynulliad. Ar yr ail bwynt, penderfynodd y Trysorlys beth yr oedd am ei wneud, a

negotiating the write-off of debt that has enabled transfers like this to take place. You raised the issue of problems that may arise during the terms of this transfer. We must take any problems on board if and when they arise. I am sure that we will learn many valuable lessons from this Bridgend project, and perhaps will be able to give advice on best practice to other local authorities in the future.

On the employees of Bridgend County Borough Council, the principal trade unions, such as Unison and GMB, do not support stock transfer in principle. Local trade union officials were engaged in discussions for 12 to 18 months before the ballot in order to develop a meaningful dialogue and mutual trust. The unions that do not support the transfer in principle understood the business case and took a pragmatic view. They signed a formal Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 1981 protocol, and agreed recognition of their trade unions by the new employer. However, these are all matters for the local authority, because stock transfer is about local democracy and the decision of people on those housing estates. It is not a matter for central Government or, necessarily, for the Welsh Assembly Government. We simply facilitate this, and we have done a good job of facilitating this for Bridgend.

Janice Gregory: Whatever the opinions people may hold regarding the pros and cons of taking the stock transfer option to improving housing stock, this move gained overwhelming endorsement from tenants in Bridgend county borough after local consultation and discussion. The result of the locally held referendum was decisive. Local tenants now look forward to a radical transformation in their quality of life. Thank you, Minister, for your continued support throughout the process.

How will the success of the scheme be evaluated, and how will the Assembly Government track progress? I am thinking particularly about how the Government might intend to use Bridgend as a case study in

llwyddasom i negodi i ddileu dyled a'i gwnaeth yn bosibl i drosglwyddo o'r math hwn ddigwydd. Gwnaethoch godi mater y problemau a allai godi yn ystod y trosglwyddo hwn. Bydd yn rhaid inni ystyried unrhyw broblemau sy'n codi. Yr wyf yn sicr y byddwn yn dysgu llawer o wersi gwerthfawr o'r prosiect hwn ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac efallai y byddwn yn gallu cynnig cyngor ar yr arferion gorau i awdurdodau lleol eraill yn y dyfodol.

Ynghylch gweithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, nid yw'r prif undebau llafur, fel Unison a GMB, o blaid trosglwyddo stoc mewn egwyddor. Yr oedd swyddogion undeb llafur lleol yn cymryd rhan mewn trafodaethau am 12 i 18 mis cyn y bleidlais er mwyn datblygu deialog ystyrllon a chydymddiriedaeth. Yr oedd yr undebau nad ydynt o blaid y trosglwyddo mewn egwyddor yn deall yr achos busnes ac yr oedd ganddynt agwedd ymarferol. Llofnodasant brotocol ffurfiol o dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Gwarchod Cyflogaeth) 1981, a chytuno ar gydnabyddiaeth i'w hundebau llafur gan y cyflogwr newydd. Fodd bynnag, materion i'r awdurdod lleol yw'r rhain i gyd, gan fod trosglwyddo stoc yn ymwneud â democratiaeth leol a phenderfyniad pobl ar yr ystadau tai hynny. Nid yw'n fater i Lywodraeth ganol nac, o reidrwydd, i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Y cwbl a wnawn yw hwyluso hyn, a gwnaethom waith da wrth ei hwyluso ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr.

Janice Gregory: Beth bynnag yw barn pobl am fanteision ac anfanteision y dewis o drosglwyddo stoc er mwyn gwella stoc dai, cafwyd cefnogaeth ysgubol i'r cam hwn gan denantiaid ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar ôl ymgynghori a thrafod yn lleol. Cafwyd canlyniad pendant i'r refferendwm a gynhaliwyd yn lleol. Mae tenantiaid lleol yn edrych ymlaen yn awr at weld newid sylfaenol yn eu hansawdd byw. Diolch i chi, Weinidog, am eich cymorth parhaus drwy gydol y broses.

Sut y gwerthusir llwyddiant y cynllun, a sut y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn mesur y cynnydd? Yr wyf yn meddwl yn benodol am y modd y gallai'r Llywodraeth fwriadu defnyddio Pen-y-bont ar Ogwr fel astudiaeth

terms of providing information to other local authorities. You touched on that in your last response. However, could you expand on that, because I am sure that other Welsh local authorities consider Bridgend's successes and possible failures?

3.40 p.m.

Edwina Hart: You are right that in the ballot held in November 2002, Bridgend County Borough Council received an overwhelming vote from its housing tenants in favour of transfer. On a turnout of 70 per cent of the tenants entitled to vote, the council was given a clear mandate for transfer with 70 per cent voting in favour. I thank you for your comments on evaluation and progress.

If it would be helpful, I could present a paper to the Social Justice and Regeneration Committee on how to monitor the progress of this. Although I have kept you updated throughout the process, it may be helpful to consider these further areas, as they may help other local authorities in future. We must be mindful that many local authorities in Wales are watching Bridgend County Borough Council's progress. No-one will say, in retrospect, that it is not right for people to have good-quality accommodation under the Welsh housing quality standard by 2012.

William Graham: Thank you for calling me under these circumstances, Mr Llywydd. We welcome the Minister's statement, and we are grateful to her for outlining particular items. I praise the award of financial assistance towards establishing a construction industry training centre at Caerau in the Llynfi valley. That is welcomed by all concerned.

Minister, you will recall that this plan was originally set out in the national seminar on stock transfer in March 2002. We greatly welcome the fact that Bridgend council has completed this stock transfer—involving some 6,800 houses—in such an exemplary manner. Minister, you have said it before, but will you repeat your assurance that, in future,

achos o ran darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol eraill. Cyfeiriasoch at hynny yn eich ymateb diwethaf. Er hynny, a allech ymhelaethu ar hynny, gan fy mod yn sicr y bydd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru am ystyried llwyddiannau a methiannau posibl Pen-y-bont ar Ogwr?

Edwina Hart: Yr ydych yn iawn wrth ddweud bod tenantiaid tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi pleidleisio'n ysgubol o blaid y trosglwyddo yn y bleidlais a gynhaliwyd yn Nhachwedd 2002. Yr oedd 70 y cant o'r tenantiaid a oedd â hawl i bleidleisio wedi gwneud hynny, a chan fod 70 y cant ohonynt wedi pleidleisio o blaid, yr oedd y cyngor wedi cael mandad pendant ar gyfer y trosglwyddo. Diolchaf ichi am eich sylwadau am werthuso a chynnydd.

Os byddai o gymorth, gallwn gyflwyno papur i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar sut i fonitro'r cynnydd a wneir ar hyn. Er fy mod wedi rhoi gwybod ichi am y datblygiadau drwy gydol y broses, gallai fod yn fuddiol ystyried y meysydd ychwanegol hyn, gan y gallent fod o gymorth i awdurdodau lleol eraill yn y dyfodol. Rhaid inni gofio bod llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru'n cadw golwg ar y cynnydd a wnaiff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ni ddywed neb, wrth edrych yn ôl, nad yw'n iawn i bobl gael llety o ansawdd da o dan safon ansawdd tai Cymru erbyn 2012.

William Graham: Diolch i chi am fy ngalw o dan yr amgylchiadau hyn, Lywydd. Croesawn ddatganiad y Gweinidog, ac yr ydym yn ddiolchgar iddi am amlinellu eitemau penodol. Canmolaf y ffaith bod cymorth ariannol wedi ei roi tuag at sefydlu canolfan hyfforddi ar gyfer y diwydiant adeiladu yng Nghaerau yng nghwm Llynfi. Croesewir hynny gan bawb.

Weinidog, byddwch yn cofio bod y cynllun hwn wedi'i egluro'n gyntaf yn y seminar cenedlaethol ar drosglwyddo stoc ym Mawrth 2002. Yr ydym yn falch iawn bod cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi cwblhau'r gwaith o drosglwyddo ei stoc—sy'n cynnwys tua 6,800 o dai—mewn modd rhagorol. Weinidog, yr ydych wedi dweud hyn o'r

all options will be offered to tenants, so that they choose that which is right for their community? As you know, the consultation on the Newport Housing Trust was deeply flawed, and so I seek your assurance on that.

Edwina Hart: Thank you for your comments, William, particularly those concerning consultation options for tenants. How we consult tenants and involve them in plans at an early stage is key. It is important that their views are taken on board throughout the process and that they feel engaged; we are talking about the future of their properties. I will bear that in mind when considering any other proposals that come to me.

I also commend the way that Bridgend council has dealt with this transfer, considering the number of properties involved; it was prepared to set out its stall and got a satisfactory arrangement, particularly in terms of the ballot. That showed people's trust in the way that the process was dealt with.

Your comments on the Llynfi valley training centre in Caerau are also well-meant. It is important, as we may want to emulate that scheme elsewhere in Wales, should we have the capacity. Once it is up and running, it is important that the Committee should visit it, to see how well it has worked. Training people in that area is important.

Peter Black: I also welcome this statement. Now that this transfer is complete, we will have the opportunity to lever in up to £70 million of investment into Bridgend to improve the council housing stock in that area. Everyone will welcome that, whether they are tenants of the new housing association or whether they benefit from the jobs created as a result. It is unfortunate that this stock transfer came a little too late to take full advantage of the community mutual model. That would have been even more beneficial for the tenants. Is it possible to

blaen, ond a wnewch roi sicrwydd eto y bydd yr holl ddewisiadau'n cael eu cynnig i denantiaid yn y dyfodol, fel y gallant ddewis yr un sy'n iawn i'w cymuned? Fel y gwyddoch, bu'r ymgynghori ar Ymddiriedolaeth Dai Casnewydd yn ddiffygiol iawn, felly ceisiaf sicrwydd gennych ar hynny.

Edwina Hart: Diolch i chi am eich sylwadau, William, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â dewisiadau o ran ymgynghori ar gyfer tenantiaid. Mae'r modd yr ydym yn ymgynghori â thenantiaid ac yn eu cynnwys mewn cynlluniau'n gynnar yn y broses yn hollbwysig. Mae'n bwysig ystyried eu barn drwy gydol y broses a'u bod yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys; yr ydym yn trafod dyfodol eu tai hwy. Byddaf yn cadw hynny mewn cof wrth ystyried unrhyw gynigion eraill a ddaw i law.

Yr wyf finnau'n canmol y modd y deliodd cyngor Pen-y-bont ar Ogwr â'r trosglwyddo hwn, o gofio nifer y tai yr effeithiwyd arnynt; yr oedd yn barod i gyflwyno ei achos a chafodd drefniant boddhaol, yn enwedig o ran y bleidlais. Yr oedd hynny'n dangos bod pobl yn ymddiried yn y modd y deliwyd â'r broses.

Yr oedd eich sylwadau am y ganolfan hyfforddi yng Nghaerau yng nghwm Llynfi yn dda eu bwriad hefyd. Mae'n bwysig, gan y gallem ddymuno efelychu'r cynllun hwnnw mewn mannau eraill yng Nghymru, os yw'r capasiti gennym. Ar ôl iddi ddechrau ar ei gwaith, mae'n bwysig bod y Pwyllgor yn ymweld â hi, i weld i ba raddau y llwyddodd. Mae'n bwysig hyfforddi pobl yn y maes hwnnw.

Peter Black: Yr wyf finnau'n croesawu'r datganiad hwn. Wedi cwblhau'r trosglwyddiad hwn, cawn gyfle i godi hyd at £70 miliwn o fuddsoddiad ym Mhen-y-bont ar Ogwr er mwyn gwella'r stoc tai cyngor yn yr ardal honno. Bydd pawb yn croesawu hynny, boed hwy'n denantiaid i'r gymdeithas dai newydd neu'n rhai a gaiff fudd o'r swyddi a greir o ganlyniad. Mae'n anffodus bod y trosglwyddiad stoc hwn wedi digwydd ychydig yn rhy hwyr i fanteisio'n llawn ar y model cydfuddiannol cymunedol. Buasai hynny'n fwy llesol byth i'r tenantiaid. A oes

discuss moving at least some way towards that model with the new housing association, to give the tenants a greater say in how their stock is managed?

I note from your statement that we will, in effect, be providing up to £16 million of funding to cover the various costs of this transfer. Although I welcome the nearly £50 million from the Treasury, I had hoped that some of that would pick up the negative valuation of this stock transfer. On future stock transfers, where we might have an even greater negative valuation, I am concerned that there could be a substantial drain on the Assembly's resources. What contingency plans do you have in place, and what discussions are you holding with the Treasury to cover that?

You stated that the £16 million will come from housing resources that would otherwise be available to Bridgend council. Had Bridgend council spent £16 million in capital each year on its council houses, its houses would not be in such poor condition that this money is needed. If we are to reduce the amount of money available to Bridgend council by £16 million to meet the costs of this transfer, I am concerned that it will impact upon the money that Bridgend council has available to pay disabled facility grants and other grants. I am interested in what work has been done by your officials to mitigate that. Over what period will these Assembly funds be payable? If it is all paid in one year, Bridgend council may find itself without any programme at all in terms of disabled facility grants and so on for private accommodation, and that will be a cause for concern.

Edwina Hart: Thank you for those comments, Peter. This is a complex financial area. This is the first time that we have had to discuss issues such as the write-off of outstanding public works loan debt and so on with the Treasury. The Treasury required a business case and value for money analysis. It may be worth me considering, at some stage, giving a general report to the Committee on the financial issues that must

modd trafod y posibilrwydd o symud ychydig o leiaf tuag at y model hwnnw gyda'r gymdeithas dai newydd, er mwyn rhoi mwy o lais i'r tenantiaid o ran y modd y rheolir eu stoc?

Sylwaf yn ôl eich datganiad y byddwn, i bob pwrpas, yn darparu hyd at £16 miliwn o gyllid i dalu am wahanol gostau'r trosglwyddo hwn. Er fy mod yn croesawu'r swm o bron £50 miliwn o'r Trysorlys, yr oeddwn wedi gobeithio y byddai rhywfaint o hwnnw'n talu am brisiad negyddol y trosglwyddiad stoc hwn. Ynghylch trosglwyddo stoc yn y dyfodol, pan allem gael prisiad negyddol mwy byth, yr wyf yn bryderus y gallai hynny fod yn dreth sylweddol ar adnoddau'r Cynulliad. Pa gynlluniau sydd gennych wrth gefn, a pha drafodaethau yr ydych yn eu cynnal gyda'r Trysorlys i ymdrin â hynny?

Dywedasoch y bydd y £16 miliwn yn dod o adnoddau ar gyfer tai a fuasai ar gael fel arall i gyngor Pen-y-bont ar Ogwr. Pe byddai cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi gwario £16 miliwn o gyfalaf bob blwyddyn ar ei dai cyngor, ni fyddai ei dai yn y fath gyflwr gwael fel bod angen yr arian hwn. Os byddwn yn lleihau'r swm o arian sydd ar gael i gyngor Pen-y-bont ar Ogwr o £16 miliwn i dalu am gostau'r trosglwyddo hwn, yr wyf yn bryderus y bydd hynny'n effeithio ar yr arian sydd ar gael i gyngor Pen-y-bont ar Ogwr i dalu grantiau cyfleusterau i'r anabl a grantiau eraill. Bydd o ddiddordeb imi glywed beth a wnaeth eich swyddogion i liniaru hynny. Dros ba gyfnod y bydd y cyllid hwn yn daladwy gan y Cynulliad? Os telir y cwbl mewn un flwyddyn, gallai cyngor Pen-y-bont ar Ogwr gael nad oes ganddo unrhyw raglen o gwbl o ran grantiau cyfleusterau i'r anabl ac yn y blaen ar gyfer llety preifat, a bydd hynny'n destun pryder.

Edwina Hart: Diolch ichi am y sylwadau hynny, Peter. Mae'r maes ariannol hwn yn un cymhleth. Dyma'r tro cyntaf inni orfod trafod materion fel dileu dyled sy'n weddill ar fenthyciad gweithfeydd cyhoeddus ac yn y blaen gyda'r Trysorlys. Mynnodd y Trysorlys gael achos busnes a dadansoddiad o'r gwerth am arian. Gallai fod yn werth imi ystyried rhoi adroddiad cyffredinol, rywbyrd neu'i gilydd, i'r Pwyllgor ar y materion ariannol y

be considered in terms of stock transfer. I am concerned about the impact on the general finances, and I have considered this carefully with officials. I am confident that this results in a neutral position for the Assembly. However, I would be happy, in due course, to discuss with officials the possibility of bringing forward a paper outlining the issues that have emerged during this process, as that may be helpful to the Committee and to others who are interested in this.

mae'n rhaid eu hystyried wrth drosglwyddo stoc. Yr wyf yn bryderus ynghylch yr effaith ar y sefyllfa ariannol gyffredinol, ac yr wyf wedi ystyried hyn yn ofalus gyda swyddogion. Yr wyf yn ffyddiog bod hyn yn arwain at sefyllfa niwtral i'r Cynulliad. Er hynny, byddwn yn falch o drafod gyda swyddogion, gyda hyn, y posibilrwydd o roi papur gerbron sy'n disgrifio'r materion a gododd yn ystod y broses hon, gan y gallai hynny fod o gymorth i'r Pwyllgor ac i eraill sydd â diddordeb ynddi.

Pwynt o Drefn Point of Order

Jeff Cuthbert: Point of order. At the meeting of the Education and Lifelong Learning Committee held on 1 October, the first item of business was the forward work plan. It was proposed, as part of that plan, that an additional Committee meeting be held on 16 October. It was suggested that the meeting was necessary to deal with the collection of information relevant to our review of special educational needs. However, several Committee members, including myself, did not agree with the proposal, believing that the matter could be included in the business of scheduled meetings. However, we were content to visit north Wales on 6 November to gather evidence. The Chair, Peter Black, put the proposal to the vote. The vote was tied at five votes for and five votes against. The Chair then used his casting—

Jeff Cuthbert: Pwynt o drefn. Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a gynhaliwyd ar 1 Hydref, yr eitem fusnes gyntaf oedd y flaenraglen waith. Cynigiwyd, fel rhan o'r cynllun hwinnw, y dylid cynnal cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor ar 16 Hydref. Awgrymwyd bod angen cyfarfod o'r fath er mwyn delio â chasglu gwybodaeth sy'n berthnasol i'n hadolygiad o anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag, yr oedd sawl aelod o'r Pwyllgor, a minnau'n un ohonynt, yn anghytuno â'r bwriad, gan gredu y gellid cynnwys y mater ym musnes y cyfarfodydd a oedd wedi'u hamserlennu. Er hynny, yr oeddem yn fodlon ymweld â'r Gogledd ar 6 Tachwedd i gasglu tystiolaeth. Rhoddodd y Cadeirydd, Peter Black, y cynnig i bleidlais. Yr oedd y bleidlais yn gyfartal ar bum pleidlais o blaid a phump yn erbyn. Wedyn defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw—

The Presiding Officer: Order. We are well aware of what happened in the Committee; that is public knowledge. Could you explain how this is a point of order for me?

Y Llywydd: Trefn. Gwyddom yn iawn beth a ddigwyddodd yn y Pwyllgor; mae hynny'n hysbys i bawb. A allwch egluro sut y mae hyn yn bwynt o drefn i mi?

Jeff Cuthbert: I was told by the Chair of the Education and Lifelong Learning Committee that, if I wished to protest against the decision, I should raise the matter with the Presiding Office.

Jeff Cuthbert: Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes wrthyf, os dymunwn wrthdystio yn erbyn y penderfyniad, y dylwn godi'r mater gyda Swyddfa'r Llywydd.

The Presiding Officer: Order. You have already done so. We have exchanged correspondence on this.

Y Llywydd: Trefn. Gwnaethoch hynny eisoes. Yr ydym wedi gohebu â'n gilydd ar y mater hwn.

Jeff Cuthbert: I was advised by your office

Jeff Cuthbert: Fe'm hysbyswyd gan eich

that I could still raise the matter, and I have additional issues to raise.

The Presiding Officer: Order. There are no additional issues. We have exchanged correspondence on this matter. I made my position clear in the first Assembly, on 22 October 2002. It is not part of my role as Presiding Officer to question the conduct of Committee Chairs. They are independent in their work in Committee. There was a discussion in the Panel of Chairs on the general principles of this case, and guidance was agreed. My judgment on this matter should not be interposed with that of Committee Chairs when they are exercising judgment as agreed. If there are matters to be raised, the appropriate place to raise them is not in Plenary; they should be raised for further discussion in the Panel of Chairs.

Jeff Cuthbert: Further to that point of order, and to clarify: is that what I should do? I believe that the guidance that was issued has been breached. Should I raise that matter with the Panel of Chairs?

The Presiding Officer: Order. I have considered this matter carefully in light of the guidance. This is a matter for the Chair of the Committee, and that is how the matter should be dealt with. It is not for me, as Presiding Officer and Chair of the Panel of Chairs, to second guess Chairs' judgment in Plenary, particularly when that judgment was taken under guidance that was agreed in the Panel of Chairs.

**Cymeradwyo Rheoliadau Plaleiddiaid (Uchafswm Lefel Gweddillion mewn Cnydau, Bwyd a Phorthiant) (Lloegr a Chymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2003
Approval of the Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England and Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2003**

The Presiding Officer: Under Standing Order Nos. 22.10, 23.11 and 22.25, this motion is not subject to debate.

The Business Minister (Karen Sinclair): I propose that

swyddfa y gallwn godi'r mater er hynny, ac mae gennyf faterion ychwanegol i'w codi.

Y Llywydd: Trefn. Nid oes materion ychwanegol. Yr ydym wedi gohebu â'n gilydd ar y mater hwn. Eglurais fy safbwynt yn y Cynulliad cyntaf, ar 22 Hydref 2002. Nid yw holi ynghylch ymddygiad Cadeiryddion Pwyllgor yn rhan o'm rôl fel Llywydd. Maent yn annibynnol yn eu gwaith mewn Pwyllgor. Bu trafodaeth ym Mhanel y Cadeiryddion ar egwyddorion cyffredinol yr achos hwn, a chytunwyd ar ganllawiau. Ni ddylid rhoi fy nyfarniad i ar y mater hwn o flaen dyfarniad y Cadeiryddion Pwyllgor a hwythau'n dyfarnu fel y cytunwyd. Os oes materion i'w codi, nid y Cyfarfod Llawn yw'r lle priodol i'w codi; dylid eu codi ar gyfer trafodaeth bellach ym Mhanel y Cadeiryddion.

Jeff Cuthbert: Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, ac er mwyn cael eglurhad: ai hynny y dylwn ei wneud? Credaf fod amodau'r canllawiau a roddwyd wedi eu torri. A ddylwn godi'r mater hwnnw gyda Phanel y Cadeiryddion?

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf wedi ystyried y mater hwn yn ofalus yng ngoleuni'r canllawiau. Mater i Gadeirydd y Pwyllgor yw hwn, ac felly y dylid ymdrin â'r mater. Nid fy lle i, fel Llywydd a Chadeirydd Panel y Cadeiryddion, yw ceisio rhagweld dyfarniad y Cadeiryddion yn y Cyfarfod Llawn, yn enwedig o gofio bod y dyfarniad hwnnw wedi'i wneud yn unol â chanllawiau a gytunwyd ym Mhanel y Cadeiryddion.

Y Llywydd: Dan Reolau Sefydlog Rhif 22.10, 23.11 a 22.25, ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn.

Y Trefnydd (Karen Sinclair): Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales, acting under Standing Order Nos. 22.25, 23.10 and 23.11:

1. approves the draft Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England and Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2003, a copy of which was laid in the Table Office on 23 September 2003, and

2. notes the explanatory memorandum for this Order laid in the Table Office on 23 September 2003. (NDM1635)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reolau Sefydlog Rhifau 22.25, 23.10 a 23.11:

1. yn cymeradwyo Rheoliadau Plaleiddiaid (Uchafswm Lefelau Gweddillion mewn Cnydau, Bwyd a Phorthiant) (Lloegr a Chymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2003, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Medi 2003, ac

2. yn nodi'r memorandwm esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Medi 2003. (NDM1635)

*Cynnig (NDM1635): O blaid 47, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM1635): For 47, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Gregory, Janice
Gibbons, Brian
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Laura Anne
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen

Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

Cynllun Gofodol Cymru The Wales Spatial Plan

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 4, 5 a 6 yn enw Jocelyn Davies, gwelliannau 2 a 3 yn enw Jonathan Morgan a gwelliant 7 yn enw Kirsty Williams.

The Presiding Officer: I have selected amendments 1, 4, 5 and 6 in the name of Jocelyn Davies, amendments 2 and 3 in the name of Jonathan Morgan and amendment 7 in the name of Kirsty Williams.

Fel y bydd Aelodau'n sylwi, mae llai na thri chwarter awr ar gael ar gyfer y ddadl hon. Yr wyf felly yn defnyddio'r pwerau i gyfyngu areithiau, gan gynnwys areithiau Aelodau sy'n cynnig gwelliannau, i dri munud. Caiff y Gweinidog ei heithrio o hyn, ond gofynnaf am gynildeb ar ei rhan hithau hefyd. Os na ddaw'r ddadl i ben mewn trefn, byddaf yn defnyddio fy mhwerau dan Reol Sefydlog Rhif 6.14 i ddod â'r ddadl i ben erbyn 4.30 p.m. er mwyn diogelu'r eitem olaf o fusnes, sef y ddadl plaid leiafrifol.

As Members will notice, less than three quarters of an hour is available for this debate. I therefore exercise the power to limit speeches, including those of Members proposing amendments, to three minutes. The Minister is exempt from this, but I request that she also be brief. If the debate is not concluded in order, I will exercise my powers under Standing Order No. 6.14 to bring the debate to an end by 4.30 p.m. in order to protect the final item of business, which is the minority party debate.

The Finance Minister (Sue Essex): I propose that

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Cynigiad fod

the National Assembly for Wales welcomes the publication of 'People, Places, Futures', the draft Wales spatial plan, and the consultation process that accompanies it. (NDM1636)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn croesawu cyhoeddi 'Pobl, Lleoedd, Dyfodol', y cynllun gofodol drafft ar gyfer Cymru, a'r broses ymgynghori sy'n gysylltiedig ag ef. (NDM1636)

3.50 p.m.

This plan is a first for Wales, and it presents us with an opportunity to consider the future direction of travel for Wales. The purpose of this spatial approach is to help integrate the policies and actions of the Assembly and others to achieve our vision of a sustainable Wales, through a spatial framework around which policies can be developed and refined. It provides a context for guiding public and private investment decisions, without being an infrastructure investment programme, and it promotes debate on the future role of places and regions within Wales.

Mae Cymru'n arloesi gyda'r cynllun hwn, ac mae'n rhoi cyfle inni ystyried i ba gyfeiriad y bydd Cymru'n mynd yn y dyfodol. Pwrpas y dull gweithredu gofodol hwn yw helpu i integreiddio polisiau a champau gweithredu'r Cynulliad ac eraill er mwyn gwireddu ein gwledigaeth o Gymru gynaliadwy, drwy fframwaith gofodol a fydd yn gymorth i ddatblygu a gwella polisiau. Mae'n cynnig cyd-destun i lywio penderfyniadau ar fuddsoddi cyhoeddus a phreifat, heb fod yn rhaglen buddsoddi mewn seilwaith, ac mae'n hyrwyddo dadl ar y rôl a fydd i leoedd a

rhanbarthau yng Nghymru yn y dyfodol.

Experience tells us that collaboration is essential for us to work well in Wales. I want to promote collaborative working to achieve higher order objectives, beyond organisations' own immediate functional and sectoral boundaries. We have been working together for some time with a wide cross-section of Wales to develop this plan. At an early stage, I set up an advisory management board with representatives of our partners, Government organisations and the private and voluntary sectors. We have been in close contact with colleagues in other parts of the UK and Europe to learn from their experiences of similar work. I wish to thank colleagues from Northern Ireland and southern Ireland who have been very helpful. We have developed a distinct Welsh approach, with a core vision of aiming for a dynamic, prosperous and inclusive Wales, where our heritage and environment are valued and where we work together and with our neighbours to achieve sustainable development across Wales. The vision is translated into four main objectives: building sustainable communities; increasing and spreading prosperity; valuing our environment, and achieving sustainable accessibility.

Mae profiad wedi dangos inni fod cydweithio'n hollbwysig er mwyn inni lwyddo yng Nghymru. Dymunaf hyrwyddo cydweithio er mwyn cyflawni amcanion uwch, sydd y tu hwnt i ffiniau agosaf y cyrff eu hunain o ran eu swyddogaethau a'u sectorau. Buom yn gweithio ar y cyd ers cryn amser gyda thrawsdoriad eang yng Nghymru i ddatblygu'r cynllun hwn. Sefydlaidd fwrdd rheoli ymgynghorol yn gynnar ac arno gynrychiolwyr o blith ein partneriaid, cyrff Llywodraeth a'r sectorau preifat a gwirfoddol. Buom mewn cysylltiad agos â chymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU ac Ewrop er mwyn dysgu oddi wrth eu profiadau o waith tebyg. Dymunaf ddiolch i gymheiriaid yng Ngogledd Iwerddon a de Iwerddon a fu'n gymwynasgar iawn. Yr ydym wedi datblygu dull gweithredu neilltuol Gymreig, gyda gweledigaeth ganolog sy'n ceisio Cymru ddeinamig, ffyniannus a chynhwysol, lle y trysorir ein treftadaeth a'n hamgylchedd a lle y gweithiwn gyda'n gilydd a chyda'n cymdogion i sicrhau datblygu cynaliadwy ledled Cymru. Cyfleir y weledigaeth drwy bedwar prif amcan: adeiladu cymunedau cynaliadwy; cynyddu a lledaenu ffyniant; trysori ein hamgylchedd, a sicrhau hygyrchedd cynaliadwy.

Daeth David Melding i'r Gadair am 3.54 p.m.

David Melding took the Chair at 3.54 p.m.

Using these generic objectives, we broadly characterise Wales into four different zones, each made up of a number of areas. These zones share important common attributes and potential. The plan outlines objectives for the zones, which are necessary to address the spatial challenges that the analysis identified. The zones are described using colours. The yellow zone is made up of Swansea and the surrounding areas, parts of Pembrokeshire, and north-west Wales, where the key challenge is how to revitalise towns and settlements to improve the local economy and services to the areas. The orange zone includes south-east Wales, including the coastal belt from Bridgend to the Severn crossing, linking up to the heads of the Valleys. It also includes north-east Wales, where it is important to increase and spread prosperity within the area, and to the rest of

Gan ddefnyddio'r amcanion cyffredinol hyn, yr ydym yn rhannu Cymru'n bedwar parth gwahanol eu nodweddion, a phob un ohonynt yn cynnwys nifer o ardaloedd. Mae'r parthau hyn yn rhannu priodweddau cyffredin a photensial pwysig. Mae'r cynllun yn disgrifio amcanion ar gyfer y parthau, sy'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r heriau gofodol a nodwyd yn y dadansoddiad. Nodir y parthau drwy liwiau. Mae'r parth melyn yn cynnwys Abertawe a'r cyffiniau, rhannau o Sir Benfro, a'r Gogledd-orllewin, a'r her allweddol yn y manau hynny yw'r modd i adfywio trefi ac aneddiadau er mwyn gwella'r economi leol a gwasanaethau ar gyfer yr ardaloedd. Mae'r parth oren yn cynnwys y De-ddwyrain, gan gynnwys yr arfordir o Ben-y-bont ar Ogwr i bontydd Hafren, gan gysylltu â blaenau'r Cymoedd. Mae hefyd yn cynnwys y Gogledd-ddwyrain,

Wales, from the economic motors around Cardiff and Newport, and Flintshire and Wrexham. The pink zone is made up of Cardigan bay and east Powys. These are areas with dynamic changes in populations and economies, and have opportunities linked to their local environments. The green zone is mostly remote rural areas, where the challenge is to sustain viable communities by strengthening links between centres and their hinterlands and by pursuing innovative options for service delivery.

Of course, there are differences within the different areas of any one zone. This is why we suggest area perspectives for each of the distinct areas. I want to see these refined through the consultation process with input, importantly, from local people. These can inform and be informed by the emerging local authority community strategies.

I want to move forward in a way that builds on existing regional relationships in Wales and to forge new ones, where necessary, in order to work collaboratively. The spatial plan illustrates how the Assembly Government combines leadership with partnership. Through this process, we will lead people and organisations to develop a shared vision of their part of Wales. This vision will inform not only the policies of the Assembly Government and its sponsored bodies, but the actions of its partners in local government and in the voluntary and business sectors. I emphasise that we are not imposing solutions; we are facilitating a process whereby we can share solutions with others.

In this respect, I welcome the Welsh Local Government Association's endorsement of the publication of this consultation document, which it recognises as an important interface with the emerging local community strategies throughout Wales. I have taken steps to ensure that this approach becomes embedded in future, particularly through the Planning and Compulsory Purchase Bill going through

lle y mae'n bwysig cynyddu a lledaenu ffyniant o fewn yr ardal, ac i weddill Cymru, o'r sbardunau economaidd o gwmpas Caerdydd a Chasnewydd, a Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r parth pinc yn cynnwys bae Ceredigion a dwyrain Powys. Ardaloedd lle y ceir newidiadau deinamig o ran poblogaethau ac economïau yw'r rhain, ac mae ganddynt gyfleoedd sy'n gysylltiedig â'u hamgylcheddau lleol. Ardaloedd gwledig diarffordd sydd yn y parth gwyrdd gan mwyaf, a'r her yno yw cynnal cymunedau hyfyw drwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng canolfannau a'u cefnfröydd a thrwy ddarparu gwasanaethau mewn modd arloesol.

Wrth gwrs, ceir gwahaniaethau o fewn y gwahanol ardaloedd mewn unrhyw barth. Dyna pam yr ydym yn awgrymu persbectifau ardal ar gyfer pob un o'r ardaloedd penodol. Dymunaf weld y rhain yn cael eu coethi drwy'r broses ymgynghori gyda mewnbyn oddi wrth bobl leol, sy'n beth pwysig. Gallant ddylanwadu ar y strategaethau cymunedol y mae'r awdurdodau lleol yn eu datblygu, a chymryd eu dylanwadu ganddynt.

Dymunaf symud ymlaen mewn modd sy'n adeiladu ar sail y cydberthynasau sy'n bodoli rhwng y rhanbarthau yng Nghymru ac yn ffurfio rhai newydd, os oes angen, fel y gellir gweithio ar y cyd. Mae'r cynllun gofodol yn dangos sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyfuno arweinyddiaeth a phartneriaeth. Drwy'r broses hon, byddwn yn arwain pobl a chyrrff i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd o'u rhan hwy o Gymru. Bydd y weledigaeth hon yn fodd i oleuo polisiau Llywodraeth y Cynulliad a'r cyrrff y mae'n eu noddi, yn ogystal â'r camau a gymerir gan ei phartneriaid mewn llywodraeth leol ac yn y sectorau busnes a gwirfoddol. Pwysleisïaf nad ydym yn gorfodi atebion; yr ydym yn hwyluso proses lle y gallwn rannu atebion ag eraill.

Yn hyn o beth, croesawaf y ffaith bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cefnogi cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori hon, gan ei gweld yn gyswllt pwysig â'r strategaethau cymunedol lleol sy'n datblygu ledled Cymru. Cymerais gamau i sicrhau y bydd y dull gweithredu hwn yn parhau yn y dyfodol, yn enwedig drwy'r Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol sy'n mynd drwy'r

Parliament.

The principles of participation and collaboration are an essential part of policy making and are important to the way in which we ensure that sustainable development has real meaning. From today, there will be an extensive and proactive consultation period. I will launch the consultation process with Cabinet colleagues at events in north and south Wales in October.

I now turn to the amendments: Jocelyn Davies's amendment 1 should be supported. We have received many positive responses from outside organisations. I reject Jonathan Morgan's amendment 2 because the Assembly Government takes a cross-cutting and integrated approach to improving the supply of affordable housing. That is being addressed through Technical Advice Note 2: 'Affordable Housing'. Jonathan's amendment 3 is superfluous because he can see from what I have said and what is outlined in the document that it is about working together, particularly in the regions of Wales. Jocelyn's amendment 4 highlights the links of a spatial approach and I am sympathetic to its sentiment, but I have already made clear that making development sustainable is the main thrust of this plan and therefore this amendment is unnecessary. Similarly, on amendment 5, the plan makes clear the role of community strategies. However, I am happy to support amendment 6, which seeks to ensure that there is a full Plenary debate following the end of the consultation process. On Kirsty Williams's amendment 7, the First Minister's thinking was related to the fact that I chair the Cabinet sub-committee on the spatial plan and sustainable development and therefore responsibility for developing that sits within this portfolio.

Finally, to summarise briefly, 'People, Places, Futures', and its future versions, is our response to Welsh issues, framed by our values and objectives. We recognise the importance of going beyond one-size-fits-all solutions and the need to combine leadership with listening. It demonstrates the opportunity and benefit of devolution.

Senedd.

Mae egwyddorion cyfranogi a chydweithio yn rhan annatod o'r gwaith o lunio polisi ac maent yn bwysig o ran y modd yr ydym yn sicrhau bod gwir ystyr i ddatblygu cynaliadwy. O heddiw ymlaen, bydd cyfnod ymgynghori hir a rhagweithiol. Byddaf yn lansio'r broses ymgynghori gyda chyd-Weinidogion mewn digwyddiadau yn y De a'r Gogledd ym mis Hydref.

Trof yn awr at y gwelliannau: dylid cefnogi gwelliant 1 Jocelyn Davies. Cawsom lawer o ymatebion cadarnhaol gan gyrff allanol. Gwrthodaf welliant 2 Jonathan Morgan gan fod Llywodraeth y Cynulliad yn ymdrin yn drawsbynciol ac yn integredig â gwella'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Ymdrinnir â hynny drwy Nodyn Cyngor Technegol 2: 'Tai Fforddiadwy'. Mae gwelliant 3 Jonathan yn ddiangen oherwydd gall weld o'r hyn a ddywedais ac o'r hyn a amlinellir yn y ddogfen fod hyn yn golygu gweithio ar y cyd, yn enwedig yn rhanbarthau Cymru. Mae gwelliant 4 Jocelyn yn tynnu sylw at y cysylltiadau a geir mewn dull gweithredu gofodol ac yr wyf yn cydymdeimlo â'r teimlad sydd ynddo, ond yr wyf eisoes wedi egluro mai peri i ddatblygu fod yn gynaliadwy yw prif fyrdwn y cynllun hwn ac felly nid oes angen y gwelliant hwn. Yn yr un modd, ynghylch gwelliant 5, mae'r cynllun yn egluro rôl strategaethau cymunedol. Fodd bynnag, yr wyf yn falch o gefnogi gwelliant 6, sy'n ceisio sicrhau y bydd dadl lawn yn y Cyfarfod Llawn ar ôl i'r broses ymgynghori ddod i ben. Ynghylch gwelliant 7 Kirsty Williams, yr oedd meddylfryd y Prif Weinidog yn ymwneud â'r ffaith mai myfi yw Cadeirydd is-bwyllgor y Cabinet ar y cynllun gofodol a datblygu cynaliadwy ac felly fod y cyfrifoldeb dros ddatblygu hynny'n rhan o'r portffolio hwn.

Yn olaf, er mwyn crynhoi'r fyr, 'Pobl, Lleoedd, Dyfodol', a'r fersiynau ohono yn y dyfodol, yw ein hymateb ni i faterion sy'n codi yng Nghymru, ac fe'i lluniwyd yng ngoleuni ein gwerthoedd a'n hamcanion. Cydnabyddwn ei bod yn bwysig mynd ymhellach nag atebion sy'n ceisio ateb pob diben a bod angen cyfuno'r gallu i arwain a'r gallu i wrando. Dengys hyn y cyfle a'r budd a

geir o ddatganoli.

David Melding: I remind Members that speeches are limited to three minutes due to time pressures.

David Melding: Yr wyf yn atgoffa Aelodau bod areithiau'n gyfyngedig i dri munud oherwydd pwysau amser.

Janet Ryder: I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies. Amendment 1: in line 1, delete '*welcomes the*' and replace with '*notes the long awaited*'.

Janet Ryder: Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies. Gwelliant 1: yn llinell 1, dileu '*yn croesawu cyhoeddi*' a rhoi '*yn nodi cyhoeddiad hir-ddisgwyliedig*'.

I propose amendment 4. Add as a new point at the end of the motion:

Cynigiaf welliant 4. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

notes the potential opportunity this plan offers to developing and maintaining a sustainable Welsh nation.

Yn nodi'r cyfle posibl y mae'r cynllun hwn yn ei gynnig i ddatblygu a chynnal cenedl Gymreig gynaliadwy.

I propose amendment 5. Add as a new point at the end of the motion:

Cynigiaf welliant 5. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

calls on the Minister to clarify the relationship between this strategic document and others including the unitary development plans and community strategies.

Yn galw ar y Gweinidog i egluro'r berthynas rhwng y ddogfen strategol hon ac eraill gan gynnwys y cynlluniau datblygu unedol a'r strategaethau cymunedol.

I propose amendment 6. Add as a new point at the end of the motion:

Cynigiaf welliant 6. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

calls on the Minister to ensure that there is a full Plenary debate following the end of the consultation process.

Yn galw ar y Gweinidog i sicrhau bod dadlawn yn cael ei chynnal mewn Cyfarfod Llawn ar ôl i'r broses ymgynghori ddod i ben.

Plaid Cymru welcomes an emphasis on spatial planning, and has awaited the publication of a document such as this for many years. We believe that a sustainable polycentric development strategy for Wales should be developed to ensure a more even spread of prosperity in Wales and to relieve congestion and urban sprawl in the south-east and other hot spots. This could therefore be one of the Government's most significant documents. It should be a dynamic document: not one locked in time, but one with the capacity and capability to change and evolve.

Mae Plaid Cymru yn croesawu pwyslais ar gynllunio gofodol, a bu'n disgwyl ers blynyddoedd lawer am gyhoeddi dogfen fel hon. Credwn y dylid datblygu strategaeth ddatblygu lluosganolog cynaliadwy ar gyfer Cymru er mwyn sicrhau y caiff ffyniant ei ledaenu'n fwy cyfartal yng Nghymru a lliniaru tagfeydd a blerdwf trefol yn y Ddeddwyrain ac mewn mannau eraill sydd dan bwysau. Felly gallai hon fod yn un o ddogfennau pwysicaf y Llywodraeth. Dylai fod yn ddogfen ddeinamig: nid un sydd wedi'i rhewi mewn amser, ond un y mae lle iddi newid a datblygu.

However, what we have heard today—the result of three or more years of work—represents little more than a snapshot of certain aspects of Wales. The plan brings together many facets and paints an excellent

Fodd bynnag, nid yw'r hyn a glywsom heddiw—sy'n ganlyniad i dair blynedd a rhagor o waith—yn cynnig fawr mwy na chiaplun o rai agweddau o Gymru. Mae'r cynllun yn dod â llawer o agweddau at ei

pen picture of where Wales is now, but the eventual vision and how it is reached is, perhaps, disappointing. That is the basis of amendments 1 and 4.

The potential opportunity that this plan offers to develop and maintain a sustainable Welsh nation is only that—potential. We must await the outcome of the consultation process before deciding whether there is true potential in this document. Amendment 5 calls on the Minister to clarify the relationship between this strategic document and others. She has touched on that slightly, but if we think of the myriad strategies that have been demanded of bodies since 1999, we would like a little more clarification. What is the relationship between this plan and the unitary development plans currently being developed by county councils, such as community strategies, health and wellbeing plans, children and young people's plans, housing strategies, homelessness plans and education plans? What is the connection with any of the WDA's plans for encouraging economic development or developing European funding structures?

We were told that community strategies would be the overarching documents and that everybody's plans could blend into them. Therefore, what is the relationship between community strategies and spatial plans? Is one just a visual image of the other? Economic development, waste management, transport and health are all matters that need to be considered at regional and national levels. All are identified in this plan, but are delivered by many different agencies. On completion, will the spatial plan have the power to make other plans? Local health board plans and housing association plans all blend into this one spatial plan. If it does not have that power, is this plan simply a suggestion of a way forward? Many people in local government and ASPBs will hold up their hands in horror if they are asked to work on yet another set of plans.

4.00 p.m.

gilydd ac yn tynnu braslun rhagorol o Gymru fel y mae, ond mae'r weledigaeth derfynol a'r modd i'w gwireddu yn siomedig, o bosibl. Dyna sy'n sail i welliannau 1 a 4.

Nid yw'r potensial y mae'r cynllun hwn yn ei gynnig i ddatblygu a chadw cenedl Gymreig gynaliadwy yn ddim mwy na hynny—potensial. Rhaid inni ddisgwyl canlyniad y broses ymgynghori cyn penderfynu a oes gwir botensial yn y ddogfen hon. Mae gwelliant 5 yn galw ar y Gweinidog i egluro'r berthynas rhwng y strategaeth hon a dogfennau eraill. Gwnaeth fraidd-gyffwrdd â hynny, ond o gofio am y strategaethau fyrdd a fynnwyd gan gyrff er 1999, carem gael ychydig mwy o eglurhad. Beth yw'r berthynas rhwng y cynllun hwn a'r cynlluniau datblygu unedol sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan gynghorau sir, a rhai fel y strategaethau cymunedol, cynlluniau iechyd a lles, cynlluniau plant a phobl ifanc, strategaethau tai, cynlluniau digartrefedd a chynlluniau addysg? Beth yw'r cysylltiad ag unrhyw rai o gynlluniau'r WDA ar gyfer hybu datblygu economaidd neu ddatblygu fframweithiau cyllido Ewropeaidd?

Dywedwyd wrthym mai strategaethau cymunedol fyddai'r dogfennau cyffredinol ac y gallai cynlluniau pawb gydweddu iddynt. Gan hynny, beth yw'r berthynas rhwng strategaethau cymunedol a chynlluniau gofodol? A yw'r naill yn ddim mwy na delwedd weledol o'r llall? Mae datblygu economaidd, rheoli gwastraff, trafnidiaeth ac iechyd i gyd yn faterion y mae'n rhaid eu hystyried ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Nodir pob un ohonynt yn y cynllun hwn, ond fe'u cyflawnir gan lawer o asiantaethau gwahanol. Ar ôl ei gwblhau, a fydd y cynllun gofodol yn gallu ffurfio cynlluniau eraill? Mae cynlluniau byrddau iechyd lleol a chynlluniau cymdeithasau tai i gyd yn cydweddu i'r cynllun gofodol hwn. Os nad yw'n gallu gwneud hynny, a yw'r cynllun hwn yn ddim ond yn awgrym am ffordd ymlaen? Bydd llawer mewn llywodraeth leol a chyrrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn arswydo os gofynnir iddynt weithio ar set arall o gynlluniau.

While this document seeks to present an overarching view, it does not give weight to one of the most important issues, which is a place to live, and the ability to access a home in your community. Some mention is made of it, but it is minimal. One of the major disappointments in the document is the lack of emphasis on social or privately-owned housing. Transport is not sufficiently considered, with no prioritisation for the north-south links—

David Melding: Order. Janet, you need to wind up.

Janet Ryder: We shall therefore support the Conservatives' amendments 2 and 3, and the notion that this plan should sit firmly with the Environment, Planning and Countryside Committee.

Glyn Davies: I propose the following amendments in the name of Jonathan Morgan. Amendment 2: insert at the end of the motion:

which stresses the importance of developing a plan that tackles the problem of affordable housing in Wales.

I propose amendment 3. Insert at the end of the motion:

which brings the regions of Wales closer together through the improvement of communication between north and south Wales.

The spatial plan is in its early stages. We are not opposed to the concept of a spatial plan, but I am suspicious of it being too grand. Such grand plans do not have a good record. When I was a teenager, some national plans never amounted to anything; they were just wordy documents. The 1980s was the decade of corporate plans. It was the fashion to set up corporate departments in all the quangos and employ corporate planning officers to create huge, complicated documents. The result was that the only people who read them were corporate planning officers in the other quangos. Minister, we need a spatial plan that the vast majority of people in Wales will find easy to read and understand. It must also have a timescale, unlike some local

Er bod y ddogfen hon yn ceisio cynnig golwg cyffredinol, nid yw'n rhoi pwys ar un o'r materion pwysicaf, sef lle i fyw, a'r gallu i gael cartref yn eich cymuned. Ceir rhyw sôn amdano, ond dim ond ychydig bach. Un o'r pethau mwyaf siomedig yn y ddogfen yw'r diffyg pwyslais ar dai cymdeithasol neu dai mewn perchnogaeth breifat. Nid oes digon o ystyriaeth i drafnidiaeth, ac nid oes blaenoriaeth i'r cysylltiadau rhwng y de a'r gogledd—

David Melding: Trefn. Janet, rhaid ichi derfynu.

Janet Ryder: Gan hynny, cefnogwn welliannau 2 a 3 y Ceidwadwyr, a'r syniad y dylai'r cynllun hwn fod dan ofal Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.

Glyn Davies: Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Jonathan Morgan. Gwelliant 2: ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

sy'n pwysleisio pa mor bwysig yw datblygu cynllun sy'n mynd i'r afael â phroblem tai fforddiadwy yng Nghymru.

Cynigiaf welliant 3. Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

sy'n dod â rhanbarthau Cymru'n nes at ei gilydd drwy wella cyfathrebu rhwng y Gogledd a'r De.

Mae'r cynllun gofodol mewn cyfnod cynnar. Nid ydym yn gwrthwynebu'r syniad o gynllun gofodol, ond yr wyf yn amau ei fod yn rhy fawreddog. Nid oes record dda i gynlluniau mawreddog o'r fath. Pan oeddwn yn fy ardegau, cafwyd rhai cynlluniau cenedlaethol na ddaeth dim ohonynt; nid oeddent ond yn ddogfennau amleiriog. Degawd y cynlluniau corfforaethol oedd y 1980au. Y ffasiwn oedd sefydlu adrannau corfforaethol ym mhob cwango a chyflogi swyddogion cynllunio corfforaethol i greu dogfennau hirfaith a chymhleth. O ganlyniad i hynny, yr unig rai a'u darllenai oedd swyddogion cynllunio corfforaethol yn y cwangos eraill. Weinidog, mae arnom angen cynllun gofodol y bydd y mwyafrif helaeth o

authorities' development plans in which I have been involved. By the time such plans came to fruition and were agreed upon, it was time to start on their next stage. This spatial plan is at an early stage, and the major debate on its content will take place in Plenary in the spring of 2004.

The Minister mentioned 'cross-sectional and functional boundaries'. However, the plan should not lose focus on what happens where. I know that that seems a little simplistic, but the plan's geographical basis is crucial. It must not become too removed from that; it must relate to Wales's specific problems. That is why we tabled our amendments.

I will refer briefly to three issues that the plan must address. First, it must address the issue of affordable housing as one of the major problems facing rural areas. Secondly, the plan refers to the north-south road, but there must be strong references in the final plan. The Assembly Government could take that proposal forward and devolution would then appear to be making a difference to Wales. Thirdly, it must address the Welsh language and culture. The plan begins by stating the Government's four main objectives, its principles and policy priorities. There should be some reference in the plan to the factors that make Wales unique, which are its culture and its language.

Mick Bates: I propose amendment 7 in the name of Kirsty Williams. Add as a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government to invest the responsibility for the Wales spatial plan in the Minister for Environment, Planning and the Countryside, who has responsibility for sustainable development.

The Welsh Liberal Democrats welcome this landmark document. In my shortened speech, I will address three issues that are crucial if

bobl yng Nghymru'n ei gael yn hawdd ei ddarllen a'i ddeall. Rhaid iddo ddilyn amserlen hefyd, yn wahanol i rai cynlluniau datblygu awdurdod lleol y bûm yn gysylltiedig â hwy. Erbyn cwblhau a chytuno ar gynlluniau o'r fath, yr oedd yn bryd cychwyn ar y cam nesaf. Mae'r cynllun gofodol hwn mewn cyfnod cynnar, a bydd y brif ddadl ar ei gynnwys yn y Cyfarfod Llawn yng ngwanwyn 2004.

Soniodd y Gweinidog am 'ffiniau trawstoriadol a swyddogaethol'. Fodd bynnag, ni ddylai'r cynllun gollu golwg ar yr hyn sy'n digwydd ym mhle. Gwn fod hynny'n ymddangos braidd yn or-sympl, ond mae sail ddaearyddol y cynllun yn hollbwysig. Rhaid iddo beidio ag ymbellhau'n ormodol oddi wrth hynny; rhaid iddo fod yn berthnasol i broblemau penodol Cymru. Dyna pam yr ydym wedi cyflwyno ein gwelliannau.

Cyfeirir yn fyr at dri mater y mae'n rhaid i'r cynllun ymdrin â hwy. Yn gyntaf, rhaid iddo ymdrin â mater tai fforddiadwy gan mai dyna un o'r prif broblemau sy'n wynebu ardaloedd gwledig. Yn ail, mae'r cynllun yn cyfeirio at y ffordd o'r De i'r Gogledd, ond rhaid cael cyfeiriadau pendant at hynny yn y cynllun terfynol. Gallai Llywodraeth y Cynulliad fwrw ymlaen â'r cynllun hwnnw a byddai datganoli wedyn i'w weld yn gwneud gwahaniaeth yng Nghymru. Yn drydydd, rhaid iddo ymdrin â'r Gymraeg a diwylliant. Ar ddechrau'r ddogfen, datgenir pedwar prif amcan y Llywodraeth, ei hegwyddorion a'i blaenoriaethau polisi. Dylid cael rhyw gyfeiriad yn y cynllun at y ffactorau sy'n gwneud Cymru'n unigryw, sef ei diwylliant a'i hiaith.

Mick Bates: Cynigiaf welliant 7 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi'r cyfrifoldeb am Gynllun Gofodol Cymru yn nwylo'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, sy'n gyfrifol am ddatblygu cynaliadwy.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn croesawu'r ddogfen bwysig hon. Yn fy araith a gwtogwyd, ymdriniaf â thri mater sy'n

we are to have a good consultation and if this is to be a meaningful document. First, the overall concept—and much is made of the global issues that affect Wales—is good, and relating it holistically to local issues is excellent. The collection of data in the report is excellent, and some of us will remember the colour coding from infant classes. However, when measurement is mentioned at the end of the document, the respondents to this consultation must be clear on how we propose to measure the document's success.

We must remind ourselves that sustainability should be at the core of the planning system so that we do not burden future generations with inappropriate buildings or the cost of clearing up the consequences of our activities and decisions. That is fundamental to this document and I am sure that we all support that. Sustainable development and environmental impact assessments define Wales's ecological footprint. This must be at the heart of how our authorities and Government operate in Wales.

There is much to welcome in this report, but I will return to local issues and the directions that you have given. I agree with Glyn's comment, and I share his scepticism, that reports such as this are sometimes used to cover up an inability to deliver actions. I will outline a few matters that relate to 'Cefn Gwlad' and 'East Powys', as they are called in the report. There are particular issues with regard to information and communications technology links—we have the money, and yet we are not rolling out ICT in an integrated way. There is reference to the need for a good north-south link road and an east-west link through mid Wales, and also to our waste plan and how we will reduce waste in Wales. We also do not have an idea as to how the local authorities will deal with the integrated planning system that is inherent in our concept of sustainability. Reference is also made to renewable energy. Yet again, I ask where is the planning document, technical advice note 8, to encourage us.

On our amendment, I believe that planning

hollbwysig os ydym i gael ymgynghori da ac os yw hon i fod yn ddogfen ystyrlon. Yn gyntaf, mae'r cysyniad cyffredinol—a cheir llawer o sôn am y materion byd-eang sy'n effeithio ar Gymru—yn un da, ac mae ei gysylltu'n gyfannol â materion lleol yn rhagorol. Mae'r casgliad data yn yr adroddiad yn rhagorol, a bydd rhai ohonom yn cofio'r codio lliw yn ein dosbarthiadau yn yr ysgol fabanod. Fodd bynnag, lle y ceir sôn am fesur ar ddiwedd y ddogfen, rhaid i'r rhai sy'n ymateb i'r ymgynghori hwn gael gwybod sut y bwriadwn fesur llwyddiant y ddogfen.

Rhaid inni gofio y dylai cynaliadwyedd fod yn ganolog i'r system gynllunio fel na fyddwn yn beichio cenedlaethau'r dyfodol ag adeiladau anaddas neu'r gost o glirio canlyniadau ein gweithgareddau a'n penderfyniadau. Mae hynny'n hanfodol i'r ddogfen hon ac yr wyf yn siŵr ein bod i gyd o blaid hynny. Mae datblygu cynaliadwy ac asesiadau o'r effaith ar yr amgylchedd yn nodweddu dylanwad ecolegol Cymru. Rhaid i hynny fod yn ganolog i'r modd y mae ein hawdurdodau a'n Llywodraeth yn gweithredu yng Nghymru.

Mae llawer i'w groesawu yn yr adroddiad hwn, ond af yn ôl at faterion lleol a'r cyfeiriadau a roesoch. Cytunaf â sylw Glyn, a rhannaf ei amheon, y caiff adroddiadau fel hyn eu defnyddio weithiau i gelu anallu i weithredu. Amlinellaf ychydig o faterion sy'n ymwneud â 'Cefn Gwlad' a 'Dwyrain Powys', fel y'u gelwir yn yr adroddiad. Mae materion penodol sy'n ymwneud â chysylltiadau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu—mae gennym ddigon o arian ond nid ydym yn lledaenu TGCh mewn modd integredig. Cyfeirir at yr angen am ffordd gyswllt dda o'r De i'r Gogledd a chyswllt o'r Dwyrain i'r Gorllewin drwy'r Canolbarth, a hefyd at ein cynllun ar wastraff a'r modd y byddwn yn lleihau gwastraff yng Nghymru. Nid oes gennym syniad ychwaith am y modd y bydd yr awdurdodau lleol yn delio â'r system gynllunio integredig sy'n rhan annatod o'n cysyniad o gynaliadwyedd. Cyfeirir hefyd at ynni adnewyddadwy. Unwaith eto, gofynnaf ym mhle y mae'r ddogfen gynllunio, nodyn cyngor technegol 8, i roi hwb ymlaen i ni.

Ynghylch ein gwelliant, credaf fod cynllunio

and sustainable development are in another portfolio—not yours, Minister. They reside in a portfolio that is called environment, planning and countryside, with responsibilities for sustainable development—

David Melding: Order. You need to wind up now.

Mick Bates: Discussions about this report should take place in the Environment, Planning and Countryside Committee and I urge you to support amendment 7.

Huw Lewis: I warmly welcome this draft plan and the consultation. It is a golden opportunity to engage in some strategic thinking and I congratulate the Minister on the work that has been done so far. I want to address the spatial role of the former coalfield area, particularly the south Wales Valleys, and Merthyr Tydfil's spatial importance within it.

Around 750,000 to 1 million people live in the Valleys, depending on how you define the boundaries. Those communities have certain characteristics and they include—to take the negative ones—low skills, low incomes and poor health. There is such a concentration of negative characteristics that Wales, and the rest of the United Kingdom, picks up the bill for those problems; they distort our economy, our NHS spending and public service spending in general, as we attempt to deal with the long-term structural problems that the area faces. The spatial plan must address these issues.

It is not enough to suppose that a trickle from the south Wales coast—from the Cardiff, Swansea and Newport axis—will be enough to lift the Valleys as a region. In the future, it must be seen as a prosperous region in its own right and the spatial plan must work towards that. I welcome the idea of a metropolitan area in south-east Wales as it will open up all sorts of potential, particularly in terms of transport planning, but we must strike a better balance between the coast and the heads of the Valleys area. The A465 development will potentially open up a new M4 corridor and has huge implications for

a datblygu cynaliadwy mewn portffolio arall—nid eich un chi, Weinidog. Maent mewn portffolio o'r enw yr amgylchedd, cynllunio a chefn gwlad, gyda chyfrifoldebau dros ddatblygu cynaliadwy—

David Melding: Trefn. Rhaid ichi derfynu'n awr.

Mick Bates: Dylai trafodaethau ar yr adroddiad hwn ddigwydd ym Mhwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ac fe'ch anogaf i gefnogi gwelliant 7.

Huw Lewis: Croesawaf y cynllun drafft hwn a'r ymgynghori yn gynnes. Mae hyn yn gyfle euraid i ymroi i feddwl yn strategol a llongyfarchaf y Gweinidog ar y gwaith a wnaed hyd yn hyn. Dymunaf ymdrin â rôl ofodol y cyn faes glo, yn enwedig Cymoedd y De, a phwysigrwydd gofodol Merthyr Tudful o'i fewn.

Mae tua 750,000 i 1 filiwn o bobl yn byw yn y Cymoedd, yn ôl y modd y tynnir y ffiniau. Mae nodweddion penodol i'r cymunedau hynny ac yn eu plith—a chymryd y rhai negyddol—y mae lefelau sgiliau isel, incymau isel ac iechyd gwael. Ceir y fath grynhoed o nodweddion negyddol fel bod Cymru, a gweddill y Deyrnas Unedig, yn gorfod talu am y problemau hynny; maent yn ystumio ein heconomi, ein gwariant ar y GIG a'n gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, wrth inni geisio delio â'r problemau strwythurol tymor hir y mae'r ardal yn eu hwynebu. Rhaid i'r cynllun gofodol ymdrin â'r materion hyn.

Ni ddylid tybio y bydd diferion o arfordir y De—o echel Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd—yn ddigon o godi'r Cymoedd fel rhanbarth. Yn y dyfodol, rhaid ei ystyried yn rhanbarth ffyniannus ynddo'i hun a rhaid i'r cynllun gofodol geisio sicrhau hynny. Croesawaf y syniad o ardal fetropolitanaid yn y De-ddwyrain gan y bydd yn creu llawer o bosibiliadau, yn enwedig o ran cynllunio trafndiaeth, ond rhaid inni ddal y ddysgl yn fwy gwastad rhwng yr arfordir ac ardal blaenau'r Cymoedd. Gallai datblygu'r A465 agor coridor newydd o'r M4 ac mae goblygiadau aruthrol i hynny ar gyfer

the economic development of that area.

I will spend my last minute discussing Merthyr. Merthyr Tydfil's role must be enhanced, so that it becomes a regional centre of national importance, in much the same way that Wrexham is identified as such in this document. That is not only for its own sake, but for the sake of the Valleys as a whole. Its location, its size and its history all point to Merthyr as a centre-point for the northern valleys as we work towards a better future for that sub-region.

We must put Merthyr on the map—literally in the case of the spatial plan—changing it from a regional to a national centre of importance, and naming it as such. I hope that all will support my call for Merthyr to attain city status over the next 10 to 20 years. The northern Valleys region and its capital need that kind of ambition. We must lift the town and the region—

4.10 p.m.

David Melding: Order. Please wind up your contribution.

Huw Lewis: We must lift up the town and the region: one cannot do without the other.

Alun Ffred Jones: Ategfaf rai o sylwadau Huw Lewis. Mae hwn yn gynllun pwysig, neu yn hytrach mae ganddo'r potensial i fod yn bwysig a dylanwadol. Da yw gweld Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio cynllunio ar lefel Cymru gyfan i'r hirdymor wrth fapio rhai o'r tueddiadau cymdeithasol ac economaidd sy'n llunio ein bywyd. Y drasiedi yw ein bod wedi gorfod aros mor hir amdani. Nid sôn am dair blynedd ydwyf: dyma'r math o gynllunio y mae Plaid Cymru wedi galw amdano ers tri chwarter canrif.

Cefais ddigon o gyfle i ystyried y cynllun ddoe, wrth ddod i lawr ar y trê'n o Fangor. Dechreuais am 1.45 p.m., gan gyrraedd Caerdydd am 10.15 p.m.. Dyna realiti teithio yng Nghymru. Yn rhyfedd iawn, nid oes gan y ddogfen hon fawr i'w ddweud am gysylltiadau rhwng De a Gogledd, a dim am eu cryfhau. Yn wir, llwyddodd y ddogfen i

datblygu economaidd yn yr ardal honno.

Treuliaf y munud olaf sydd gennyf yn trafod Merthyr Tudful. Rhaid hyrwyddo rôl Merthyr Tudful, fel ei bod yn dod yn ganolfan ranbarthol o bwys cenedlaethol, yn debyg iawn i'r hyn a nodir ar gyfer Wrecsam yn y ddogfen hon. Nid er ei mwyn ei hun y dylid gwneud hynny, ond er mwyn y Cymoedd i gyd. Mae ei lleoliad, ei maint a'i hanes i gyd yn dangos mai Merthyr Tudful yw canolbwynt y cymoedd gogleddol wrth inni ymdrechu i sicrhau gwell dyfodol i'r is-ranbarth hwnnw.

Rhaid inni roi Merthyr Tudful ar y map—yn llythrennol yn achos y cynllun gofodol—gan ei newid o fod yn ganolfan ranbarthol i fod yn un o bwys cenedlaethol, a'i galw'n hynny. Gobeithiaf y bydd pawb yn cefnogi fy ngalwad am roi statws dinas i Ferthyr Tudful dros y 10 i 20 mlynedd nesaf. Mae rhanbarth y Cymoedd gogleddol a'i brifddinas yn gofyn uchelgais o'r fath. Rhaid inni godi'r dref a'r rhanbarth—

David Melding: Trefn. Gorffennwch eich cyfraniad, os gwelwch yn dda.

Huw Lewis: Rhaid inni godi'r dref a'r rhanbarth: ni all y naill lwyddo heb y llall.

Alun Ffred Jones: I endorse some of Huw Lewis's comments. This is an important document, or rather it has the potential to be important and influential. It is good to see the Assembly Government trying to plan on an all-Wales level and for the long term in mapping out some of the social and economic trends that shape our lives. The tragedy is that we have had to wait so long for it. I am not talking about three years: this is the kind of planning that Plaid Cymru has sought for three quarters of a century.

I had sufficient opportunity to examine the plan yesterday, travelling down on the train from Bangor. I left at 1.45 p.m., arriving in Cardiff at 10.15 p.m.. That is the reality of travelling in Wales. Oddly enough, this document has little to say about north-south connections, and nothing about improving them. In fact, the document succeeded in

ddileu rheilffordd y Cambria oddi ar y map yn gyfangwbl. A yw'r Llywodraeth yn gwybod rhywbeth na wyddom ni?

erasing the Cambrian railway from the map completely. Does the Government know something that we do not?

Mae'r ddogfen yn werthfawr fel disgrifiad a chrynhoad o'r sefyllfa yng Nghymru. Mae'r darlun yn ddigalon—gwlad â photensial mawr wedi'i chamreoli. Fel y tystia'r crynhoad, mae'n wlad o hyd heb yr arfau i reoli ei dyfodol ei hun. Dyna wendid y ddogfen: mae'n disgrifio, ond nid yw'n cynnig cyfeiriad pendant ymlaen. Mae ynghlwm wrth batrymau heddiw, heb yr hyder i gynnig gweledigaeth glir, wahanol i'r dyfodol. Weithiau, ceir fflach o rywbeth, er enghraifft, dan y teitl 'Gyrwyr Newid':

The document provides a valuable description and summary of the situation in Wales. It is a depressing picture—a country with great potential that has been mismanaged. As the summary testifies, it is a country that still lacks the means to control its own future. That is the document's weakness: it describes, but it does not offer a clear way forward. It is bound to the current patterns, and lacks the confidence to offer a clear, different vision for the future. There is the occasional glimmer of hope, for example, under the title 'Drivers of Change':

'Mae ein dyfodol... yn dibynnu ar ddatblygu ein potensial ein hunain'—

'Our future... lies in developing our own potential'—

amen i hynny,

amen to that,

'yn unigol ac ar y cyd, i greu a manteisio ar gyfleoedd economaidd a wneir yng Ngymru.'

'individually and collectively, to generate and exploit economic opportunities that are made in Wales.'

Fodd bynnag, nid oes cyd-destun i'r gosodiad hwnnw. Yn wir, mae'n ddogfen sydd yn ein clymu fwyfwy wrth Loegr. O'r saith canolfan genedlaethol a nodir, mae tair yn Lloegr.

However, that statement is out of context. In fact, this document increasingly binds us to England. Of the seven national centres noted, three are in England.

Mae gormod o gyffredinoli, ac mae'r adran ar dechnoleg gwybodaeth yn drychinebus, fel strategaeth, neu ddiffyg strategaeth, y Llywodraeth ei hun. Gallwn gael sbort yn dyfynnu brawddegau sydd prin yn gwneud synnwyr. Er enghraifft, mae brawddeg ar y map yn dweud:

There is too much generalisation, and the section on information technology is disastrous, as is the Government's strategy, or rather its lack of strategy. I could have fun quoting sentences that hardly make sense. For example, there is a sentence on the map that reads:

'Meithrin iaith Gymraeg sy'n berthnasol i gymunedau ledled Cymru'.

'Fostering a Welsh language which is relevant to communities throughout Wales'.

Beth yw ystyr hynny? A oes mwy nag un iaith Gymraeg yng Nghymru? Dyna'r math o feddwl niwlog sy'n nodweddu'r ddogfen hon. Fodd bynnag, y cwestiwn mawr yw sut y mae hon yn ffitio â'r holl strategaethau eraill sydd wedi pentyrru ar ein desgiau yn y pedair blynedd diwethaf—y cynlluniau unedol, y strategaethau economaidd, y cynlluniau iechyd ac, wrth gwrs, y strategaethau cymunedol y mae swyddogion, cynghorwyr a'r cyhoedd wedi bod yn bustachu i'w taflu at ei gilydd ers dros ddwy flynedd. Mae'n

What does that mean? Is there more than one Welsh language in Wales? That kind of woolly thinking is characteristic of this document. However, the big question is how this document fits in with all the other strategies that have piled up on our desks over the past four years—the unitary plans, the economic strategies, the health plans and, of course, the community strategies that officials, consultants and the public have struggled to throw together over the past two years. I am sorry, Minister, but the

ddrwg gennyf, Weinidog, ond mae'r Llywodraeth yn creu hunllef fiwrocraidd yng Nghymru sy'n bradychu diffyg gweledigaeth a chyfeiriad. Ni fydd y ddogfen ar ei ffurf bresennol yn gwella'r dryswch.

Nid dyma'r lle i fanylu ar y ddogfen. Mae'n werth dweud eto—

David Melding: Order. You must conclude now.

Alun Ffred Jones: Mae crynhoi'r ffeithiau yn ymarferiad buddiol. Er hynny, rhaid cyfeirio at y parthau. Fel patrwm ar fap—

David Melding: Order. Alun Ffred, you are out of time.

Ann Jones: I too welcome this draft plan. On Alun Ffred's point on the Welsh language, I was always told that the word for milk was 'llaeth' or 'llefrith', depending on where you were. There are regional differences in the language. Perhaps we could consider that when we implement these plans.

The spatial plan's setting is crucial to our future. It is clear from the evidence in this draft plan that people do not tend to live their lives confined neatly within local authority boundaries. We must look across the wider spectrum. The plan boldly looks to the east and west, as the economic drivers for north and south Wales, which I welcome. The plan is like a jigsaw that we are all trying to fit together. Janet mentioned our strategies and plans and they are all parts of the jigsaw that we are trying to fit together. Without this spatial plan, I believe that we would be trying to do the jigsaw without the picture.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 4.14 p.m.
The Presiding Officer took the Chair at 4.14 p.m.*

Therefore, I am looking forward to the consultation plan, to the consultation with local communities, and to the debate that will result from that. I congratulate the Minister on bringing this plan forward. There is great potential for us here if we can look to the picture of the jigsaw and fit it all together. I am sure that we will get there for the people,

Government is creating a bureaucratic nightmare in Wales that betrays a lack of vision and direction. This document in its current form will not clear the confusion.

This is not the time to go into the document in detail. It is worth repeating—

David Melding: Trefn. Rhaid ichi derfynu'n awr.

Alun Ffred Jones: Summarising the facts is a useful exercise. However, we must refer to the zones. As a pattern on a map—

David Melding: Trefn. Alun Ffred, mae'ch amser ar ben.

Ann Jones: Yr wyf finnau'n croesawu'r cynllun drafft hwn. Ynghylch y pwynt a wnaeth Alun Ffred am y Gymraeg, dywedwyd wrthyf bob amser mai'r enw ar laeth oedd 'llaeth' neu 'llefrith', yn ôl pa le yr oeddech. Mae gwahaniaethau rhanbarthol yn yr iaith. Efallai y gallem ystyried hynny wrth roi'r cynlluniau hyn ar waith.

Mae pennu'r cynllun gofodol yn hollbwysig i'n dyfodol. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth yn y cynllun drafft hwn nad yw pobl yn tueddu i fyw'n daclus o fewn ffiniau awdurdodau lleol. Rhaid inni ystyried y rhychwant ehangach. Mae'r cynllun yn edrych yn eofn i'r dwyrain a'r gorllewin, fel y sbardunau economaidd i'r De a'r Gogledd, a chroesawaf hynny. Mae'r cynllun yn debyg i jig-so yr ydym i gyd yn ceisio ei roi wrth ei gilydd. Soniodd Janet am ein strategaethau a'n cynlluniau ac maent i gyd yn ddarnau o'r jig-so yr ydym yn ceisio ei roi wrth ei gilydd. Heb y cynllun gofodol hwn, credaf mai ceisio gorffen y jig-so heb y llun y byddem.

Gan hynny, edrychaf ymlaen at weld y cynllun ymgynghori, at yr ymgynghori â chymunedau lleol, ac at y ddadl a geir o ganlyniad i hynny. Llongyfarchaf y Gweinidog ar ddwyn y cynllun hwn gerbron. Mae potensial mawr i ni yma os gallwn edrych ar lun y jig-so a rhoi'r cyfan at ei gilydd. Yr wyf yn siŵr y llwyddwn er mwyn

places and future of Wales.

Mark Isherwood: I will develop a theme that other speakers have mentioned, namely the concern that this Government uses words as an alternative to action and that plans and strategies are used as an alternative to delivery. Only application to detail will deliver vision. The perception at last Friday's regional Committee meeting in north Wales was that Labour does not care about affordable housing. The headline in the main north Wales paper on Saturday read:

'Does Labour Really Care?'

and the article reported a Labour spokesperson as saying that,

'the party was acting on the issue of affordable housing through policies such as Homebuy while the Nationalists played 'political games''.

That is not sufficient. This had nothing to do with the nationalists, as every other major party in Wales, and all the people present, including the Labour members of the audience, shared the same concerns and perceptions. Had you been present, you would have heard excellent representations from Cymuned, the Chartered Institute of Housing, and the north Wales housing associations, which contained many concerns, as well as proposals to drive this strategy forward on the basis of detail and delivery.

Talking about homebuy is not good enough. Are we talking about rural or urban homebuy, new-build or existing property? What percentage grants are we talking about? Are we talking about more money? What about shared ownership, which is a cheaper option for those on the lowest incomes? It is a fact—and this is not party political spin—that the supply of affordable housing for lower income households has fallen since the Assembly was established, and that the backlog in council housing, repairs and maintenance has risen to £2.9 billion, which means increasing numbers of sub-standard and empty properties that should be available to the people who need them most.

pobl, lleoedd a dyfodol Cymru.

Mark Isherwood: Datblygaf thema y mae siaradwyr eraill wedi ei chrybwyll, sef y pryder bod y Llywodraeth hon yn siarad yn lle gweithredu ac y caiff cynlluniau a strategaethau eu defnyddio fel dewis yn lle mynd â'r maen i'r wal. Dim ond drwy roi sylw i fanylion y gwireddir gweledigaeth. Y canfyddiad yng nghyfarfod y Pwyllgor rhanbarth yn y Gogledd ddydd Gwener diwethaf oedd nad yw Llafur yn poeni am dai fforddiadwy. Y pennawd ym mhrif bapur newydd y Gogledd ddydd Sadwrn oedd:

A yw Llafur yn poeni o ddifrif?

ac yn yr erthygl adroddwyd bod llefarydd dros Lafur wedi dweud bod,

y blaid yn cymryd camau ar fater tai fforddiadwy drwy bolisïau fel y cynllun Prynu Cartref tra oedd y Cenedlaetholwyr yn chwarae 'gemau gwleidyddol'.

Nid yw hynny'n ddigon. Nid oedd a wnelo hyn ddim â'r cenedlaetholwyr, gan fod pob plaid fawr arall yng Nghymru, a phawb a oedd yn bresennol, gan gynnwys yr aelodau Llafur yn y gynulleidfa, yn rhannu'r un pryderon a chanfyddiadau. Pe baech yn bresennol, byddech wedi clywed cyflwyniadau rhagorol gan Cymuned, Sefydliad Siartredig Tai, a chymdeithasau tai'r Gogledd, a oedd yn cynnwys llawer o bryderon, yn ogystal â chynigion i yrru'r strategaeth hon yn ei blaen ar sail manylion a chyflawni.

Nid yw sôn am y cynllun Prynu Cartref yn ddigon da. A ydym yn sôn am y cynllun Prynu Cartref gwledig neu'r un trefol, tai newydd neu rai sy'n bod eisoes? Grantiau ar gyfer pa ganran sydd dan sylw? A ydym yn sôn am fwy o arian? Beth am berchnogaeth ar y cyd, sy'n ddewis rhatach i'r rhai ar yr incymau isaf? Mae'n ffaith—ac nid sbin gan blaid wleidyddol yw hyn—fod y cyflenwad o dai fforddiadwy ar gyfer teuluoedd ar incwm is wedi gostwng ers sefydlu'r Cynulliad, a bod yr ôl-groniad o waith atgyweirio a chynnal a chadw tai cyngor wedi codi i £2.9 biliwn, sy'n golygu bod mwy a mwy o dai isafonol a gwag a ddylai fod ar gael i'r rhai y mae arnynt eu hangen fwyaf. Felly, nid ydym

Therefore, we are not taking a sustainable approach; we are using pieces of paper as an alternative to that delivery.

What about social rent? That has a major part to play in delivery—in new-build and in existing property proposals. What measures is the Government taking to talk to the housing professionals and to the housing fund providers, namely the building societies and banks, to develop innovative schemes that will work in business terms in the real world for the people who need funding for their housing in our communities?

On that basis, I urge Labour Members to support Jonathan Morgan's amendment 2 on affordable housing to show that you care about the issue and that you are listening to the people in north-west and north-east Wales, and in other parts of the country, who are facing genuine problems because of the crisis in affordable housing.

Briefly on the north-south transport links, I spoke recently to a north Wales academic who reminded me that we have a north-south political axis and a west-east economic axis. If we are to have sustainable economic development throughout Wales, and if we are to reverse rural depopulation, we must have an infrastructure that will allow social and economic growth. We must drive that agenda forward.

Christine Chapman: I welcome this exciting plan, which has the potential of getting to the heart of where we in Wales want to be in the next 20 years and beyond. I also welcome the fact that it begins to acknowledge the real needs and distinctiveness of various parts of Wales. The plan's strength is the opportunity that it gives us to take a much more strategic view of the future. The people of Wales have given us this responsibility and we must carry it out effectively.

4.20 p.m.

It will require strong political leadership in the coming years and the courage to be less

yn gweithredu mewn modd cynaliadwy; yr ydym yn defnyddio darnau o bapur fel dewis yn lle gweithredu ar hynny.

Beth am rent cymdeithasol? Mae rhan bwysig i hynny wrth fynd â'r maen i'r wal—yn y cynigion ar gyfer tai newydd a'r rhai ar gyfer tai sy'n bod eisoes. Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i siarad â'r gweithwyr tai proffesiynol a darparwyr cronfeydd tai, sef y cymdeithasau adeiladu a'r banciau, i ddatblygu cynlluniau arloesol a fydd yn llwyddo yng nghyd-destun busnes yn y byd go-iawn er mwyn y rhai y mae arnynt angen cyllid ar gyfer tai yn ein cymunedau?

Am y rhesymau hynny, anogaf Aelodau Llafur i gefnogi gwelliant 2 Jonathan Morgan ar dai fforddiadwy i ddangos eich bod yn poeni am y mater a'ch bod yn gwrandao ar y rhai yn y Gogledd-orllewin a'r Gogledd-ddwyrain, ac mewn rhannau eraill o'r wlad, sy'n wynebu problemau gwirioneddol oherwydd yr argyfwng o ran tai fforddiadwy.

Yn fyr, ynghylch y cysylltiadau trafniadaeth rhwng y de a'r gogledd, bwm yn siarad yn ddiweddar ag academydd yn y Gogledd a wnaeth fy atgoffa bod gennym echel wleidyddol o'r de i'r gogledd ac echel economaidd o'r dwyrain i'r gorllewin. Os ydym i gael datblygu economaidd cynaliadwy ledled Cymru, ac os ydym i wrthweithio diboblogi gwledig, rhaid inni gael seilwaith a fydd yn caniatáu twf cymdeithasol ac economaidd. Rhaid inni fwrw ymlaen â'r agenda honno.

Christine Chapman: Croesawaf y cynllun cyffrous hwn, y mae ynddo'r potensial i fynd at wraidd yr hyn yr ydym am ei gyflawni yng Nghymru yn yr 20 mlynedd nesaf ac wedyn. Yr wyf hefyd yn croesawu'r ffaith ei fod yn dechrau cydnabod gwir anghenion ac arbenigrwydd gwahanol rannau o Gymru. Cryfder y cynllun yw bod ynddo gyfle inni edrych yn llawer mwy strategol i'r dyfodol. Mae pobl Cymru wedi rhoi'r cyfrifoldeb hwn i ni a rhaid inni ymgymryd ag ef yn effeithiol.

Bydd angen arweinyddiaeth wleidyddol gadarn yn y blynyddoedd i ddod a'r dewrder i

parochial and more visionary. It will require, for example, local authorities to work together more collaboratively. We have excellent examples of that. From my experience of the Objective 1 programme, I have been made aware of some good practice.

For example, in north Wales, authorities have got together to put in larger scale project bids with key players such as the WDA, ELWa, and the universities. However, as several Members have previously mentioned, progress in collaborative working in the Valleys has been slower. That is regrettable, given that the Valleys have the greatest concentration of poverty in Wales. Huw Lewis has reminded us of that. As Ann Jones has mentioned, members of the public do not always see themselves automatically in the artificial barriers—

The Presiding Officer: Order. I must call the Minister in about 30 seconds.

Christine Chapman: Can I finish my final point?

The Presiding Officer: Yes, of course.

Christine Chapman: Finally, the consultation is exciting. However, we must decide how we engage with members of the public. I look forward to the consultation in the coming months.

The Presiding Officer: I call on the Finance Minister to reply to the debate. You have eight minutes in which to do so, Minister. If you could do it in six minutes I would love you even more.

The Finance Minister (Sue Essex): Give me a shout when I have reached six minutes.

I will try to subsume some of the comments. I welcome the general enthusiasm across political parties for this plan. It is a first, and we cannot guarantee that we will get it right the first time. However, everybody agrees that it is worth doing. We took a deliberate and carefully considered decision at the beginning, Janet, as to whether to produce a

fod yn llai plwyfol a mwy gweledigaethol. Er enghraifft, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gydweithio i fwy o raddau. Mae gennym esiamplau rhagorol o hynny. Drwy fy mhrofiad o raglen Amcan 1, yr wyf yn ymwybodol o rai arferion da.

Er enghraifft, yn y Gogledd, mae awdurdodau wedi dod at ei gilydd i gyflwyno ceisiadau am brosiectau mawr gyda chyfranwyr allweddol fel y WDA, ELWa, a'r prifysgolion. Er hynny, fel y mae sawl Aelod wedi dweud o'r blaen, bu'r cynnydd ar weithio ar y cyd yn y Cymoedd yn arafach. Mae hynny'n destun gofid, o gofio mai yn y Cymoedd y ceir y nifer mwyaf o achosion o dlodi yng Nghymru. Mae Huw Lewis wedi ein hatgoffa am hynny. Fel y dywedodd Ann Jones, nid yw aelodau o'r cyhoedd bob tro'n meddwl amdanynt eu hunain yng nghydestun y rhwystrau artiffisial—

Y Llywydd: Trefn. Rhaid imi alw ar y Gweinidog ymhen tua 30 eiliad.

Christine Chapman: A gaf orffen y pwynt olaf sydd gennyf?

Y Llywydd: Cewch, wrth gwrs.

Christine Chapman: Yn olaf, mae'r ymgynghori'n gyffrous. Fodd bynnag, rhaid inni benderfynu sut y byddwn yn ymwneud ag aelodau o'r cyhoedd. Edrychaf ymlaen at yr ymgynghori yn y misoedd i ddod.

Y Llywydd: Galwaf ar y Gweinidog Cyllid i ymateb i'r ddadl. Mae gennych wyth munud i wneud hynny, Weinidog. Os gallech ei wneud mewn chwe munud, byddech yn fwy annwyl byth gennyf.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Gwaeddwch arnaf pan fyddaf wedi cyrraedd chwe munud.

Ceisiasf ogynnwys rhai o'r sylwadau. Croesawaf y brwdfrydedd cyffredinol ar draws y pleidiau gwleidyddol dros y cynllun hwn. Mae'n gam arloesol, ac ni allwn warantu y byddwn yn ei gael yn iawn y tro cyntaf. Er hynny, mae pawb yn cytuno ei fod yn werth ei wneud. Gwnaethom benderfyniad bwriadol ar ôl ystyried yn ofalus ar y

prescriptive, top-down plan, or to try to set out the key principles and then work with others to amalgamate and build up proposals over time. We decided to go down the second route. That applies to Alun Ffred's comments, as well as to those of many others. We took that decision because, to use jargon, this must be owned. However, that is important jargon. The document must be owned if it is to make a difference and not, as Glyn said, just gather dust. If it is only a top-down effort, it is likely that it will influence some but not all. Therefore, that was a deliberate decision. It will be a context and a framework, Janet. It will relate to unitary development plans, but particularly it will be a context for community strategies.

I will mention some of the other points raised; I do not have time to deal with them all. It is, as Glyn said, about geography and the place where people live. That is important to people in Wales. It is about sustainable communities. It picks up issues about the Welsh language, and, if that is not clear enough, the final document will make that clear. However, it is not just about one-off issues such as transport or affordable housing—as important as they are. It is about trying to integrate all our policies, at a strategic level and locally. I agree with many of Mick's points. However, we should not get hung up on which Committee this sits with, because this will be cross-cutting, and every Assembly Committee will have an interest in it. It is about pushing not only on sustainable development but on economic regeneration. 'Cymru Arlein—Online for a Better Wales' responds to our geographical situation.

Lastly, I will respond to some of the useful points that Huw made about the potential of the A465 and the status and options for Merthyr. I will not go into that in detail. However, the investment in the A465 provides a great opportunity. On Ann's and Christine Chapman's points, the plan has given us a wider picture and it invites other

dechrau, Janet, ynghylch a ddylem gynhyrchu cynllun argymhellol, o'r top i'r gwaelod, neu geisio nodi'r prif egwyddorion a gweithio gydag eraill wedyn i gyfuno a datblygu cynigion dros amser. Penderfynasom ddilyn yr ail lwybr. Mae hynny'n berthnasol i sylwadau Alun Ffred, yn ogystal â sylwadau llawer un arall. Penderfynasom felly oherwydd, gan ddefnyddio jargon, rhaid cael perchnogaeth arno. Jargon bwysig yw honno, fodd bynnag. Rhaid cael perchnogaeth ar y cynllun os ydyw i wneud gwahaniaeth ac nid hel llwch, fel y dywedodd Glyn. Os mai ymdrech o'r top i'r gwaelod yn unig ydyw, mae'n debygol o ddylanwadu ar rai ond nid ar bawb. Felly, penderfyniad bwriadol oedd hwnnw. Bydd yn gyd-destun ac yn fframwaith, Janet. Bydd yn berthnasol i gynlluniau datblygu unedol, ond bydd yn gyd-destun i strategaethau cymunedol yn benodol.

Soniaf am rai o'r pwyntiau eraill a godwyd; nid oes gennyf ddigon o amser i ymdrin â phob un ohonynt. Fel y dywedodd Glyn, mae'n ymwneud â daearyddiaeth a lle y mae pobl yn byw. Mae hynny'n bwysig gan bobl yng Nghymru. Mae'n ymwneud â chymunedau cynaliadwy. Mae'n cyfeirio at faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ac, os nad yw hynny'n ddigon eglur, bydd y ddogfen derfynol yn egluro hynny. Fodd bynnag, nid yw'n ymwneud â materion unigol fel trafndiaeth neu dai fforddiadwy yn unig—er eu pwysiced. Mae'n ymgais i integreiddio ein holl bolisiau, ar lefel strategol ac yn lleol. Cytunaf â llawer o'r pwyntiau a wnaeth Mick. Er hynny, ni ddylem ymboeni'n ormodol ynghylch pa Bwyllgor a fydd yn trafod hyn, oherwydd bydd yn drawsbynciol, a bydd gan bob Pwyllgor Cynulliad fuddiant ynddo. Mae'n golygu hybu datblygu cynaliadwy ac adfywio economaidd yn ogystal. Mae 'Cymru Arlein—Online for a Better Wales' yn ymateb i'n sefyllfa ddaearyddol,

Yn olaf, ymatebaf i rai o'r pwyntiau buddiol a wnaeth Huw am botensial yr A465 a statws Merthyr Tudful a'r dewisiadau ar ei gyfer. Nid af i fanylu ar hynny. Fodd bynnag, mae'r buddsoddi yn yr A465 yn cynnig cyfle gwych. Ynghylch y pwyntiau a wnaeth Ann a Christine Chapman, mae'r cynllun wedi rhoi darlun ehangach i ni ac yn gwahodd cyrff

organisations to join us. All the comments that I have received from organisations—such as the Confederation of British Industry, the Welsh Local Government Association, and many environmental organisations—are positive. They are up for doing things differently. This is a chance for us as an Assembly Government and as Assembly Members to show that we can do things differently in Wales. I hope that everyone will take part in the consultation.

The Presiding Officer: Thank you for being so prompt, Minister.

The Business Minister (Karen Sinclair): I request that the bell be rung.

The Presiding Officer: Under Standing Order No. 6.21, at least three Members must request that the bell be rung. Do three Members support the request? I see that they do.

Glerc, canwch y gloch.

eraill i ddod atom. Mae'r holl sylwadau a gefais oddi wrth gyrff—fel Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a llawer o gyrff amgylcheddol—yn gadarnhaol. Maent o blaid gwneud pethau'n wahanol. Dyma gyfle i ni fel Llywodraeth Cynulliad ac fel Aelodau o'r Cynulliad ddangos y gallwn wneud pethau'n wahanol yng Nghymru. Gobeithiaf y bydd pawb yn cymryd rhan yn yr ymgynghori.

Y Llywydd: Diolch i chi am orffen mor brydlon, Weinidog.

Y Trefnydd (Karen Sinclair): Galwaf am i'r gloch gael ei chanu.

Y Llywydd: O dan Reol Sefydlog Rhif 6.21, rhaid i o leiaf dri Aelod alw am i'r gloch gael ei chanu. A oes tri Aelod sy'n cefnogi'r cais? Gwelaf fod.

Clerk, please ring the bell.

*Gwelliant 1: O blaid 16, Ymatal 0, Yn erbyn 34.
Amendment 1: For 16, Abstain 0, Against 34.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bourne, Nick
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Francis, Lisa
Graham, William
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Isherwood, Mark
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Jonathan
Ryder, Janet
Thomas, Rhodri Glyn
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
Essex, Sue
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Denise Idris
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun

Randerson, Jenny
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment rejected.*

*Gwelliant 2: O blaid 23, Ymatal 0, Yn erbyn 28.
Amendment 2: For 23, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid: Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted for: The following Members voted against:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Isherwood, Mark
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment rejected.*

*Gwelliant 3: O blaid 23, Ymatal 0, Yn erbyn 28.
Amendment 3: For 23, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid: Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted for: The following Members voted against:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice

Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Isherwood, Mark
 Lloyd, David
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment rejected.*

*Gwelliant 4: O blaid 24, Ymatal 0, Yn erbyn 28.
 Amendment 4: For 24, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid: Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted for: The following Members voted against:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Francis, Lisa
 German, Michael
 Graham, William
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Isherwood, Mark
 Lloyd, David
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
 Essex, Sue
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment rejected.*

*Gwelliant 5: O blaid 24, Ymatal 0, Yn erbyn 28.
 Amendment 5: For 24, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid: Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:

The following Members voted for: The following Members voted against:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Francis, Lisa
 German, Michael
 Graham, William
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Isherwood, Mark
 Lloyd, David
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
 Essex, Sue
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

Gwrthodwyd y gwelliant.

Amendment rejected.

Gwelliant 6: O blaid 52, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Amendment 6: For 52, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
 Essex, Sue
 Francis, Lisa
 German, Michael
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Gibbons, Brian
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 Isherwood, Mark
 James, Irene

Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Melding, David
 Mewies, Sandy
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.
 Amendment accepted.*

*Gwelliant 7: O blaid 24, Ymatal 0, Yn erbyn 28.
 Amendment 7: For 24, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid: Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted for: The following Members voted against:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Francis, Lisa
 German, Michael
 Graham, William
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Isherwood, Mark
 Lloyd, David
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
 Essex, Sue
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment rejected.*

Motion NDM1636 as amended:

Cynnig NDM1636 fel y'i diwygiwyd:

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. welcomes the publication of 'People, Places, Futures', the draft Wales spatial plan, and the consultation process that accompanies it; and

1. yn croesawu cyhoeddi 'Pobl, Lleoedd, Dyfodol', y cynllun gofodol drafft ar gyfer Cymru a'r broses ymgynghori sy'n gysylltiedig ag ef; ac

2. calls on the Minister to ensure that there is a full Plenary debate following the end of the consultation process.

2. yn galw ar y Gweinidog i sicrhau bod dadlawn yn cael ei chynnal mewn Cyfarfod Llawn ar ôl i'r broses ymgynghori ddod i ben.

Cynnig (NDM1636): O blaid 52, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Motion (NDM1636): For 52, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Gregory, Janice
Gibbons, Brian
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri

Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

4.30 p.m.

Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Cymru) Minority Party Debate (Plaid Cymru)

Cnydau wedi'u Haddasu'n Enetig Genetically Modified Crops

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jonathan Morgan.

The Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jonathan Morgan.

Rhodri Glyn Thomas: Cynigiaf fod

Rhodri Glyn Thomas: I propose that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad 'GM Nation?', sy'n dangos bod y cyhoedd ar hyn o bryd yn gwrthwynebu cynhyrchu cnydau GM ar raddfa fasnachol;

the National Assembly for Wales welcomes the main findings contained within the 'GM Nation?' report, which demonstrates that the general public are currently opposed to the commercialisation of GM crops;

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i lynu at yr egwyddor ragofalus a mabwysiadu'r polisi sy'n gosod y cyfyngiad cyfreithiol mwyaf ar gnydau GM, waeth beth fo safbwynt Llywodraeth y DU, a hynny er mwyn cydnabod y perygl sylweddol y maent yn ei fygwth i'r diwydiant organig a'r risgiau posibl i iechyd pobl, iechyd anifeiliaid a'r amgylchedd. (NDM1637)

calls upon the Welsh Assembly Government to apply the precautionary principle and adopt the most legally restrictive policy, regardless of the UK Government position, in relation to GM crops in recognition of the significant danger they pose to the organic industry and the potential risks to human health, animal health and the environment. (NDM1637)

Mae'n bleser cyflwyno'r cynnig hwn ar ran Plaid Cymru. Gobeithiaf y gall pob Aelod a phob plaid ei gefnogi. Yn y cynnig, yr ydym yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad 'GM Nation?: The findings of the public debate'. Mynegodd dros 37,000 o bobl eu barn ar hadau wedi'u haddasu'n enetig. Dywedodd dros hanner y bobl hynny nad oeddent am weld cnydau GM yn cael eu tyfu yn y Deyrnas Unedig. Dim ond 2 y cant ohonynt a ddywedodd bod cnydau GM yn dderbyniol

It is a pleasure to present this motion on behalf of Plaid Cymru. I hope that all Members and all parties can support it. In the motion, we welcome the findings of the report, 'GM Nation?: The findings of the public debate'. Over 37,000 people expressed their opinions on genetically modified seeds. Over half of those people stated that they do not wish to see GM crops being grown in the United Kingdom. Only 2 per cent said that GM crops are acceptable in all

ym mhob sefyllfa. Yr oedd 95 y cant o'r bobl yn cytuno y dylid ystyried o ddifrif y perygl o halogi cnydau nad ydynt yn rhai GM, a dim ond 5 y cant a gredai nad oedd perygl o halogi. Dim ond 8 y cant o'r rhai a ymatebodd oedd yn fodlon â'r syniad o fwyta bwyd wedi'i addasu'n enetig; 86 y cant a oedd yn anfodlon. Dim ond 7 y cant o'r bobl oedd yn hyderus y byddai datblygiad cnydau GM yn cael ei reoli'n ofalus, gydag 87 y cant yn wylidwrus ynglŷn a'r sefyllfa o ran rheoli. Dim ond 9 y cant o'r rhai a ymatebodd a oedd yn credu y byddai cnydau GM o gymorth i ffermwyr ym Mhrydain i gystadlu â ffermwyr mewn rhannau eraill o'r byd. Yr oedd 79 y cant yn credu na fyddai unrhyw fantais i ffermwyr Prydain.

Gallwn gasglu o'r ymatebion hyn bod lefel uchel o anfodlonrwydd ynghylch y syniad o dyfu cnydau GM yn fasnachol ym Mhrydain. Gwyddwn fod ymateb pobl Cymru i gnydau GM yn fwy negyddol fyth. Cynhaliodd Undeb Amaethwyr Cymru arolwg ar faes Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru eleni, ac yr oedd 90 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn anhapus â'r syniad o ddatblygu cnydau GM yng Nghymru. Oherwydd anfodlonrwydd ac amheuaeth pobl Cymru y cyflwynodd Plaid Cymru y cynnig hwn. Mae pobl yn wylidwrus, ac y mae disgwyl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymateb i lais a chonsŷrn y bobl a phenderfynu ar y mater hwn.

Yn ail ran y cynnig, galwn ar Lywodraeth Cymru i lynu at yr egwyddor ragofalus a fabwysiadwyd fel polisi'r Cynulliad ac i osod y cyfyngiadau cyfreithiol mwyaf ar gnydau GM yng Nghymru, beth bynnag fo ymateb Llywodraeth San Steffan. Mae gwelliant y Ceidwadwyr yn galw am adfer pwerau o ran tyfu cnydau GM o'r Undeb Ewropeaidd yn ôl i'r aelod wladwriaethau. Nid ydyw Plaid Cymru yn hyderus y gallwn ddibynnu ar Margaret Beckett a Tony Blair i adlewyrchu barn pobl Cymru ar y mater hwn. Yr ydym yn llawer hapusach i drafod y mater hwn yn Ewrop gyda phobl sy'n deall y problemau ac sydd am i'r cyfyngiadau gael eu cyflwyno. Mawr hyderaf y bydd y Gweinidog yn cydnabod mai Ewrop yw'r lle gorau iddo ddadlau achos Cymru. Ni fyddwn yn cefnogi

circumstances. Ninety-five per cent of the people agreed that the risk of contaminating non-GM crops should be given serious consideration, and only 5 per cent believed that there was no danger of contamination. Only 8 per cent of the respondents were happy with the idea of eating genetically modified food; 86 per cent were unhappy. Only 7 per cent of the people were confident that the development of GM crops would be carefully regulated, with 87 per cent worried about regulation. Only 9 per cent of those who responded believed that GM crops would assist producers in Britain in competing with farmers in other parts of the world. Seventy-nine per cent believed that there would be no advantage for British farmers.

The Welsh Liberal Democrats will oppose the amendment because we are unsure what the Conservatives mean by 'repatriation'. Which specific powers do you mean? Perhaps a Conservative Member will explain that to me. Would you prefer these powers to be exercised by Europe or by Tony Blair? The European Union, rather than the Westminster Government, may be a better bet for us in Wales in terms of establishing power over genetically modified crops. I urge members to support this motion.

Leanne Wood: This is Iraq mark 2: there is no supporting evidence, the public does not like it and the Government seems determined to overrule all opposition. Those are not my words; they are the words of former UK Government Secretary of State for Environment, Michael Meacher. As Minister, he proposed that liability for the losses to conventional and organic farmers should lie with the polluter, making growing GM crops even less financially attractive than they already are. It is a shame that he is no longer in post to push that case.

However, we must find other ways to protect organic and conventional farmers. Sales of organic food have begun to grow faster than sales in the computer industry. Why put an existing successful market at risk in favour of a market that currently does not exist and which no-one wants? As has been said, the public is against growing GM crops for commercial use, but there is every indication that Tony Blair will overrule public opinion,

Canfu 'GM Nation?' fod y rhai a gymerodd ran yn mynd yn fwy drwgdybus o Lywodraeth a chorfforaethau rhyngwladol. Bydd y ddadl hon yn ateb i apêl gan y rhai a ymatebodd i'r adroddiad hwn a chan y rhan fwyaf o'r cyhoedd, gan fod llawer o bobl yn ddrwgdybus dros ben. Felly, Weinidog, mae gennych lawer o faterion i'w hailddatgan wrth gloi'r ddadl hon. Croesawaf y ddadl hon.

Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gwrthwynebu'r gwelliant gan nad ydym yn sicr beth y mae'r Ceidwadwyr yn ei olygu wrth 'adfer yn ôl'. Pa bwerau penodol yr ydych yn eu golygu? Efallai y gwnaiff Aelod Ceidwadol egluro hynny i mi. A fyddai'n well gennych i'r pwerau hyn gael eu harfer gan Ewrop neu gan Tony Blair? Mae'n bosibl y byddai'n well i ni yng Nghymru ddibynnu ar yr Undeb Ewropeaidd, yn hytrach nag ar Lywodraeth San Steffan, o ran sefydlu awdurdod dros gnydau sydd wedi'u haddasu'n enetig. Anogaf Aelodau i gefnogi'r cynnig hwn.

Leanne Wood: Dyma'r ail Irac: nid oes tystiolaeth ategol, nid yw'r cyhoedd yn ei hoffi ac ymddengys fod y Llywodraeth yn benderfynol o wrthod pob gwrthwynebiad. Nid fy ngeiriau i yw'r rheini; geiriau cyn Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros yr Amgylchedd, Michael Meacher, ydynt. Pan oedd yn Weinidog, cynigiodd mai'r llygrwr a ddylai fod yn atebol am golledion i ffermwyr confensiynol ac organig, fel y byddai tyfu cnydau a addaswyd yn enetig yn llai atyniadol yn ariannol nag y mae'n awr hyd yn oed. Mae'n drueni nad yw yn y swydd honno bellach fel y gallai roi'r ddadl honno.

Fodd bynnag, rhaid inni ganfod dulliau eraill o ddiogelu ffermwyr organig a chonfensiynol. Mae gwerthiant bwyd organig wedi dechrau tyfu'n gyflymach na gwerthiant yn y diwydiant cyfrifiaduron. Pam y dylid peryglu marchnad sy'n llwyddiannus yn awr er mwyn marchnad nad yw'n bodoli ar hyn o bryd ac nad oes neb am ei chael? Fel y dywedwyd, mae'r cyhoedd yn gwrthwynebu tyfu cnydau sydd wedi'u haddasu'n enetig i

go against the advice of his economic advisers and give the go-ahead to grow GM crops commercially. Hence Michael Meacher's words that this is Iraq mark 2.

Should Tony Blair give that go-ahead, he would please a handful of powerful corporations and, yet again, the US Government, while bulldozing democracy. He is likely to make his decision soon, and the anti-GM campaign is ready. Thousands of people have signed Plaid Cymru's petition, which is part of the campaign led by Jill Evans MEP. Hundreds of people have signed the green gloves pledge, which states that, should the Government allow GM crops, gardeners everywhere will non-violently remove the crops from the ground. In addition to that, an action group has recently been established in Cardiff. It has been recognised that it is difficult to achieve results through the political process, and young people, in particular, are becoming increasingly frustrated with politicians who do not listen. Therefore, they are taking matters into their own hands. I will support those anti-GM activists and I call upon you to do the same, Minister.

5.10 p.m.

Tamsin Dunwoody-Kneafsey: I spoke at the original meeting in Mathry, as previously mentioned. We were extremely concerned about the proposal to plant GMOs down the road from where I live. It was not a particularly violent or disorderly group of people. It was simply a group of people who were extremely concerned about the likely development of GMOs in our county. Pembrokeshire depends on organic farming. It has farming at its heart, including conventional farming. I cannot support the Tory amendment. I take issue with what Glyn said about possible benefits to other areas of the world. Some of my colleagues also mentioned this. I am dubious about the benefits of GMOs to the third world, particularly as these are terminal seeds, and because of market domination, which has

ddibenion masnachol, ond mae pob arwydd y bydd Tony Blair yn mynd yn erbyn y farn gyhoeddus, yn mynd yn erbyn cyngor ei gynghorwyr economaidd ac yn rhoi sêl ei fendith ar dyfu cnydau a addaswyd yn enetig yn fasnachol. Hynny sy'n egluro geiriau Michael Meacher i'r perwyl mai hyn yw'r ail Irac.

Os bydd Tony Blair yn rhoi sêl ei fendith, byddai'n bodloni llond llaw o gorfforaethau pwerus ac, unwaith eto, Lywodraeth yr Unol Daleithiau, gan fwrw democratiaeth o'r neilltu. Mae'n debygol o benderfynu cyn hir, ac mae'r ymgyrch yn erbyn addasu genetig yn barod. Mae miloedd o bobl wedi llofnodi deiseb Plaid Cymru, sy'n rhan o'r ymgyrch a arweinir gan Jill Evans ASE. Mae cannoedd o bobl wedi llofnodi'r addewid menyg gwyrdd, sy'n datgan, os bydd y Llywodraeth yn caniatáu cnydau a addaswyd yn enetig, y bydd garddwyr ym mhobman yn tynnu'r cnydau o'r ddaear mewn modd di-drais. Yn ogystal â hynny, sefydlwyd grŵp gweithredu yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Cydnabuwyd y bydd yn anodd mynd â'r maen i'r wal drwy'r broses wleidyddol, ac mae pobl ifanc, yn benodol, yn mynd yn fwyfwy rhwystredig yn wyneb gwleidyddion nad ydynt yn gwrando. Gan hynny, maent yn ymorol am hyn eu hunain. Cefnogaf y rhai hynny sy'n gweithredu yn erbyn addasu genetig a galwaf arnoch chi i wneud yr un fath, Weinidog.

Tamsin Dunwoody-Kneafsey: Siaredais yn y cyfarfod cyntaf ym Mathry, fel y dywedwyd o'r blaen. Yr oeddem yn bryderus dros ben ynghylch y bwriad i blannu organebau a addaswyd yn enetig yn agos i'r lle yr wyf yn byw. Nid oedd yn grŵp arbennig o dreisgar neu anhrefnus. Nid oedd ond yn grŵp o bobl a oedd yn bryderus dros ben ynghylch y tebygolrwydd o dyfu organebau a addaswyd yn enetig yn ein sir. Mae Sir Benfro yn dibynnu ar ffermio organig. Mae ffermio, gan gynnwys ffermio confensiynol, yn rhan annatod ohoni. Ni allaf gefnogi gwelliant y Toriaid. Anghytunaf â'r hyn a ddywedodd Glyn am y manteision posibl i rannau eraill o'r byd. Cyfeiriodd rhai o'm cyd-Aelodau at hyn hefyd. Yr wyf yn amheus a yw organebau a addaswyd yn enetig yn fanteisiol i'r trydydd byd, yn enwedig gan mai hadau

been mentioned previously. When you are an extremely poor farmer you do not have the luxury of choice, because you do not have the money, so you take what is there. Until we are convinced that GMOs are safe to be released into the environment, it is wisest to sit back and consider the soya crop in America, as well as what happens to the mutations of seeds, antibiotics and pesticides. I have enormous concerns about the effect on the biodiversity of our areas. We must examine closely the ability to use separation distances and continue to use precautionary methods. I seek that assurance from the Minister.

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): Let us examine the history of this matter. The Assembly has always taken the view that it should operate the most restrictive policy possible. That is the exact wording that has been used in the past when we debated this matter. Back in 2001, Members will remember that we imposed separation distances between GM crops and conventional crops. As a result, an article 16 notification was taken to the European Commission regarding a potential conflict between the GM regime and the conventional regime in Wales. The outcome of that notification was to engender a fundamental debate in Europe on the role of GM crops, and how they might interact with conventional and organic crops. On 29 September, the European ministerial council discussed this, and five nations, so far, have come out in support of the idea of GM-free zones. The UK Government position has been reserved so far, because two important reports are yet to be published before it, and the Assembly, to an extent, can decide how to move forward. At the ministerial council meeting, only two nations, Spain and Portugal, came out against the ability to allow for GM-free zones in Europe. Therefore, so far, that is five-two. Other countries are considering their position.

terfynol yw'r rhain, ac oherwydd y tra-arglwyddiaethu ar y farchnad, a grybwyllwyd cyn hyn. Os ydych yn ffermwr tlawd iawn, nid oes gennych le i ddewis, gan nad oes digon o arian gennych, felly yr ydych yn cymryd yr hyn sydd ar gael. Hyd nes y cawn ein hargyhoeddi ei bod yn ddiogel rhyddhau organebau sydd wedi'u haddasu'n enetig i'r amgylchedd, y peth doethaf yw disgwyl ac ystyried y cnwd soia yn America, yn ogystal â'r hyn sy'n digwydd i'r mwntadiadau mewn hadau, gwrthfotigau a phlalladdwyr. Mae gennyf bryderon mawr iawn ynghylch yr effaith ar fioamrywiaeth ein hardaloedd. Rhaid inni ystyried y gallu i ddefnyddio pellteroedd gwahanu yn ofalus a dal i ddefnyddio dulliau rhagofalus. Ceisiaf sicrwydd ar hynny gan y Gweinidog.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Gadewch inni ystyried hanes y mater hwn. Barn y Cynulliad erioed yw y dylai ddilyn y polisi mwyaf cyfyngiadol posibl. Dyna'r union eiriau a ddefnyddiwyd o'r blaen pan gawsom ddadl ar y mater hwn. Yn ôl yn 2001, bydd Aelodau'n cofio inni osod pellteroedd gwahanu rhwng cynydu a addaswyd yn enetig a chnydau confensiynol. O ganlyniad i hynny, aed â hysbysiad erthygl 16 i'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch gwrthdaro posibl rhwng y gyfundrefn cynydu a addaswyd yn enetig a'r gyfundrefn cynydu confensiynol yng Nghymru. Oherwydd yr hysbysiad hwnnw, cychwynwyd dadl sylfaenol yn Ewrop ar rôl cynydu a addaswyd yn enetig, a'r modd y gallent ryngweithio â chnydau confensiynol ac organig. Ar 29 Medi, trafodwyd hynny gan gyngor Gweinidogion Ewrop, a hyd yn hyn mae pum gwlad wedi cyhoeddi eu cefnogaeth i'r syniad o barthau sy'n rhydd oddi wrth gnydau a addaswyd yn enetig. Nid yw Llywodraeth y DU wedi datgan ei safbwynt hyd yma, gan y bydd yn rhaid i ddau adroddiad pwysig gael eu cyhoeddi cyn y bydd hi, a'r Cynulliad i raddau, yn gallu penderfynu ar y ffordd ymlaen. Yng nghyfarfod cyngor y Gweinidogion, dim ond dwy wlad, Sbaen a Phortiwgal, a ddatganodd eu bod yn gwrthwynebu'r gallu i ddarparu ar gyfer parthau sy'n rhydd oddi wrth gnydau a addaswyd yn enetig yn Ewrop. Gan hynny, hyd yma, mae pump yn erbyn dwy. Mae gwledydd eraill yn ystyried eu safbwynt.

We must remember that the reason why this debate has got this far in Europe is, in the main, because of the policy that was put in place by the Assembly Government, following an Assembly decision, all those years ago. We have managed to get our concerns addressed at a European level, where they should be addressed.

We must bear two important dates in mind. On 16 October, the results of the farm-scale evaluations will be made known. That will inform us of the best way forward. No decision will be taken on the listing of Chardon LL at least until we know the outcome of the farm-scale evaluation trials, and then it must be decided by all UK Ministers. My position must be guided by the decision that has already been taken by the Assembly, which is to follow the most restrictive policy possible.

Secondly, in November this year, the Agriculture and Environment Biotechnology Commission will produce its latest report on separation distances and how GM crops are to interact, if at all, with conventional and organic crops. Until we have that report, it will be difficult to move forward in terms of developing our policy. Therefore, it is not simply a question of delay or some kind of grand conspiracy on behalf of the Westminster Government, working in cahoots with us so that, so far, there has been no further policy development. We must wait until these two documents are available before we move forward.

On how we deal with matters thereafter, turning to the amendment tabled by the Conservative group, I do not see the point of transferring powers from Europe to the UK, although it might be interesting to call for them to be transferred to Wales. These matters must be decided at European level for two reasons. The first is that GM crops do not respect national boundaries, which is why it is better to take decisions on anything pertaining to the environment on a wider, broader level—at European or world level, if possible—rather than concentrating on finding a purely Welsh or British solution. Secondly, we must remember that we have

Rhaid inni gofio mai'r rheswm pennaf yr aeth y ddadl hon mor bell yn Ewrop yw'r polisi a sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad, ar ôl penderfyniad gan y Cynulliad, flynyddoedd yn ôl. Yr ydym wedi llwyddo i gael sylw i'n pryderon ar lefel Ewropeaidd, lle y dylid ymdrin â hwy.

Rhaid inni gadw dau ddyddiad pwysig mewn cof. Ar 16 Hydref, cyhoeddir canlyniadau'r gwerthusiadau ar brofion ar ffermydd. Bydd hynny'n rhoi gwybod inni am y ffordd orau ymlaen. Ni phenderfynir ynghylch rhestru Chardon LL hyd nes y cawn wybod canlyniad y profion gwerthuso ar ffermydd, a rhaid i holl Weinidogion y DU benderfynu ar hynny. Bydd yn rhaid i'm safbwynt gael ei lywio gan y penderfyniad a wnaeth y Cynulliad eisoes, sef y dylid dilyn y polisi mwyaf cyfyngiadol posibl.

Yn ail, ym mis Tachwedd eleni, bydd Comisiwn Biotechnoleg Amaethyddiaeth a'r Amgylchedd yn cynhyrchu ei adroddiad diweddaraf ar bellteroedd gwahanu a'r modd y bydd cnydau sydd wedi'u haddasu'n enetig yn rhyngweithio, os byddant o gwbl, â chnydau confensiynol ac organig. Hyd nes y cawn yr adroddiad hwnnw, bydd yn anodd symud ymlaen o ran datblygu ein polisi. Gan hynny, mae'n fwy na dim ond mater o oedi neu o ryw gynllwyn mawr ar ran Llywodraeth San Steffan, yn gyfrannog â ni, fel na fu rhagor o ddatblygu ar bolisi hyd yn hyn. Rhaid inni ddisgwyl hyd nes y bydd y ddwy ddogfen hyn ar gael cyn inni symud ymlaen.

Ynghylch y modd y byddwn yn ymdrin â materion ar ôl hynny, gan droi at y gwelliant a gyflwynwyd gan y grŵp Ceidwadol, ni welaf ddiben mewn trosglwyddo pwerau o Ewrop i'r DU, er y gallai fod yn ddiddorol galw am eu trosglwyddo i Gymru. Rhaid penderfynu ar y materion hyn ar lefel Ewropeaidd am ddau reswm. Y cyntaf yw nad yw cnydau sydd wedi'u haddasu'n enetig yn parchu ffiniau gwledydd, a dyna pam y mae'n well penderfynu ar unrhyw beth sy'n ymwneud â'r amgylchedd ar lefel ehangach—ar lefel Ewrop neu lefel y byd, os oes modd—yn hytrach na chanolbwyntio ar ganfod ateb cwbl Gymreig neu Brydeinig. Yn

substantial support in Europe, not only from member states, but also from other regions that have expressed strong views on GM crops and their potential effect on the environment and on health. To see those powers repatriated would be to cut ourselves off from that support. Therefore, it would be an unfortunate line to follow, as it would cut us off from much of the support that we already have.

Glyn Davies: I am just trying to gather up in my mind exactly what you are telling us, Minister. Is it that your influence with the Labour Government at Westminster is so weak that you do not feel confident of being able to influence it? That is what it sounds like.

Carwyn Jones: No. In fact, I am saying that our influence at European level has been strong, as is obvious from the fact that this issue is firmly on the European agenda. It is no good for us to say that member states should decide on this matter, because we must remember that Europe is small in area; there is no guarantee that there would not be any cross-contamination. For example, the border between the UK and the Republic of Ireland is probably the most porous international border in the world. If the Republic of Ireland had a separate policy, permitting GM crops to be grown, what would we say to the people of Northern Ireland if there were a risk of contamination? We must take a European view on this, and take a decision that is as restrictive as possible. We need to project our view not only to the UK Government, but also to our partners in Europe. That is currently proceeding well.

In terms of the decision-making process, we must await the publication of those two reports. We will then be influencing policy not just at UK level but also at European level. There is no question of pre-determined policies, or Tony Blair sitting in a bunker somewhere deciding to overrule everybody. That is just party political pap, frankly. We are working hard with our partners in Europe and with the UK. Consider the wording of this motion. It clearly states that we should

ail, rhaid inni gofio bod gennym gefnogaeth sylweddol yn Ewrop, nid yn unig gan aelod wladwriaethau, ond hefyd gan ranbarthau eraill sydd wedi mynegi barn bendant ar gnydau a addaswyd yn enetig a'u heffeithiau posibl ar yr amgylchedd ac ar iechyd. Byddai adfer y pwerau hynny'n ôl yn golygu colli cysylltiad â'r gefnogaeth honno. Gan hynny, byddai'n bolisi anffodus, gan y byddai'n ein torri oddi wrth lawer o'r gefnogaeth sydd gennym eisoes.

Glyn Davies: Yr wyf yn ceisio casglu beth yn union yr ydych yn ei ddweud wrthym, Weinidog. Ai am fod eich dylanwad ar y Llywodraeth Lafur yn San Steffan mor wan yr ydych yn teimlo na allwch dylanwadu arni? Felly y mae'n ymddangos.

Carwyn Jones: Nace. Mewn gwirionedd, yr wyf yn dweud bod ein dylanwad ar lefel Ewrop wedi bod yn gryf, fel y mae'r ffaith bod lle pendant i'r mater hwn ar yr agenda Ewropeaidd yn dangos. Nid yw'n werth inni ddweud mai aelod wladwriaethau a ddylai benderfynu ar y mater hwn, oherwydd rhaid inni gofio bod Ewrop yn fach o ran ei harwynebedd; nid oes unrhyw sicrwydd o gwbl na fyddai croeshalogi. Er enghraifft, mae'n debyg mai'r ffin rhwng y DU a Gweriniaeth Iwerddon yw'r ffin ryngwladol fwyaf hydraid yn y byd. Pe byddai gan Weriniaeth Iwerddon bolisi gwahanol, a oedd yn caniatáu tyfu cnydau a addaswyd yn enetig, beth a ddywedem wrth bobl Gogledd Iwerddon os oedd perygl o halogi? Rhaid inni edrych ar hyn o safbwynt Ewropeaidd, a gwneud penderfyniad sydd mor gyfyngiadol ag y bo modd. Rhaid inni gyfleu ein barn nid yn unig i Lywodraeth y DU, ond hefyd i'n partneriaid yn Ewrop. Mae hynny'n mynd yn hwylus ar hyn o bryd.

Yng nghyd-destun y broses benderfynu, rhaid inni ddisgwyl cyhoeddi'r ddau adroddiad hynny. Byddwn yn dylanwadu ar bolisi wedyn nid yn unig ar lefel y DU ond ar lefel Ewropeaidd hefyd. Nid oes unrhyw le i gredu bod polisiau wedi'u pennu ymlaen llaw, neu fod Tony Blair yn eistedd mewn byncher yn rhywle yn penderfynu mynd yn groes i bawb. Rwtsh pleidiol wleidyddol yw hynny, a dweud y gwir. Yr ydym yn gweithio'n galed gyda'n partneriaid yn Ewrop a chyda'r DU.

'apply the precautionary principle', reiterating what we said before. We should 'adopt the most legally restrictive policy', which is important because we must work within the law, 'regardless of the UK Government position'. Of course we must have our own position on this matter, but it does not mean that we are spending our time fighting the UK Government. We will work in tandem to ensure that it comes round to our position. We want to ensure that our position is that held by the most people and the most levels of government within the UK. That is an important point.

Rhodri Glyn Thomas asked whether I knew what had happened to produce that had been returned to America. I guarantee that crops are not being grown commercially in Wales. My view is that growing crops 'commercially' means making a profit, which has not happened here. The residue of crops has been returned to America, and it is a matter for the Americans to decide what to do with them. However, crops have not been grown in Wales for commercial gain for growers. We have held tests in Wales. That has occurred in the past, but there are no current plans to hold any further tests.

Turning to the question of GM-free Wales, the Assembly never declared that Wales would be GM free, because it is impossible, and would mislead the public. We declared that we would have the most restrictive policy possible, as Mick Bates rightly pointed out; that is what I said at the royal Welsh show. If we say that we want to be GM free, people will be under the impression that we can ensure that there are no GM products in the food that we or animals eat. It is not possible to ensure that. We must have a policy in place that we can keep to and implement. If we say that we are a GM-free nation, we are misleading the public. It is a snappy slogan, but it does not mean anything. If Plaid Cymru thought that it would be of value for me to declare today that Wales would be GM free, then it should have placed that in the wording of the motion. As it happens, the motion is worded quite sensibly;

Ystyriwch eiriau'r cynnig hwn. Mae'n datgan yn glir y dylem 'lynu at yr egwyddor ragofalus', gan ailddatgan yr hyn a ddywedasom o'r blaen. Dylem 'fabwysiadu'r polisi sy'n gosod y cyfyngiad cyfreithiol mwyaf', sy'n bwysig oherwydd rhaid inni weithio'n unol â'r gyfraith, 'waeth beth fo safbwynt Llywodraeth y DU'. Wrth gwrs, rhaid inni fod â'n safbwynt ein hun ar y mater hwn, ond nid yw'n golygu ein bod yn treulio ein hamser yn ymladd â Llywodraeth y DU. Gwnawn weithio ar y cyd i sicrhau ei bod yn dod i arddel ein safbwynt ni. Yr ydym am sicrhau mai ein safbwynt ni a arddelir gan y rhan fwyaf o bobl a'r rhan fwyaf o lefelau llywodraeth o fewn y DU. Mae hwnnw'n bwynt pwysig.

Gofynnodd Rhodri Glyn Thomas a wyddwn beth a ddigwyddasai i gynnyrch a ddychwelwyd i America. Gwarantaf nad yw cynydau'n cael eu tyfu'n fasnachol yng Nghymru. Yn fy marn i, mae tyfu cynydau 'yn fasnachol' yn golygu gwneud elw, ac ni ddigwyddodd hynny yn yr achos hwn. Dychwelwyd gweddill y cynydau i America, a mater i'r Americanwyr yw penderfynu beth i'w wneud â hwy. Fodd bynnag, ni thyfwyd cynydau yng Nghymru er budd masnachol y tyfwyr. Yr ydym wedi cynnal profion yng Nghymru. Digwyddodd hynny yn y gorffennol, ond nid oes bwriad ar hyn o bryd i gynnal profion pellach.

Gan droi at y mater o Gymru sy'n rhydd oddi wrth addasu genetig, nid yw'r Cynulliad erioed wedi datgan y byddai Cymru'n rhydd oddi wrth addasu genetig, gan fod hynny'n amhosibl, a byddai'n camarwain y cyhoedd. Gwnaethom ddatgan y caem y polisi mwyaf cyfyngiadol posibl, fel y nododd Mick Bates; dyna'r hyn a ddywedais yn sioe frenhinol Cymru. Os dywedwn ein bod yn dymuno bod yn rhydd oddi wrth addasu genetig, bydd pobl dan argraff y gallwn sicrhau nad oes cynhyrchion a addaswyd yn enetig yn y bwyd yr ydym ni neu anifeiliaid yn ei fwyta. Nid oes modd sicrhau hynny. Rhaid inni roi polisi ar waith y gallwn ddal ato a'i weithredu. Os dywedwn ein bod yn wlad sy'n rhydd oddi wrth addasu genetig, yr ydym yn camarwain y cyhoedd. Mae'n slogan bachog, ond nid yw'n golygu dim. Os credai Plaid Cymru y byddai o werth imi ddatgan heddiw y byddai Cymru'n rhydd oddi wrth addasu genetig,

it does not call for a declaration that Wales should be GM free. I would not agree with such a declaration, as it would mean that we were not being straight with the public, and misleading them into thinking that the food that we eat, the atmosphere, or the food that animals eat, are under no influence from GM crops. However, it is viable and fair to say that we will have the most restrictive policy possible in the areas where we can make a difference. That is the important principle to which we are adhering.

dylai fod wedi cynnwys hynny yng ngeiriau'r cynnig. Fel y mae'n digwydd, mae'r cynnig wedi'i eirio'n eithaf synhwyrol; nid yw'n galw am ddatgan y dylai Cymru fod yn rhydd oddi wrth addasu genetig. Ni chytunwn â datganiad o'r fath, gan y golygai na fyddem yn dweud y gwir wrth y cyhoedd, ac y byddem yn eu camarwain i gredu nad yw'r bwyd a fwytawn, yr atmosffer, neu'r bwyd y mae anifeiliaid yn ei fwyta, o dan unrhyw ddylanwad o gwbl gan gnydau a addaswyd yn enetig. Fodd bynnag, teg a dichonol yw dweud y cawn y polisi mwyaf cyfyngiadol posibl yn y meysydd lle y gallwn wneud gwahaniaeth. Dyna'r egwyddor bwysig yr ydym yn glynu wrthi.

5.20 p.m.

The Government is happy to support the motion. It is a sensibly worded motion that makes the important distinction between the substantial danger to industry on the one hand, and the potential risk to the environment and health on the other. That is important, based on existing evidence and the economic effects on the organic industry were GM crops allowed to be grown unabated, not only in Wales but across Europe. Remember also that we must influence what happens in England. It would be all very well for us to ban GM crops in Wales in future, were that route open to us; that would be pointless if such crops were being grown 500 yds over the border, as that would inevitably have an effect on crops growing in Wales. We must influence the Welsh agenda and have our own policy, of course, but we must also influence the agenda at a British and European level. We are not in open conflict with the UK Government, and it has not closed its eyes and its ears to our position. We will continue to influence the British position and, importantly, the European position. I reiterate—it is almost like a confession of faith—that we will operate the most restrictive policy possible. I am fully aware that that is the Assembly's settled view, and it is that view that will form the basis of any negotiating position that I will take with UK and European colleagues.

Mae'r Llywodraeth yn falch o gefnogi'r cynnig. Mae'n gynnig a eiriwyd yn synhwyrol sy'n gwahaniaethu, fel y mae'n bwysig gwneud, rhwng y perygl sylweddol i ddiwydiant ar y naill law, a'r risg posibl i'r amgylchedd ac iechyd ar y llall. Mae hynny'n bwysig, ar sail y dystiolaeth bresennol a'r effeithiau economaidd ar y diwydiant organig pe caniateid tyfu cnydau a addaswyd yn enetig yn ddi-baid, nid yn unig yng Nghymru ond ledled Ewrop. Cofiwch hefyd fod rhaid inni ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Gorau oll os gallem wahardd cnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru yn y dyfodol, os oedd y llwybr hwnnw'n agored i ni; ni fyddai unrhyw ddiben i hynny os oedd cnydau o'r fath yn cael eu tyfu 500 llath dros y ffin, gan y byddent yn sicr o effeithio ar gnydau sy'n tyfu yng Nghymru. Rhaid inni ddylanwadu ar yr agenda yng Nghymru a chael ein polisi ein hun, wrth gwrs, ond rhaid inni hefyd ddylanwadu ar yr agenda ar lefel Brydeinig ac Ewropeaidd. Nid ydym yn gwrthdaro'n agored â Llywodraeth y DU, ac nid yw'n anwybyddu ein safbwynt. Byddwn yn dal i ddylanwadu ar y safbwynt Prydeinig ac, yn bwysig, ar y safbwynt Ewropeaidd. Ailddatganaf—mae'n debyg bron i gyffes ffydd—y gwnawn ddilyn y polisi mwyaf cyfyngiadol posibl. Yr wyf yn gwbl ymwybodol mai hynny yw barn bendant y Cynulliad, a'r farn honno a fydd yn sail i unrhyw safbwynt a gymeraf wrth negodi â chyd-Weinidogion yn y DU ac Ewrop.

Rhodri Glyn Thomas: Croesawaf yr ymateb

Rhodri Glyn Thomas: I welcome the

cadarnhaol i gynnig Plaid Cymru. Ymatebaf i rai o'r sylwadau a wnaethpwyd. Croesawaf y rhan helaeth o araith Glyn Davies, ond anghytunaf â'i sylwadau ynghylch manteision i gynhyrchwyr. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth bod manteision i gynhyrchwyr. Yn wir, awgryma tystiolaeth o Ganada bod y gwrthwyneb yn wir: rhaid iddynt chwynu â llaw yno oherwydd i gymaint o chwyn godi yn sgîl cnydau GM. Rhaid iddynt droi at hen gemegau, nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio'n arferol, er mwyn datrys y problemau a achoswyd gan y cnydau.

Nododd Jocelyn Davies safbwynt cyson, clir Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn. Yr oeddwn yn falch o glywed Carwyn Jones yn dweud y bydd yn parhau i geisio dylanwadu ar safbwynt San Steffan ac Ewrop, a bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arwain y ffordd ar hyn.

Soniodd Jocelyn a Carwyn am sylwadau Don Touhig yn San Steffan ynghylch *gesture politics*. Cyfeiriodd Don Touhig at yr alwad yn yr 1980au am Gymru ddi-niwclear. Mae llawer ohonom yn cofio hynny, a bu nifer ohonom yn rhan o'r ymgyrch. Yr oeddem yn ymwybodol na allai Cymru fod yn gwbl ddi-niwclear, ond dyna oedd dyhead pobl Cymru. Gofynnwn i'r Gweinidog fynegi dyhead pobl Cymru i Gymru fod yn rhydd o gnydau GM, hyd yn oed os nad ydyw hynny'n ymarferol bosibl. Derbyniwn efallai nad ydyw'n bosibl, ond gallwn fod yn enau dros ddyhead pobl Cymru. Os ydyw Don Touhig am sôn am *gesture politics* yna, ydym, yr ydym am ddweud yn glir wrth gwmmniau mawr rhyngwladol nad oes croeso iddynt yng Nghymru ac nad ydyw pobl Cymru'n croesawu eu hymlyniad wrth elw a'u diffyg consÿm am les pobl. Os oes rhaid dweud hynny'n swta wrthynt, yr ydym yn barod i wneud hynny.

Soniodd Brian am yr angen i sicrhau bod y dystiolaeth yn wyddonol gadarn. Nid oes tystiolaeth i brofi bod cnydau wedi'u haddasu'n enetig yn ddiogel. Gallwch sôn am rai o'r manteision posibl, ond y gwir amdani yw bod tystiolaeth cyrff annibynnol, megis y corff sy'n trafod safonau bwyd o fewn Mudiad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig, yn awgrymu bod perygl

positive response to Plaid Cymru's motion. I will respond to some of the comments made. I welcome Glyn Davies's speech for the most part, but I disagree with his comments on benefits for producers. I am not aware of any evidence of benefits for producers. In fact, Canadian evidence suggests to the contrary: the Canadians must weed by hand because GM crops have led to prolific weed growth. They must revert to using old chemicals that are no longer in common use in order to solve the problems caused by the crops.

Jocelyn Davies noted the National Assembly for Wales's constant and unambiguous stance on this. I was pleased to hear Carwyn Jones say that he will continue to try to influence the stance taken in Westminster and Europe, and that the National Assembly for Wales is leading the way on this.

Jocelyn and Carwyn mentioned Don Touhig's comments about *gesture politics*. Don Touhig referred to the nuclear-free Wales campaign in the 1980s. Many of us remember that, and were part of the campaign. We were aware that Wales could not be entirely nuclear-free, but that was the desire of the people of Wales. We ask the Minister to express the desire of the people of Wales for Wales to be free of GM crops, even if that is not possible in practice. We accept that it is perhaps not possible, but we can voice the desires of the people of Wales. If Don Touhig wants to talk of *gesture politics* then, yes, we want to make it clear to large international companies that they are not welcome in Wales, and that the people of Wales do not welcome their adherence to profit and their disregard for people's welfare. If a crude *gesture* is required in order to do that, so be it.

Brian mentioned the need to ensure that the evidence is scientifically sound. There is no evidence to prove that genetically modified crops are safe. You can mention some of the possible benefits, but the truth is that the evidence of independent bodies, such as the food standards body within the Food and Agriculture Organization of the United Nations, suggests that there is a serious risk

gwirioneddol bod cynydau GM yn creu tocsinau ac yn achosi alergedd, a hefyd yn golygu bod pobl yn llai abl i wrthsefyll gwrthfotigau.

Rhaid cymryd y dystiolaeth honno o ddifrif. Fel y soniodd y Gweinidog, yr ydym am sicrhau ein bod yn rhoi'r hualau mwyaf llym ar waith.

I remind you, Brian, that when the Assembly discussed the precautionary approach and the regulations on deliberate releases, you voted in favour of the precautionary approach. Even though I would take issue with what you said, I accept your argument about possible benefits. However, there is no proof of safety and, until we have that proof, we should continue with our precautionary approach.

Mae Alun Ffred Jones yn gywir i ddweud y dylai unrhyw sefydliad sydd yn cymryd ei hun o ddifrif edrych ar ei bwerau a'u defnyddio hyd yr eithaf. Yr ydym yn galw ar Lywodraeth Cymru, os yw hi'n Lywodraeth sydd eisiau llywodraethu, i edrych ar yr hyn y gellid ei gyflawni a gwthio'r ffiniau. Yr wyf yn annog y Gweinidog i ailedrych ar y sefyllfa gan nad yw'r dystiolaeth yn glir ynghylch a oes gan Gymru hawl, fel rhan o Ewrop, i fod yn wlad sy'n rhydd o gnydau GM. Pam nad yw'r Gweinidog yn ceisio gwthio hynny hyd yr eithaf a sicrhau ein bod yn gwneud defnydd llawn o'n hawliau?

Yr oedd Mick Bates yn gywir i sôn am gymunedau cynaliadwy a pherygl cwmnïau mawr rhyngwladol. Cymeradwyaf ei holl sylwadau. Yr wyf yn cytuno gyda phwyntiau Leanne Wood wrth iddi ein rhybuddio ynglŷn â phenderfyniad arfaethedig o du San Steffan. Mae'r rhagolygon o gyfeiriad Margaret Beckett a Tony Blair yn awgrymu'n gryf y byddant yn caniatáu i gnydau GM masnachol gael eu tyfu. Rhaid i Gymru sefyll yn gadarn, gan fod yn glir ynglŷn â'n hawl i ddiogelu ein buddiannau a'n ffermwyr. Yr wyf hefyd yn cytuno â Tamsin Dunwoody-Kneafsey ynglŷn â'r gofidiau a rannwn a'r amheuaeth ynghylch pa fudd a gaiff cynhyrchwyr o gnydau GM.

Ar y cyfan, yr wyf yn croesawu yr hyn a ddywedodd y Gweinidog. Serch hynny, er

that GM crops create toxins and cause allergy, and that people's resistance to antibiotics will be diminished.

This evidence must be taken seriously. As the Minister said, we want to ensure that we put the tightest possible restrictions in place.

Yr wyf yn eich atgoffa, Brian, pan drafododd y Cynulliad y dull gweithredu rhagofalus a'r rheoliadau ar ryddhau bwriadol eich bod wedi pleidleisio o blaid y dull gweithredu hwnnw. Er y byddwn yn anghydweld â'r hyn a ddywedasoch, yr wyf yn derbyn eich dadl am y manteision posibl. Er hynny, nid oes unrhyw brawf o ddiogelwch a, hyd nes y cawn y prawf hwnnw, dylem ddal i ddilyn ein dull gweithredu rhagofalus.

Alun Ffred Jones was right to say that any institution that takes itself seriously must consider its powers and make maximum use of them. We are calling on the Government of Wales, if it is a Government that wants to govern, to look at what could be achieved and push the boundaries. Given that the evidence is far from clear as regards whether Wales has a right within Europe to be a GM-free country, I urge the Minister to reconsider the situation. Why is the Minister not trying to push the point as far as possible in order to take full advantage of our rights?

Mick Bates was right to talk about sustainable communities and the danger posed by large international companies. I commend everything that Mick said. I agree with Leanne Wood's points in warning us of an imminent decision in Westminster. The signs from Margaret Beckett and Tony Blair strongly suggest that they will permit the growing of commercial GM crops. Wales must stand firm and be clear about our right to protect our interests and our farmers. I also agree with Tamsin Dunwoody-Kneafsey regarding our shared concerns and the doubts about what benefits GM crops will bring to producers.

On the whole, I welcome the Minister's contribution. However, even though he talked

iddo sôn am Gymru yn arwain y ffordd yn Ewrop, yr wyf yn poeni nad yw'r Gweinidog a'r Llywodraeth yn barod i wneud safiad dros bobl Cymru. Mae eu dymuniad yn gwbl glir, ond yr hyn nad yw'n glir yw a yw Llywodraeth Cymru a'r Blaid Lafur yn barod i sefyll dros hynny a gweithredu ar ein rhan.

about Wales taking a lead in Europe, I am concerned that the Minister and the Government are not willing to make a stand on behalf of the people of Wales. The people's wishes are clear. What is not clear is whether the Government of Wales and the Labour Party are prepared to make a stand and act on our behalf.

Gwelliant 1: O blaid 8, Ymatal 0, Yn erbyn 44.

Amendment 1: For 8, Abstain 0, Against 44.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bourne, Nick
Davies, Glyn
Francis, Lisa
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Laura Anne
Melding, David
Morgan, Jonathan

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
Essex, Sue
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment rejected.*

Cynnig (NDM1637): O blaid 52, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Motion (NDM1637): For 52, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Gregory, Janice
Gibbons, Brian
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Y Llywydd: Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.
The Presiding Officer: That brings today's proceedings to a close

Daeth y cyfarfod i ben am 5.29 p.m.

The meeting ended at 5.29 p.m.

Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Glyn (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Dunwoody-Kneafsey, Tamsin (Llafur - Labour)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Essex, Sue (Llafur – Labour)
 Francis, Lisa (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Gwyther, Christine (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Idris Jones, Denise (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Laura Anne (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Law, Peter (Llafur – Labour)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Marek, John (Annibynnol – Independent)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Pugh, Alun (Llafur – Labour)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Catherine (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Owen John (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)

